Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel

Adroddiad i Ofal Cymdeithasol Cymru ysgrifennwyd gan CASCADE, Prifysgol Caerdydd

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

Adroddiad i Ofal Cymdeithasol Cymru gan

Annie Williams, Hannah Bayfield, Martin Elliott, Jennifer Lyttleton-Smith, Rhiannon Evans, Honor Young, Sara Long

## Manylion cyswllt

Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd CF10 1EW
Ffôn: 0300 30 33 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofalcymdeithasol.cymru
gofalcymdeithasol.cymru

© Gofal Cymdeithasol Cymru 2019

Cedwir pob hawl. Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adfer neu ei throsglwyddo ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw Gofal Cymdeithasol Cymru.

Dylid anfon ymholiadau atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad uchod.

**Fformatau eraill:**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

# Cynnwys


Rhagair....4

Cydnabyddiaethau....4

Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi ac ymarfer....7

Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel....8

Adran 1: Cyflwyniad....8

Adran 2: Negeseuon allweddol o'r ymchwil i gyd-destunau a phrofiadau pobl ifanc a atgyfeirir i lety diogel....8

Adran 3: Dulliau ac ystyriaethau moesegol....10

Adran 4: Defnydd pobl ifanc o lety diogel....12

Adran 5: Profiadau cyn atgyfeiriad i lety diogel....16

Adran 6: Profiadau pobl ifanc o fynd i mewn i lety diogel....22

Adran 7: Bywyd mewn llety diogel....25

Adran 8: Gadael llety diogel....31

Adran 9: Profiadau a chanlyniadau tymor hir pobl ifanc....38

Adran 10: Trafodaeth: Beth yw'r problemau?....39

Adran 11: Argymhellion: Beth y gellir ei wneud?....43

Adran 12: Cyfeiriadau....44

Adran 13: Atodiadau....47

- 13.1 Dulliau ac ystyriaethau moesegol....47
- 13.2 Canllaw archwilio ffeiliau....51
- 13.3 Atodlenni cyfweliad....52
- 13.4 Taflenni gwybodaeth....55

## Rhagair

Mae *Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel* yn ddarn o ymchwil sy'n torri tir newydd. Credwn mai dyma'r ymchwil cyntaf o'r fath yn DU i ofyn i blant a phobl ifanc am eu profiadau. Mae'r adroddiad yn rhoi llais cryf i'r plant a phobl ifanc a chafodd eu cyfweld, ac roedd ganddynt hwy negeseuon clir i ni eu hystyried.

Daeth yn amlwg bod angen comisiynu ymchwil i gasglu tystiolaeth annibynnol ar ôl i nifer o sefydliadau nodi eu pryderon am ganlyniadau'r plant hyn, a'r her o ddarparu'r gofal priodol iddynt ar yr amser iawn. Maen nhw wedi profi trawma a chamdriniaeth, ac maent yn hynod fregus, sydd wedi arwain at yr angen iddynt dderbyn gofal mewn llety diogel er mwyn eu lles a'u diogelwch eu hunain.

Gofynnon ni i CASCADE i ystyried profiadau'r holl blant a phobl ifanc yng Nghymru a oedd yn destun Gorchymyn Llety Diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad hwn yn hanes eang a thrwyadl o'u profiadau ac yn cynnwys hanesion plant a phobl ifanc am sut mae derbyn gofal mewn llety diogel wedi effeithio ar eu bywydau.

Er bod traean o'r bobl ifanc y mae gennym wybodaeth amdanynt yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol, nid yw'r gweddill yn gwneud cystal, ac nid yw'r adroddiad yn un hawdd i'w ddarllen, yn enwedig hanesion personol y bobl ifanc. Yn anffodus, mae'r canfyddiadau'n dangos bod pethau'n waeth na'r disgwyl, gan ein bod yn son am bobl ifanc yng Nghymru sy'n dioddef y straen mwyaf, ac sy'n cyfrif am un y cant o'r cyfanswm o bobl ifanc sy'n derbyn gofal.

Rydyn ni wedi gweithio gydag ystod o bartneriaid iechyd a gofal cymdeithasol i rannu eu profiad a'u gwybodaeth ac o ganlyniad mae hwn wedi bod yn brosiect ymchwil ar y cyd ym mhob ystyr. Nid yw'r darganfyddiadau'n ganlyniad o un asiantaeth yn gwneud camgymeriadau, yn hytrach maent yn amlygu'r angen am newidiadau ar draws yr holl system, ac i'n dull o gefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anghenion cymhleth iawn.

Rydym yn ddiolchgar i'r ymchwilwyr a'n holl bartneriaid am eu cymorth wrth dynnu'r adroddiad hwn at ei gilydd, ond, yn arbennig, rydym yn ddiolchgar iawn i'r plant a'r bobl ifanc, y gweithwyr cymdeithasol, a'r gofalwyr maeth a siaradodd â'r ymchwilwyr. Hebddynt, ni fyddai wedi bod yn bosibl i dynnu'r adroddiad hollbwysig a hanfodol hwn at ei gilydd.

Mae'n hanfodol nad ydym yn anwybyddu'r darganfyddiadau hyn, a'n bod ni i gyd yn ymrwymo i wneud newidiadau a fydd yn arwain at well ganlyniadau a phlant a phobl ifanc mwy diogel a hapus.



**Sue Evans**
Prif Weithredwr
Gofal Cymdeithasol Cymru


## Cydnabyddiaethau

Hoffem fachu ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i'r holl bobl ifanc, aelodau'r teulu, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill a roddodd o'u hamser i gymryd rhan yn yr astudiaeth, i ateb ein cwestiynau a'n hymholiadau ac i rannu profiadau yn gysylltiedig â llety diogel gyda ni. Yn arbennig, hoffem gydnabod y bobl ifanc a roddodd o'u hamser i gyfrannu at yr adroddiad hwn. Rydym yn cydnabod bod hel atgofion am brofiadau o amser mewn llety diogel yn gallu bod yn emosiynol iawn, ac rydym yn ddiolchgar am eu gonestrwydd a'u dewrder wrth rannu eu straeon.

Diolch hefyd i staff awdurdodau lleol Cymru a'n helpodd i gael mynediad at ffeiliau achos a'n rhoi mewn cysylltiad â'r bobl ifanc a'r gweithwyr cymdeithasol oedd â'r profiad a'r wybodaeth roeddem yn chwilio amdanynt.

Rydym yn ddiolchgar hefyd i aelodau'r grŵp llywio a roddodd o'u hamser i fynychu cyfarfodydd yn canolbwyntio ar ddyluniad, dadansoddiad a dosbarthiad ymchwil.

# Crynodeb gweithredol

## Pobl ifanc o Gymru a llety diogel

Mae llety diogel yn cyfeirio at gartrefi preswyl sydd â chymeradwyaeth i gyfyngu ar ryddid pobl ifanc 10-17 oed y credir eu bod yn peri risg ddifrifol iddyn nhw'u hunain neu i eraill. Mae pobl ifanc yn cael mynediad i lety diogel trwy ddau lwybr: trwy'r system cyfiawnder troseddol neu gan eu bod yn destun gorchymyn llys am resymau lles.

Wrth ystyried y bobl ifanc o Gymru sydd wedi'u lleoli mewn llety diogel am resymau lles, nid yw'r cofnodion yn dangos unrhyw ostyngiad yn nifer yr atgyfeiriadau i lety diogel dros y degawd diwethaf, gyda'r blynyddoedd diwethaf yn gweld cynnydd. Mae prinder lleoliadau llety diogel yng Nghymru yn ychwanegu at y pryder a ddaw yn sgil y cynnydd, ac mae llawer o bobl ifanc yn cael eu lleoli y tu allan i Gymru neu heb wely mewn gofal diogel oherwydd nad oes digon o welyau ar gael.

Mae gwleidyddion, llunwyr polisi ac ymarferwyr Cymru yn awyddus i ddeall beth sydd wedi cyfrannu at y sefyllfa hon a beth y gellir ei wneud i wella pethau. Fel rhan o hyn, maent eisiau deall profiadau pobl ifanc cyn llety diogel, pa mor dda mae eu hanghenion a'u hymddygiadau yn cael eu cydnabod a'u diwallu gan natur a modelau therapiwtig y llety diogel, sut mae'r penderfyniadau a'r cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer pobl ifanc yn dilyn eu hamser mewn llety diogel, sut mae'r rhain yn cael eu rhoi ar waith a'r effaith y maent yn ei chael ar ôl i'r bobl ifanc adael.

## Trosolwg o'r prosiect

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gofal Cymdeithasol Cymru, ac aeth ati i ymchwilio profiadau'r cohort o bobl ifanc o Gymru a dderbyniodd orchmynion llety diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. I gyflawni hyn, archwiliwyd profiadau pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl llety diogel neu amgen trwy bori drwy ddata gweinyddol a ffeiliau achos a chynnal cyfweliadau â phobl ifanc, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr proffesiynol eraill a oedd wedi gweithio gyda'r bobl ifanc a rhai aelodau o'r teulu.

## Canfyddiadau allweddol

### Defnydd pobl ifanc o Gymru o lety diogel

Dros ddwy flynedd, gwnaeth pob awdurdod lleol yng Nghymru heblaw un gais am o leiaf un Gorchymyn Llety Diogel. Er bod 56 o Orchmynion Llety Diogel wedi'u rhoi, roedd 13 ohonynt yn ailatgyfeiriadau, felly roedd y gorchmynion yn ymwneud â 43 o bobl ifanc.

Yn sgil y prinder gwelyau diogel yng Nghymru, cafodd mwy na hanner y bobl ifanc yng Nghymru eu lleoli mewn llety diogel yn Lloegr neu'r Alban, a llai na chwarter mewn unedau a ddyluniwyd ar gyfer pobl ifanc a leolir am resymau lles.

Yn wahanol i ganfyddiadau mewn mannau eraill, roedd merched a bechgyn o Gymru'r un mor debygol â'i gilydd o dderbyn Gorchymyn Llety Diogel am resymau lles.

### Profiadau cyn atgyfeiriad i lety diogel

Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc wedi byw mewn amgylcheddau teuluol anhrefnus ac wedi cael eu heffeithio gan gamdriniaeth a/neu esgeulustod ar ryw adeg yn ystod eu plentyndod. Er bod llawer o'r teuluoedd yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol, ychydig iawn oedd wedi derbyn ymyriadau cyson a dargedir. Roedd pob un o'r bobl ifanc wedi'u derbyn i ofal, ond y rhan fwyaf ar oedran cymharol hwyr.

Pan oeddent mewn gofal, roedd yr holl symud, yr ymddygiadau problemus (mynd ar goll, defnyddio sylweddau, cael eu paratoi i bwrpas rhyw, dioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant, gwneud hunan-niwed a cheisio cyflawni hunanladdiad) a'r penderfyniad i'w symud yn gyflym i lety diogel yn awgrymu nad oedd y lleoliadau maeth a phreswyl yn gallu diwallu eu hanghenion yn llawn.

Er gwaethaf lefelau uchel o broblemau iechyd meddwl, hunan-niwed a cheisio cyflawni hunanladdiad, ychydig iawn o bobl ifanc a oedd yn gymwys neu a dderbyniodd wasanaethau iechyd meddwl neu ymyriadau cyn cael eu hatgyfeirio i lety diogel.

## Profiadau o fynd i mewn i lety diogel

Nid oedd pob person ifanc yn gwybod am y broses o wneud cais a chael Gorchymyn Llety Diogel, ac nid oedd barn pob person ifanc yn cael ei hystyried. Er bod sefyllfa rhai pobl ifanc yn golygu y byddai rhoi gwybod iddynt am y cais am orchymyn wedi cynyddu'r risg, cafodd un ei atal rhag mynd i'r llys er ei fod yn dymuno gwneud hynny.

Roedd y prinder gwelyau mewn llety diogel yn achosi ansicrwydd a phryder i bobl ifanc. Arweiniodd hefyd at gynnydd yn llwyth gwaith gwasanaethau cymdeithasol a fyddai weithiau'n creu llety diogel amgen mewn lleoliadau anghofrestredig gan na ellid dod o hyd i le iddynt mewn llety diogel a oedd yn gallu eu cymryd neu a oedd yn barod i wneud hynny.

Roedd y llwybrau trawmatig i lety diogel a wynebwyd gan rai pobl ifanc yn dangos nad yw'r polisi a'r dulliau presennol yn sicrhau llwybrau derbyniol diogel i bobl ifanc.

## Bywyd mewn llety diogel

I'r rhan fwyaf o bobl ifanc, roedd y profiad o bontio a chael eu derbyn i'r uned yn un trawmatig ac anodd. Yn y tymor hwy, teimlwyd bod amgylchedd llym rhai lleoliadau llety diogel yn amhriodol, a theimlwyd yr un fath am rannu llety gyda phreswylwyr a oedd wedi dod trwy'r llwybr cyfiawnder troseddol.

Ar ôl setlo, sylwodd y rhan fwyaf o bobl ifanc fod llety diogel yn darparu amgylchedd cyson a reoleiddir lle roeddent yn teimlo'n ddiogel a lle gallent ymgysylltu â gwasanaethau roeddent wedi bod yn absennol ohonynt yn y gorffennol, yn enwedig addysg.

Er bod rhai pobl ifanc wedi derbyn therapi defnyddiol yn ystod eu hamser mewn llety diogel, roedd y ffocws cyffredinol ar gyfyngu yn bennaf, yn hytrach na darparu'r cymorth arbenigol angenrheidiol. Roedd rhwystrau a nodwyd yn cynnwys hyd arhosiad yn y llety diogel, a oedd yn aml yn annigonol i alluogi ymyriad therapiwtig effeithiol neu i osod y seiliau ar gyfer taflwybrau cadarnhaol i'r dyfodol. Roedd yr angen am opsiynau triniaeth therapiwtig ehangach gyda ffocws cryfach ar ymyriadau sy'n gallu mynd i'r afael â phroblemau ymddygiadol ac emosiynol, ynghyd â salwch meddwl, yn amlwg hefyd.

Roedd cael eu lleoli mewn llety diogel ymhell o gartref yn peri pryder i rai pobl ifanc ac yn cael effaith sylweddol ar adnoddau awdurdodau lleol.

## Gadael llety diogel

Cydnabyddir pwysigrwydd cynllunio'r pontio o lety diogel yn ofalus, ond mater arall oedd cyflawni hynny. Roedd y dasg o ddod o hyd i leoliadau addas sy'n gallu diwallu anghenion parhaus pobl ifanc a'u cadw'n ddiogel yn gymhleth. Yn gyntaf, roedd y ffaith bod modd ymestyn cyfnod gorchmynion llety diogel ar fyr rybudd ac, yn ail, roedd hanesion pobl ifanc yn golygu bod rhai lleoliadau posibl yn amharod i'w derbyn. Roedd yr ansicrwydd hwn yn peri pryder ymhlith y bobl ifanc, ac roedd staff yn gwastraffu amser yn ceisio dod o hyd i leoliadau eraill. Roedd rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng yr angen i ystyried dymuniadau pobl ifanc wrth ddod o hyd i leoliad a'u budd pennaf.

Ar ôl gadael llety diogel roedd ychydig dros draean y bobl ifanc wedi cael lleoliadau cyntaf da, ond roedd y gweddill wedi cael profiadau gwael neu gymysg. Roedd profiadau da yn gysylltiedig â diwallu anghenion penodol y person ifanc dan sylw a phontio gofalus, gan gynnwys cyfarfodydd ac ymweliadau cyn lleoli. Roedd profiadau gwael yn gysylltiedig â lleoliadau yn methu â diwallu anghenion pobl ifanc neu'r bobl ifanc ddim yn hoffi'r lleoliad ei hun.

## Profiadau a chanlyniadau tymor hwy

Parhaodd y rhan fwyaf o bobl ifanc i ddilyn y llwybrau cadarnhaol, negyddol neu gymysg a gychwynnodd pan adawon nhw lety diogel. Gwelodd y taflwybrau hyn y rhan fwyaf o'r lleoliadau ar ôl llety diogel yn methu gan nad oeddent yn gallu diwallu anghenion y bobl ifanc yn ddigonol. Yn ystod yr amser rhwng gadael llety diogel a'r astudiaeth (rhwng ychydig fisoedd a dwy flynedd), derbyniodd mwy na chwarter y bobl ifanc Orchmynion Llety Diogel ychwanegol, gydag eraill yn mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol neu leoliad seiciatrig diogel. Lle cyflawnwyd canlyniadau cadarnhaol, roedd hi'n ymddangos bod y rhain yn dibynnu ar ansawdd y lleoliadau, ac yn enwedig bod â chysylltiadau cyson

ag oedolion allweddol ac, ar gyfer rhai, derbyn cymorth iechyd meddwl digonol.

## Argymhellion ar gyfer llunwyr polisi ac ymarfer:

### Lleoliadau

- Mae'r anhawster o ran dod o hyd i leoliadau sy'n gallu diwallu anghenion y bobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl llety diogel yn galw am ddatblygu a darparu strategaeth gomisiynu genedlaethol sy'n sicrhau y gall awdurdodau lleol ddarparu gofal sy'n gallu diwallu anghenion sylweddol y bobl ifanc hyn. Rhaid i unrhyw strategaeth o'r fath gael ei hategu gan ddatblygiad rhanbarthol angenrheidiol sy'n galluogi ei hwyluso.

- Er mwyn cefnogi darpariaeth ddigonol o leoliadau gofal, dylai model o therapi sydd fwyaf tebygol o ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn gael ei nodi a'i ddefnyddio ar draws gofal maeth neu breswyl.

- Mae canfyddiadau astudiaethau yn gofyn am hyfforddiant pellach ar gyfer gofalwyr maeth a phreswyl. Yn benodol, datblygiad hyfforddiant sy'n sicrhau cysondeb o ran y gofal a ddarperir ac sy'n galluogi gofal o'r fath i gael ei addasu i ddiwallu anghenion penodol pob person ifanc. Maent yn galw hefyd am ddarpariaeth cymorth hygyrch i ofalwyr yn ystod lleoliadau.

### Gwasanaethau iechyd meddwl

- Mae'r canfyddiad na dderbyniodd llawer o bobl ifanc gymorth iechyd meddwl digonol a/neu briodol cyn, yn ystod nac ar ôl llety diogel yn galw am ddarparu lefel ychwanegol o wasanaeth sy'n gallu goresgyn y rhwystrau a grëir gan feini prawf gwasanaeth iechyd meddwl ac yn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth a thriniaeth ar gyfer problemau ymddygiadol ac emosiynol, ynghyd â salwch meddwl penodol.

- Mae gwybodaeth gweithwyr cymdeithasol am hanes ac anghenion y person ifanc yn awgrymu bod angen defnyddio dull cydgomisiynu amlasiantaethol wrth ddarparu gwasanaeth iechyd meddwl. Byddai dull o'r fath yn hwyluso proses atgyfeirio fwy gwybodus ac yn helpu i ddatblygu neu hyrwyddo modelau gwasanaeth sy'n gallu diwallu anghenion therapi trawma y bobl ifanc yn well.

### Llety diogel

- Rydym yn argymell sbardun cenedlaethol i uno arfer gorau o ran gwneud cais am Orchmynion Llety Diogel i helpu pobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol i gael y cymorth gorau yn ystod y broses hon. Yn hyn o beth, mae'n bwysig sicrhau, lle bo hynny'n bosibl ac yn ddiogel, bod pobl ifanc yn ymwybodol o geisiadau, yn cael cyfle i fynd i'r llys ac yn gwybod y bydd eu barn yn cael ei hystyried gyda help eiriolaeth os dymunir neu os oes angen.

- Argymhellir y dylai'r system gael ei diwygio i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol addysg, gwasanaethau iechyd a therapi a geir mewn llety diogel yn cael eu cynnal trwy ddarparu cymorth a therapi cyffelyb pan fyddant yn gadael. I hwyluso pontio di-dor i'r gofal gorau posibl ar ôl gadael llety diogel, mae'r argymhelliad hwn yn gofyn am ddatblygu dull cydgomisiynu amlasiantaethol integredig cenedlaethol i gynllunio'r pontio o ofal diogel.

- Rydym yn galw am ddiwygio'r polisi ynghylch llwybrau i lety diogel i ddatblygu un sy'n sicrhau bod y llwybrau'n cynnwys gweithiwr proffesiynol annibynnol y gellir ymddiried ynddo y mae'r person ifanc yn ei adnabod.

- Mae llawer o bobl ifanc o'r farn bod amgylchedd llym llawer o leoliadau llety diogel yn amhriodol. Yng ngoleuni canfyddiadau ychwanegol bod rhai lleoliadau llety diogel yn cynnig amgylcheddau tebycach i gartref, rydym yn galw am waith cydweithredol gyda phobl ifanc i wella ymddangosiad a theimlad y llety diogel y maent yn cael eu lleoli ynddo, cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

- Mae cael eu lleoli ymhell o gartref yn cael effaith negyddol ar bobl ifanc, eu teuluoedd ac awdurdodau lleol gan ei fod yn gwneud cyswllt rheolaidd yn anodd a drud. Oherwydd hyn, dylid gwneud pob ymdrech i leoli pobl ifanc mor agos â phosibl i'w cartref.

# Profiadau a chanlyniadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n derbyn Gorchmynion Llety Diogel

## Adran 1: Cyflwyniad

**1.1** Mae llety diogel (cyfeirir atynt hefyd fel Cartrefi Diogel i Blant) yn cyfeirio at gartrefi preswyl sydd â chymeradwyaeth i gyfyngu ar ryddid pobl ifanc 10-17 oed y credir eu bod yn peri risg ddifrifol iddyn nhw'u hunain neu i eraill[1,2]. Mae pobl ifanc o Gymru a Lloegr yn cael mynediad i lety diogel trwy'r system cyfiawnder troseddol neu am resymau lles[1,3].

**1.2** Er bod nifer y bobl ifanc o Gymru a Lloegr mewn llety diogel ledled y DU wedi gostwng a sefydlogi ers 2010[1], mae cyfran y bobl ifanc o Gymru a leolir am resymau lles wedi cynyddu yn ddiweddar. Mae hyn, ynghyd â diffyg gwybodaeth am gefndir a phrofiadau pobl ifanc a atgyfeirir am resymau lles, wedi codi cwestiynau am a yw'r system bresennol yn diwallu anghenion y bobl ifanc o Gymru a atgyfeirir i lety diogel ac sy'n defnyddio llety diogel.

**1.3** Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canlyniadau prosiect ymchwil a gomisiynwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, a oedd yn ceisio ateb y cwestiynau hyn trwy archwilio taflwybrau bywyd, profiadau a chanlyniadau pobl ifanc o Gymru a atgyfeiriwyd i lety diogel yn y ddwy flynedd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Mae'r adroddiad yn cychwyn gyda chrynodeb o wybodaeth am brofiadau pobl ifanc sy'n defnyddio llety diogel yn y DU, yn mynd ymlaen i ddisgrifio nodau, dulliau a chanfyddiadau'r prosiect ac yn gorffen gyda chyfres o argymhellion sy'n berthnasol i ymarfer a pholisi Cymru yn ymwneud â llety diogel.

## Adran 2: Negeseuon allweddol o'r ymchwil i gyd-destunau a phrofiadau pobl ifanc a atgyfeirir i lety diogel

**2.1** Gall pobl ifanc 10-17 oed o Gymru a Lloegr gael eu lleoli mewn amryw o leoliadau llety diogel ledled y DU: un yng Nghymru, 14 yn Lloegr[1,2] a phump yn yr Alban[3]. Er y gall pobl ifanc gael mynediad i lety diogel trwy'r system cyfiawnder troseddol neu oherwydd gorchymyn llys am resymau lles, dim ond am bobl ifanc a atgyfeirir i lety diogel am resymau lles[4] y mae'r adroddiad hwn yn sôn.

**2.2** Mae'r broses o wneud cais am le mewn llety diogel am resymau lles, a chyfyngu ar ryddid person ifanc o ganlyniad i hynny, wedi'i ddisgrifio fel 'Draconaidd'[5]. Mewn cydnabyddiaeth o hyn, mae polisi a deddfwriaeth y DU yn sicrhau bod atgyfeiriadau i lety diogel am resymau lles yn amodol ar gyfres o feini prawf llym, sef:

- bod person ifanc wedi dianc o'r blaen ac yn debygol o ddianc o lety arall
- a/neu os bydd y person ifanc yn dianc, ei bod hi'n debygol y bydd yn dioddef niwed sylweddol
- a/neu os bydd y person ifanc yn cael ei gadw mewn llety arall, ei bod hi'n debygol y bydd yn anafu ei hun.

Mae deddfwriaeth sylfaenol yn ymwneud â llety diogel yn Adran 119 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac Adran 25(1) o Ddeddf Plant 1989 yn Lloegr. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn ceisio sicrhau bod Gorchmynion Llety Diogel ar gyfer lleoliadau lles ond yn cael eu rhoi i bobl ifanc agored i niwed sy'n byw gyda lefelau uchel o risg.

1. Warner et al (2018)
2. Llywodraeth yr Alban (2017)
3. Deddf Plant 1989
4. Er y cydnabyddir bod hanes y bobl ifanc a leolir mewn llety diogel am resymau lles a chyfiawnder troseddol yn cynnwys elfennau cyffredin, mae pob cyfeiriad at Orchmynion Llety Diogel ac amser a dreulir mewn llety diogel yn yr adroddiad hwn yn cyfeirio at y rhai a leolir am resymau lles.
5.Fel a ddisgrifiwyd gan Hart a La Valle (2016)

**2.3** Er bod nifer y bobl ifanc o Gymru a Lloegr mewn llety diogel wedi gostwng dros y degawd diwethaf1, mae canran y lleoliadau mewn llety diogel am resymau lles wedi cynyddu o 37 y cant o'r cyfanswm yn 2010 i 47 y cant yn 2018[1], sy'n nodi ychydig iawn o newid yn nifer y lleoliadau am resymau lles ar draws y ddwy wlad. Wrth ystyried nifer y bobl ifanc o Gymru a Lloegr ar wahân, mae cofnodion yn awgrymu bod nifer y Gorchmynion Llety Diogel wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda chynnydd bach yn nifer yr atgyfeiriadau lles rhwng 2014 a 2016 (AWHOCS, 2017) a chynnydd o 22 o atgyfeiriadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2017 i 34 y flwyddyn ddilynol.

**2.4** Mae llenyddiaeth ynghylch defnydd awdurdodau lleol o lety diogel yn cydnabod y diffyg gwybodaeth am broffil, profiadau neu ganlyniadau plant a phobl ifanc o'r DU sy'n defnyddio llety diogel am resymau lles. Mae gweddill yr adran hon yn tynnu ar y wybodaeth sydd ar gael.

**2.5** Mae bywydau cynnar llawer o bobl ifanc a atgyfeirir i lety diogel wedi'u nodweddu gan esgeulustod, camdriniaeth, camweithredu teuluol, ymlyniadau ansicr, profedigaeth ac anawsterau perthynas[6]. Mae gan rai anghenion addysgol arbennig, anableddau neu broblemau emosiynol ac ymddygiadol hefyd[6].

**2.6** Mae'r rhan fwyaf o deuluoedd y bobl ifanc hyn wedi bod yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol neu'n ymwneud â nhw ers amser maith ac, er bod y bobl ifanc eisoes mewn gofal pan ystyrir llety diogel, roedd llawer wedi aros gyda theuluoedd am flynyddoedd lawer a mynd i mewn i ofal ar oedran cymharol hwyr[5].

**2.7** Pan oeddent yng ngofal awdurdod lleol, roedd y bobl ifanc yn tueddu i wynebu anawsterau lluosog, megis problemau emosiynol, problemau cymheiriaid, problemau ymddygiad a gorfywiogrwydd[7]; chymhlethdodau sy'n tarfu ar leoliadau, yn arwain at symudiadau lluosog ac, yn fwy cyffredin, yn arwain at y bobl ifanc yn byw mewn cartrefi preswyl pan gânt eu hatgyfeirio i ofal diogel.

**2.8** Yn aml, mae'r amser cyn gofal diogel yn cael ei nodweddu gan gynnydd mewn ymddygiadau risg uchel neu wrthgymdeithasol, gan gynnwys hunan-niwed, trais tuag at eraill a chamfanteisio rhywiol, gydag ychydig iawn o dystiolaeth o gyfle neu ymdrech i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiadau o'r fath[6].

**2.9** Mewn llety diogel, yr hyd arhosiad cyfartalog i bobl ifanc a leolir am resymau lles yw rhwng pedwar a phum mis. Yn ystod yr amser hwn, mae'r bobl ifanc yn cael mynediad at amryw o wasanaethau ychwanegol, gydag addysg a chymorth iechyd meddwl yn arbennig o bwysig. Mewn perthynas â'r therapi seicolegol a ddarperir, nid oes gan rai lleoliadau llety diogel unrhyw ddull neu fodel damcaniaethol sylfaenol, tra bod eraill yn cynnig dulliau yn seiliedig ar ddamcaniaethau cymdeithasol. Mae manylion y dulliau a gynigir yn aneglur, er bod dulliau athronyddol ac arloesol yn cael eu defnyddio mewn rhai lleoliadau llety diogel yn yr Alban[8].

**2.10** Mae cysylltiadau rhwng staff a phobl ifanc yn rhan bwysig o'r cymorth a gynigir i bobl ifanc mewn llety diogel. Mae paru pobl ifanc a staff, y cysondeb yn eu perthynas ac ansawdd yr amser y maent yn ei dreulio gyda'i gilydd yn hollbwysig er mwyn cael effaith gadarnhaol[9].

**2.11** Er mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd o effeithiau llety diogel ar ganlyniadau pobl ifanc, mae'n ymddangos bod rhai yn gwneud yn dda, ond eraill ddim cystal. Yn y tymor byr, mae llety diogel yn cadw pobl ifanc yn ddiogel, yn ennyn eu brwdfrydedd, yn darparu sefydlogrwydd iddyn nhw ac yn nodi rhai achosion o ymddygiad risg uchel. Mae canlyniadau tymor hwy yn fwy cymysg - nid yw cynnydd bob amser yn cael ei gynnal ar ôl cyfnod cychwynnol mwy tawel, ac mae'n gyffredin fod rhywfaint o ddirywiad yn dilyn, er nad yw hyn yn digwydd bob amser. Mae Hart a La Valle (2016) wedi nodi ffactorau sy'n gysylltiedig â gwell canlyniadau:

- lleoliad, hyd ac ansawdd y llety diogel
- pa mor dda roedd y llety diogel yn diwallu anghenion pobl ifanc
- y gwaith cynllunio ar gyfer ar ôl y llety diogel, cyn ac ar ôl i'r gorchymyn gael ei godi
- mewnbwn gwaith cymdeithasol a pha mor dda roedd y trefniadau a wnaed yn diwallu anghenion y bobl ifanc.

6. Gweler, er enghraifft, y disgrifiadau yn Barron a Mitchell (2017); Rose (2002)
7. Fel a drafodwyd yn Hiller a St Claire (2018)
8. Trafodir enghreifftiau o ddulliau o'r fath gan Heron a Cassidy (2018) a Barron a Tracey (2017)
9. Fel yr archwiliwyd gan McKellar a Kendrick (2013); Roesch-Marsh (2018)

## Adran 3: Dulliau ac ystyriaethau moesegol

**3.1** Mae'r adran hon yn amlinellu nodau ac amcanion y prosiect. Yn ystod y prosiect fe geisiom gael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc o Gymru cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod mewn llety diogel neu amgen. Yn benodol, roedd gennym ddiddordeb yn y canlynol:

- hanesion bywyd pobl ifanc cyn Gorchmynion Llety Diogel
- profiadau pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl amser mewn llety diogel
- a oedd anghenion ac ymddygiadau pobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u dylanwadu gan natur a model therapiwtig y lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd ac, os felly, i ba raddau
- pryd a sut roedd penderfyniadau a chynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer dyfodol person ifanc yn dilyn eu hamser mewn llety diogel
- canlyniadau a sefydlogrwydd lleoliadau pobl ifanc ar ôl llety diogel
- llesiant emosiynol a chorfforol pobl ifanc ar ôl gadael llety diogel
- beth ddigwyddodd pan wnaed Gorchmynion Llety Diogel ond derbyniodd y bobl ifanc lety amgen gan nad oedd gwely ar gael yn y llety diogel.

**3.2** Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y prosiect gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.

**3.3** Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018, gwnaeth 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru geisiadau llwyddiannus am Orchmynion Llety Diogel. Cysylltwyd â phob un o'r rhain trwy e-bost a thros y ffôn. Cymerodd 19 ohonynt ran yn y prosiect; cafodd y ddau arall eu hatal gan faterion staff ac adnoddau.

**3.4** I gael gwybodaeth am bobl ifanc o Gymru a atgyfeiriwyd ar gyfer Gorchymyn Llety Diogel, edrychom ar ddata awdurdod lleol a gesglir yn rheolaidd a chyfweld â phobl ifanc ac amrywiaeth o randdeiliaid allweddol sy'n cyfrannu at eu cymorth a'u gofal.

I hwyluso hyn, enwebodd pob awdurdod lleol aelod o staff i weithio gyda'r tîm ymchwil. Yn gyntaf, hwylusodd y staff fynediad at ffeiliau achos a data gweinyddol. Fel rhan o hyn, gofynnodd y staff am ganiatâd y bobl ifanc i'r tîm ymchwil weld eu ffeiliau achos. Llwyddom i edrych ar 10 ffeil achos gan wyth awdurdod lleol.

Yn ogystal, cysylltodd staff â phobl ifanc a rhanddeiliaid allweddol i drefnu cyfweliadau prosiect. Fel y gwelir yn Nhabl 3.1, cynhaliwyd cyfweliadau ag 11 o bobl ifanc (nid pob un y cafwyd mynediad at eu ffeiliau achos) ac amrywiaeth o randdeiliaid, yn bennaf gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm gwasanaethau cymdeithasol.

| Cyfranogwyr | Nifer y cyfweliadau | Nifer yr awdurdodau lleol |
|---|---|---|
| Gweithwyr cymdeithasol | 30 | 17 |
| Pobl ifanc | 11 | 10 |
| Arweinwyr tîm/ Rheolwyr gwasanaeth | 5 | 5 |
| Staff cartrefi preswyl | 3 | 2 |
| Gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol | 2 | 1 |
| Gofalwyr (teulu a maeth) | 2 | 2 |
| Gweithwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | 1 | 1 |
| Eiriolwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **55** | **39** |

*Tabl 3.1: Sampl o gyfweliadau*

Roeddem yn ymwybodol bod cyfweliadau â phobl ifanc yn debygol o archwilio materion sensitif iawn, ac y gallai hyn beri gofid. Felly, cysylltom â gofalwyr a gweithwyr cymdeithasol yn y lle cyntaf i siarad am a ellid neu a ddylid mynd at y bobl ifanc ac, os felly, beth oedd y ffordd orau o wneud hynny. Gyda'n gilydd, nodwyd 23 o bobl ifanc fel cyfranogwyr posibl, ac aeth gweithwyr cymdeithasol ati i geisio cysylltu â nhw. I 12 o'r bobl ifanc hyn, roedd newidiadau mewn amgylchiadau (er enghraifft,

iechyd yn gwaethygu neu symud o un lleoliad i'r llall) yn ei gwneud hi'n amhosibl iddynt gymryd rhan. Cynhaliwyd 11 o gyfweliadau â phobl ifanc: naw wyneb yn wyneb, un dros y ffôn ac un trwy brocsi. O'r naw cyfweliad wyneb yn wyneb, roedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall yn bresennol mewn saith ohonynt oherwydd pryderon y gallai'r cyfweliad beri gofid i'r person ifanc.

Roeddem eisiau cyfweld â gweithwyr cymdeithasol presennol a rhai o'r gorffennol hefyd gan fod ganddynt wybodaeth bwysig am gronolegau, hanesion bywyd a phrofiadau'r bobl ifanc. Siaradom â 30 o weithwyr cymdeithasol i gyd o 17 o wahanol awdurdodau lleol a oedd, rhyngddynt, wedi gweithio gyda 32 o'r bobl ifanc roedd yr astudiaeth yn canolbwyntio arnynt.


Yn ystod cyfarfodydd, nododd gweithwyr cymdeithasol a phobl ifanc bobl eraill a oedd wedi bod yn bwysig i'r person ifanc cyn, yn ystod neu ar ôl llety diogel. Yn anffodus, roedd hyn yn cynnwys llai na'r disgwyl o aelodau'r teulu a gofalwyr, gan fod hanesion teulu cymhleth a thensiynau parhaus yn tueddu i wneud cysylltiad ag aelodau o'r teulu yn amhriodol.

**3.5** Dadansoddi data

Darparodd cyfweliadau a ffeiliau achos lawer o fanylion am brofiadau llawer o'r bobl ifanc yr oedd gan y prosiect ddiddordeb ynddynt.

Mae Ffigur 3.1 yn cynrychioli'r profiadau hyn cyn, yn ystod ac ar ôl llety diogel neu amgen. Defnyddiwyd y ffigur i ddadansoddi canfyddiadau data a strwythur.

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno canfyddiadau allweddol y prosiect. Er bod y diddordeb yn y profiadau yr oedd y bobl ifanc wedi eu rhannu, daeth hi'n amlwg bod pob person ifanc wedi byw trwy brofiadau unigryw. I gydnabod hyn ac i roi darlun llawn o brofiadau'r bobl ifanc, mae'r adrannau'n cynnwys elfennau cyffredin ac elfennau unigryw sylweddol.




*Ffigur 3.1: Profiadau pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl amser mewn llety diogel*

## Adran 4: Defnydd pobl ifanc o lety diogel


Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r bobl ifanc a atgyfeiriwyd i lety diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018, a manylion y llety diogel yr aethant iddo.

### Canfyddiadau allweddol


- **Gwnaeth bob awdurdod lleol heblaw un yng Nghymru gais am Orchymyn Llety Diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018**
- **Cafodd 56 o Orchmynion Llety Diogel eu rhoi, ond roedd ailatgyfeiriadau yn golygu mai dim ond ar gyfer 43 o wahanol bobl ifanc roedd y gorchmynion hyn yn ymwneud â nhw**
- **Arweiniodd mwy na hanner y Gorchmynion Llety Diogel at bobl ifanc yn cael eu lleoli mewn llety diogel y tu allan i Gymru**
- **Cafodd llai na chwarter y bobl ifanc eu lleoli mewn llety diogel sydd ond ar gyfer pobl ifanc a leolir am resymau lles**
- **Roedd merched a bechgyn yr un mor debygol â'i gilydd o dderbyn Gorchymyn Llety Diogel am resymau lles**

**4.1** Mae Ffigur 4.1 yn dangos bod 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru wedi gwneud cais am o leiaf un Gorchymyn Llety Diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Mae'n dangos hefyd fod 15 awdurdod wedi gwneud cais am orchmynion lluosog. Ni ddaethom o hyd i unrhyw gysylltiad rhwng maint neu boblogaeth awdurdodau lleol a nifer y gorchmynion a wnaed, na rhwng nifer y gorchmynion a lefel amddifadedd yr awdurdodau lleol[10].

**4.2** Fel y gwelir yn Ffigur 4.2, roedd naw o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru ond wedi lleoli un person ifanc mewn llety diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. O'r gweddill, roedd pum awdurdod lleol wedi lleoli dau berson ifanc mewn llety diogel yn ystod yr amser hwn, pedwar wedi lleoli tri pherson ifanc a thri wedi lleoli pedwar person ifanc.




*Ffigur 4.1: Nifer y Gorchmynion Llety Diogel y gwnaed cais amdanynt fesul awdurdod lleol*




*Ffigur 4.2: Nifer y bobl ifanc y mae Gorchmynion Llety Diogel yn berthnasol iddynt, fesul awdurdod lleol*


10. Daeth gwybodaeth ynghylch maint awdurdodau lleol a lefelau amddifadedd o ddata Llywodraeth Cymru sydd ar gael i'r cyhoedd

**4.3** Er bod 56 o Orchmynion Llety Diogel wedi eu rhoi ledled Cymru rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018, roedd ailatgyfeiriadau yn golygu mai dim ond ar gyfer 43 o wahanol bobl ifanc oedd y gorchmynion hyn. Yn ystod yr astudiaeth, llwyddom i gasglu mwy o wybodaeth am 40 (93 y cant) o'r rhain.


**4.4** O'r 40 o bobl ifanc:

- cafodd 38 ohonynt le mewn llety diogel
- cafodd un le mewn llety diogel ar un achlysur, ond darparwyd llety amgen iddo'r ail waith y gwnaed Gorchymyn Llety Diogel
- cafodd un lety amgen ar y ddau achlysur y gwnaed Gorchymyn Llety Diogel.

**4.5** Mae Ffigurau 4.3 a 4.4 yn rhoi gwybodaeth am y llety diogel a oedd yn gartref i'r bobl ifanc o Gymru rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018 (gwybodaeth ar gael am 31 o bobl ifanc ac yn cwmpasu 38 o leoliadau). Roedd 13 o'r lleoliadau yn Hillside (yr unig lety diogel yng Nghymru), 23 yn Lloegr (Swanwick Lodge yn Southampton, St Catherine's ar Lannau Mersi, Aycliffe yn Durham, Kyloe House yn Northumberland, Vinney Green yn Swydd Gaerloyw, Clare Lodge yn Peterborough ac Atkinson yn Nyfnaint) a dau yn yr Alban, sef Rossie a Good Shepherd.




*Ffigur 4.3: Llety diogel a ddefnyddiwyd gan bobl ifanc yng Nghymru rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018*[11]




*Ffigur 4.4: Nifer y bobl ifanc yng Nghymru a leolwyd mewn llety diogel fesul gwlad, 1 Ebrill 2016 tan 31 Mawrth 2018*

11. Dylid nodi nad yw'r 38 o bobl ifanc a gynrychiolir yn ffigurau 4.3 a 4.4 yn 38 o unigolion gwahanol gan fod rhai pobl ifanc wedi mynychu mwy nag un llety diogel o fewn amserlen yr astudiaeth. Yn ogystal, nid oedd gwybodaeth am rai pobl ifanc ar gael.


**4.6** Mae mwy o fanylion am y llety diogel yn Nhabl 4.1. O'r rhai a ddefnyddir gan bobl ifanc o Gymru, mae Atkinson, Clare Lodge a St Catherine's ond ar gyfer pobl a leolir am resymau lles. Mae Swanwick Lodge yn gweithio gyda lleoliadau lles yn bennaf ond yn derbyn y rhai a atgyfeirir am resymau troseddol o dan amgylchiadau penodol. Mae Vinney Green ar gyfer y rhai a leolir am resymau troseddol yn bennaf ond yn gallu gwneud eithriadau ar gyfer achosion lles. Mae gweddill y cartrefi (Aycliffe, Hillside, Kyloe House, Good Shepherd a Rossie) ar gyfer pobl ifanc a leolir am resymau lles a throseddol.

**4.7** Ar wahân i Clare Lodge (uned menywod yn unig), mae pob cartref yn derbyn atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc o unrhyw ryw. Fel y nodir yn Nhabl 4.1, mae chwech o'r deg cartref yn dweud bod ganddynt arbenigeddau penodol, yn ymwneud ag ymddygiad ac iechyd meddwl yn bennaf. Ychydig iawn o gartrefi sydd â pholisi eithriadau penodol: nid yw Aycliffe yn derbyn y rhai sydd â risg uchel o drais; mae Clare Lodge yn nodi na all dderbyn y rhai ag anableddau corfforol difrifol; ac mae St Catherine's yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle bydd yn derbyn bechgyn hŷn.

| Uned | Lles | Troseddol | Rhyw | Arbenigeddau | Eithriadau |
|---|---|---|---|---|---|
| **Atkinson** | Oes | Nac oes | Pawb | Trawma | Dim wedi'u nodi |
| **Aycliffe** | Oes | Oes | Pawb | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, ymddygiadau rhywiol niweidiol, camddefnyddio sylweddau, hunan-niwed, iechyd meddwl | Risg uchel o drais |
| **Clare Lodge** | Oes | Nac oes | Menywod | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, ymlyniad, camddefnyddio sylweddau, hunan-niwed, iechyd meddwl, ymddygiad ymosodol, risg o hunanladdiad | Anabledd corfforol difrifol |
| **Hillside** | Oes | Oes | Pawb | Dim wedi'u nodi | Dim wedi'u nodi |
| **Kyloe House** | Oes | Oes | Pawb | Dim wedi'u nodi | Dim wedi'u nodi |
| **Good Shepherd** | Oes | Oes | Pawb | Anabledd dysgu | Dim wedi'u nodi |
| **St Catherine's** | Oes | Nac oes | Pawb | Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, hunan-niwed, beichiogrwydd, trawma, camddefnyddio sylweddau | Bechgyn hŷn ond yn cael eu derbyn o dan amgylchiadau penodol |
| **Swanwick Lodge** | Oes | Trosglwyddiad dros nos neu brynu yn ôl y galw | Pawb | Dim wedi'u nodi | Dim wedi'u nodi |
| **Vinney Green** | Fesul achos yn unig | Oes | Pawb | Beichiogrwydd, ymddygiad ymosodol, hunan-niwed | Dim wedi'u nodi |
| **Rossie Secure** | Oes | Oes | Pawb | Dim wedi'u nodi | Dim wedi'u nodi |

*Tabl 4.1: Manylion llety diogel a ddefnyddiwyd gan bobl ifanc o Gymru rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018*

**4.8** Nid oedd unrhyw awgrym bod rhywedd person ifanc yn effeithio ar y penderfyniad i gyflwyno Gorchmynion Llety Diogel am resymau lles yng Nghymru. O'r bobl ifanc yr oedd gennym y wybodaeth hon amdanynt, roedd 18 (50 y cant) yn ferched a 18 (50 y cant) yn fechgyn (gweler Ffigur 4.4). Mae hyn yn wahanol i dystiolaeth arall sy'n nodi bod mwy o ferched yn cael eu hatgyfeirio i lety diogel am resymau lles, tra bod bechgyn yn fwy tebygol o gael mynediad trwy'r llwybr cyfiawnder troseddol[12].




*Ffigur 4.4: Rhywedd y bobl ifanc yn yr astudiaeth*

**4.9** Roedd oedran pobl ifanc yn y prosiect pan gawsant eu hatgyfeirio yn amrywio o 11 i 17 oed, er ei bod hi'n fwy cyffredin i bobl ifanc gael mynediad i lety diogel rhwng 14 a 15 oed. Roedd dwy enghraifft o bobl ifanc yn derbyn Gorchymyn Llety Diogel cyn eu pen-blwydd yn 13 oed, sefyllfa sy'n gofyn am gymeradwyaeth gan Weinidogion Cymru[13] cyn gwrandawiad llys.

**4.10** Ymhlith y bobl ifanc sy'n rhan o'r astudiaeth (naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol), ychydig iawn o dystiolaeth oedd o bobl ifanc o wahanol ethnigrwydd: roedd pob un ond un o'r bobl ifanc a gyfwelwyd yn Brydeinwyr gwyn, heb unrhyw sôn am ethnigrwydd mewn cyfweliadau â gweithwyr cymdeithasol. Roedd yr un yn wir am gyfeiriadedd rhywiol: dim ond dau berson ifanc y daethom i gysylltiad â nhw a fynegodd hunaniaeth nad oedd yn heterorywiol.

**4.11** Yn yr adrannau i ddilyn, mae pob enw wedi'i newid i ddiogelu hunaniaeth y bobl ifanc dan sylw. Yn achlysurol, caiff enwau eu tynnu yn gyfan gwbl i helpu i atal adnabyddiaeth.

12. Gweler Roesch-Marsh (2014b) am drafodaeth bellach am ryw a llety diogel
13. Rheoliad 13 o Reoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru)

## Adran 5: Profiadau cyn atgyfeiriad i lety diogel

### Canfyddiadau allweddol

- **Roedd gan y rhan fwyaf o bobl ifanc brofiad o fyw mewn teuluoedd anhrefnus sy'n cael eu heffeithio gan gamdriniaeth a/neu esgeulustod**
- **Er bod llawer o deuluoedd o'r fath wedi bod yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol ar ryw adeg, ychydig iawn oedd wedi derbyn ymyriadau cyson a dargedir**
- **Roedd pob person ifanc wedi bod mewn gofal, gyda llawer yn cael mynediad at ofal yn gymharol hwyr a rhai yn symud ymlaen i lety diogel o fewn ychydig fisoedd i gael mynediad at ofal**
- **Roedd yr holl symud a'r penderfyniad i'w symud yn gyflym i lety diogel yn awgrymu nad oedd y lleoliadau maeth a phreswyl a oedd ar gael ar gyfer y grŵp hwn o bobl ifanc agored i niwed yn gallu diwallu eu hanghenion**
- **Roedd symud yn aml ac anawsterau o ran dod o hyd i leoliadau newydd yn peri pryder i bobl ifanc ac yn effeithio'n fawr ar adnoddau gwasanaethau cymdeithasol**
- **Mae ffactorau risg allweddol cyn Gorchmynion Llety Diogel yn cynnwys cymysgedd o ddianc, camddefnyddio sylweddau, paratoi i bwrpas rhyw, camfanteisio'n rhywiol ar blant a hunan-niwed**
- **Er bod problemau iechyd meddwl, hunan-niwed a cheisio cyflawni hunanladdiad yn gyffredin cyn atgyfeirio i lety diogel, ychydig iawn o bobl ifanc sy'n gymwys neu'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl.**

**5.1** Mae'r adran hon yn ymwneud â phrofiadau a hanesion bywyd pobl ifanc cyn y cais am Orchymyn Llety Diogel. Roedd y diddordeb pennaf yn yr amgylcheddau a'r amgylchiadau sy'n effeithio ar bobl ifanc, a'r gwasanaethau cymorth a'r lleoliadau a ddarperir iddynt yn y cyfnod hwn neu a ddarparwyd iddynt yn flaenorol.

**5.2** Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc wedi byw mewn cartrefi a oedd yn cael eu heffeithio gan bob un neu rai o'r rhain:

- trais domestig
- cam-drin corfforol, emosiynol a/neu rywiol
- esgeulustod
- problemau iechyd meddwl rhieni
- defnyddio sylweddau.

Roedd llawer wedi profi addysg anghyson, gydag o leiaf 12 o'r bobl ifanc wedi'u gwahardd o'r ysgol a chwech arall yn mynychu'n afreolaidd. Roedd amryw o ffactorau cysylltiedig yn bodoli yn aml:

> **'Honnwyd bod y fam yn aml yn feddw pan oedd hi gyda'r plant ac ati. Dywedwyd ei bod hi hefyd yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon ac yn mynd allan i oryfed mewn pyliau am ddiwrnodau a nosweithiau ar y tro, gan adael y plant dan oruchwyliaeth pobl a ystyriwyd yn amhriodol. Dywedwyd hefyd fod y plant yn flêr ar adegau a'u bod nhw'n colli ysgol, bod rhai pobl ifanc yn gofalu amdanyn nhw dros nos ac ati a bod arogl canabis yn yr amgylchedd cartref'**

*Gweithiwr cymdeithasol Molly*

**5.3** Roedd teuluoedd mwy na hanner y bobl ifanc wedi bod yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol ers amser maith, a rhai ohonynt o oedran ifanc:

> **'[...] pan gafodd ei eni, cafodd ei drin am ymwrthedd i fethadon. Felly roedd y fam yn amlwg yn defnyddio cyffuriau. Felly arhosodd gyda'i fam ar y gofrestr Amddiffyn Plant yn yr ardal honno.'**

*Gweithiwr cymdeithasol George*

Er gwaethaf hyn, ychydig iawn o ymyrraeth gyson a brofwyd gan y rhan fwyaf o'r bobl ifanc yn ystod plentyndod, gyda dim ond dau yn cael eu tynnu o'u cartref ar oedran ifanc iawn. Ar y cyfan, cychwynnodd ymyriadau gwasanaeth pan oedd y bobl ifanc yn eu harddegau, neu o gwmpas yr oedrannau hynny. O'r rhain, dechreuodd un person ifanc beri pryder i wasanaethau pan ailgysylltodd â'i deulu biolegol ar ôl blynyddoedd o fyw gyda theulu mabwysiedig, ac un arall pan ailgysylltodd â'i fam ar ôl 10 mlynedd yn byw gyda'i dad a'i lys-deulu. Roedd dau berson ifanc a gysylltodd â gwasanaethau cymdeithasol eu hunain hefyd:

**'Roedd gan y ferch yma frawd bach, a ffoniodd hi'r gwasanaethau plant i ddweud nad oedd ei brawd bach yn derbyn y gofal iawn ac nad oedd hi eisiau iddo gael y bywyd yr oedd hi wedi'i gael.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Charlotte*

**5.4** Roedd pedwar person ifanc, gyda dau ohonynt wedi dioddef profedigaeth sylweddol, wedi cael gwahanol brofiadau. Nid oeddent wedi dioddef esgeulustod neu gamdriniaeth, ond roedd eu rhieni (y fam fel arfer) wedi methu ag ymdopi â'u hymddygiadau anodd wrth i'r bobl ifanc fynd yn hŷn. Cysylltodd un gweithiwr cymdeithasol y cynnydd mewn ymddygiadau problemus â diffyg ffiniau yn y cartref:

**'Yn sgil dull rhianta blynyddoedd cynnar [enw], ni osodwyd unrhyw ffiniau yn y cartref. Roedd hi'n fwy o ffrind [...] na rhiant. Doedd ganddi ddim rheolaeth drosto. Ni fyddai'n gwrando arni. Byddai'n gas iddi ac roedd rhaid iddi adrodd ei fod ar goll drwy'r amser, ni fyddai'n dod adref. Felly, byddai plismyn yn dod o hyd iddo'n cysgu mewn drysau'**

*Gweithiwr cymdeithasol*

**5.5** Roedd pob un o'r bobl ifanc wedi treulio rhywfaint o amser mewn gofal cyn y Gorchymyn Llety Diogel. Roedd y lleoliadau'n cynnwys gofal seibiant, gofal gan berthynas, gofal maeth a gofal preswyl. Roedd rhai yn wirfoddol, ond roedd llawer yn orchmynion gofal interim neu lawn. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn cael eu symud yn gyson rhwng eu cartref, teulu arall a gofal, yn hytrach na chael lleoliad cyson. Roedd eraill yn cael eu lleoli gyda theulu ehangach ac yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u rhieni biolegol.

**5.6** Pan oeddent mewn gofal, roedd y bobl ifanc wedi derbyn rhwng un a 20 o leoliadau (cymedr = 6; canolrif = 4) cyn i'r Gorchymyn Llety Diogel gael ei wneud. Er bod cofnodion yn dangos tair enghraifft unigol o berson ifanc yn symud 13, 18 ac 20 o weithiau, roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc yn mynd trwy lai na 10 lleoliad. Roedd modd priodoli'r nifer is o leoliadau i ddatblygiad cyflym neu batrymau newydd o ymddygiadau risg uchel, a oedd yn arwain at geisiadau cyflym am orchmynion llety diogel.

**5.7** Pan oeddent mewn gofal, gwelwyd ymddygiadau "allan o reolaeth" problemus yn dod yn fwy cyson a chyffredin. Arweiniodd yr ymddygiadau hyn at fethiant lleoliad ac anawsterau cynyddol o ran dod o hyd i leoliadau sy'n fodlon neu'n gallu derbyn y bobl ifanc. Disgrifiodd rhai pobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol yr ymddygiadau fel ffyrdd o reoli neu ymdopi â'r trawma yr oeddent wedi'i wynebu.

**5.8** Roedd yr ymddygiadau problemus a ddisgrifiwyd yn cynnwys camddefnyddio sylweddau:

**'Ac yna un bore, dihunodd y staff, mynd i lawr y grisiau, ac roedd e wedi bod yn cymryd sbeis. Roedd e wedi llwyddo i'w smyglo i mewn. Rydyn ni'n credu ei fod yn ei roi yn ei dwll, oherwydd maen nhw'n edrych yn ei bocedi, ond yn amlwg dydyn nhw ddim yn gallu edrych ymhob man. Roedd e'n dringo'r waliau. Dringo i ben y soffa, dringo'r waliau. Yna, fe ddisgynnodd e i'r llawr. Ffonion ni'r ambiwlans a phan aethon nhw i mewn i'r gegin, roedd arogl llosgi. Roedd e siŵr o fod wedi ceisio cynnau'r popty i danio sigarét, anghofio amdano ac roedd y lliain sychu llestri wedi dechrau llosgi. Gallai'r holl le fod wedi llosgi'n ulw.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Harry*

Lefelau uchel o drais a dinistrio eiddo:

**'Llawer o droseddau mewn cyfnod byr. 50 o droseddau a mwy, i gyd o natur debyg. […] Mae'n rhaid ei fod yn nesáu at ffigurau dwbl o ran gwahanol orchmynion llys ac ymyrraeth, oherwydd mae'n cychwyn un [ymyrraeth], mae'n aildroseddu, mae'n cychwyn un arall, aildroseddu, cychwyn un arall. Mae'n troi mewn cylchoedd. […] Ymosodiadau a difrod yw'r rhan fwyaf, […] ymosodiadau ar staff yn bennaf a difrod i'r cartref gofal neu gar y cartref gofal neu beth bynnag.'**

*Gweithiwr gwasanaeth troseddau ieuenctid Alfie*

Paratoi i bwrpas rhyw a/neu ddioddef camfanteisio'n rhywiol ar blant (CSE):

**'Roedd yna fan a oedd yn ei chodi hi o'r tu allan i'r lleoliad maeth. Dyn hŷn na fyddai hi'n dweud wrthon ni pwy oedd e. Roedd hi wastad yn gyfrinachol iawn ac yn dweud wrthon ni am beidio â busnesa. […] Cyn gynted ag y byddech chi'n dweud: "Gyda phwy wyt ti? Beth sy'n digwydd?" […] Cyn gynted ag y byddech chi'n codi'r peth, byddai'r wal yn dod i fyny yn syth. "Peidiwch â rhoi cur pen i mi" a byddai hi'n cerdded i ffwrdd, ac roedd yn anodd iawn.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Charlotte*

**'Fe gysylltodd hi â'i mam pan oedd hi tua 15 oed, ac roedd ei mam yn dal i gamddefnyddio sylweddau, ac rydyn ni'n credu y byddai ei mam yn ei chynnig hi am ryw. Gan ei mam, i ddynion hŷn, er mwyn cael alcohol a sylweddau.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Ellie*

**'Ac roeddwn i'n poeni ei bod hi'n meddwl: 'O, maen nhw'n fy hoffi i. Mae hyn yn dda i mi,' ac yn cael y sylw. Ac roeddwn i'n meddwl: mae'r dynion hŷn hyn siŵr o fod yn ei phasio hi o gwmpas ac mae un ohonyn nhw'n cael digon ohoni ac yn ei phasio hi ymlaen i'r un nesaf, ac roedd hi'n cael ei chamfanteisio fel yna. Ac yna'r delio cyffuriau ar ben popeth.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Charlotte*

Roedd mynd ar goll neu ddianc yn ymddygiad a oedd yn effeithio ar bron pob un o'r bobl ifanc. Roedd rhai yn dechrau mynd ar goll pan oedden nhw'n dal i fod yn eu cartref:

**'Dianc drwy'r amser oedd y broblem i gychwyn, ac anallu'r fam i'w diogelu rhag hynny. Felly penderfynwyd dod â hi i mewn i'r system ofal'**

*Gweithiwr cymdeithasol Emily*

Ac eraill pan oeddent yn y lleoliad:

**'Roedd hi'n mynd ar goll drwy'r amser. Tua 30 gwaith rwy'n credu. Unwaith neu ddwy y dydd, byddai hi'n diflannu o'r tŷ allan drwy'r ffenestr, neu drwy'r drws, neu fyddai hi ddim yn dod yn ôl o'r gampfa, neu fyddai hi ddim yn dod yn ôl o'r coleg. Unwaith neu ddwy y dydd.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Lucy*

Roedd y straeon a roddwyd gan weithwyr cymdeithasol a phobl ifanc yn awgrymu fod y rhesymau dros fynd ar goll o ofal yn amrywio. Roedd rhai yn teimlo eu bod nhw wedi'u gwthio i redeg i ffwrdd gan nad oeddent yn hoffi'r lleoliad neu gan nad oedd y lleoliad yn diwallu eu hanghenion:

**'Roeddwn i mewn lleoliad gofal preswyl, ac roeddwn i'n rhedeg i ffwrdd o hyd gan nad oeddwn i'n ei hoffi yno. […] Roedd ynghanol unman, doedd dim byd i'w wneud. Felly, gan fy mod i'n mynd ar goll mor aml, fe gadwon nhw fi yn y gofal preswyl ond gyda hebryngwr o'r heddlu, dau hebryngwr drwy'r dydd a'r nos am ryw bythefnos'**

*Mia*

**'Doedden nhw ddim yn eu diogelu nhw, gallen nhw ddim â gweithio gyda nhw, roeddwn i'n teimlo bod y staff yn ei herio hi…, roedd e ar ffordd fawr, roedd hi wedi bod yn chwarae 'chicken' ar y ffordd, chwarae ar y traciau trên, ymosod ar staff a doedd dim modd ei hatal hi.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Holly*

Tra bod eraill yn cael eu tynnu gan ffactorau allanol, megis eisiau mynd adref neu ailgysylltu â chymheiriaid:

**'[Roedd e] wedi fy ffonio i i ddweud ei fod yn aros gyda ffrind. Roedd e wedi bod yn cysgu ar y stryd. […] Roedd e wedi bod yn aros gyda'r ferch ifanc yma a'i mam. Roedd ei mam wedi ffonio'r heddlu i ddweud [ei fod] yn aros gyda nhw. […] Yna, awr neu ddwy yn ddiweddarach, roedd ganddyn nhw fan derfysg, heddlu terfysg i roi plentyn ynddo. Ac fe gymeron nhw e fel oedd e, a dyna pryd yr aeth e i [lety diogel].'**

*Aelod o deulu Lewis*

Neu gan eu bod eisiau ailgychwyn perthynas a wnaed pan oeddent yn cael eu paratoi i bwrpas rhyw, yn ystod camfanteisio'n rhywiol ar blant, defnyddio sylweddau ac, mewn rhai achosion, wrth ddelio mewn cyffuriau:

**'Os ydyn nhw allan, maen nhw ar goll, maen nhw'n ymddygiadau cymryd risg, maen nhw'n cymryd cyffuriau, maen nhw'n wynebu risg o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, … mae lleoliadau maeth wedi methu gan na allan nhw reoli eu hymddygiadau'**

*Arweinydd tîm gwasanaethau plant*

Daeth yn amlwg hefyd o'r straeon a rannwyd fod mynd ar goll yn cynnwys gwasanaethau ehangach, gan arwain at gyfraniad amlddisgyblaethol gan yr heddlu, cyfiawnder troseddol ac iechyd meddwl, ynghyd â gwasanaethau cymdeithasol[14].

**5.9** Fel mewn mannau eraill[14], awgrymodd ymddygiadau'r rhan fwyaf (26 o'r 30 yr oedd y manylder hwn ar gael ar eu cyfer) o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth fod problemau iechyd meddwl yn bodoli cyn atgyfeiriad i lety diogel. O'r rhain, roedd gan 14 o bobl ifanc hanes o hunan-niwed ac roedd naw wedi ceisio cyflawni hunanladdiad, gyda chynnydd mewn amlder a/neu ddifrifoldeb yr ymddygiadau hynny yn union cyn ceisiadau am orchmynion llety diogel:

**'Roedd hi'n rhoi gwrthrychau yn ei chorff, i mewn i bob lle y gallai hi. Ffonau, cyfrifianellau, fitbits, mae ganddi stapl yn ei llaw o hyd ers iddi ei roi yno, pinnau, unrhyw beth y gallai hi ddod o hyd iddo. Gwneud hunan-niwed… mae pob rhan o'i braich wedi'i chreithio. Curo ei phen, mae creithiau ar hyd ei phen i gyd. […] Roedd hi'n rhedeg allan ar y ffordd. Mae hi'n rhoi ei hun mewn perygl. Ceisio gorddosio, a dim eisiau sylw oedd hi, roedd hi eisiau marw. Does dim amheuaeth, roedd hi eisiau marw'**

*Gweithiwr cymdeithasol Katie*

**'Roeddech chi'n dod i mewn bob dydd a byddai hi wedi cael ei derbyn i'r adran damweiniau ac achosion brys y noson gynt a chael asesiad gan yr adran iechyd meddwl gan ei bod hi'n dweud ei bod hi'n llyncu gwydr, batris, unrhyw beth fwy neu lai, teilsen ceramig, wedi'i thorri'n ddarnau bach, a chuddio pethau fel yna yn ei dillad isa', bras, ble bynnag roedd hi'n teimlo y gallai hi.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Grace*

**'Y peth a gafodd e i lety diogel oedd tra'i fod yn y prosiect hwnnw yn byw yno, fe geisiodd hongian ei hun, felly'r pryder oedd […] nad yw e mewn lle da, mae e wedi ceisio cyflawni hunanladdiad felly risg o wneud niwed i'w hun a hefyd […] roedd e'n ceisio taro pobl eraill hefyd felly roedd e'n risg i eraill hefyd'**

*Gweithiwr cymdeithasol Matthew*

14. Er enghraifft, yn Fargas-Malet a McSherry (2018) a McAuley a Young (2006)

Daeth llawer o'r bobl ifanc hyn ar draws rhwystrau cydnabyddedig wrth geisio cael mynediad at gymorth iechyd meddwl[15]. Daeth un yn rhy hen i CAMHS tra'i fod ar y rhestr aros, gwrthodwyd triniaeth i un ar ôl iddo fethu un apwyntiad:

**'Gwnaeth y staff fy rhyddhau i ac roeddwn i wedi gwylltio gan nad oeddwn i eisiau iddyn nhw wneud hynny. Canslais un cyfarfod ac roedden nhw'n meddwl nad oeddwn i eisiau mynd. Ond roeddwn i'n methu â mynd y diwrnod hwnnw. Felly rwyf i'n teimlo'n reit gandryll am hynny.'**

*Mia*

Methodd un arall â chyrraedd brig rhestr aros gan fod newid lleoliad yn golygu croesi ffiniau bwrdd iechyd lleol, felly roedd hi'n cael ei rhoi ar waelod rhestr aros newydd bob tro:

**'Mae'n rhaid i mi fod yn ofalus i beidio â chwyno gormod am CAMHS, gan mai dyna'r methiant mwyaf i mi, bob amser. Mae'n rhaid i chi ddeall, pan fo person ifanc yn symud, mae'n symud sir, mae'n symud o un ardal CAMHS i un arall. Felly yn hytrach na bod CAMHS ar draws Cymru, er enghraifft, pan rydych chi'n symud o Gasnewydd i Gaerffili, pan rydych chi'n symud o Wrecsam i Benfro, mae'n rhaid i chi fynd trwy'r broses atgyfeirio ym mhob ardal.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Emily*

Gwrthodwyd triniaeth i bobl ifanc eraill gan mai dim ond y rhai oedd yn ymgysylltu'n gyflym oedd yn cael cynnig triniaeth gan wasanaethau CAMHS:

**'Yn yr adolygiadau plentyn sy'n derbyn gofal, roeddwn i'n ceisio annog CAMHS i weithio gyda hi, ond ni weithiodd CAMHS gyda hi byth, ac yn sicr ni wnaethon nhw weithio gyda hi yn yr ardal hon oherwydd cafodd hi asesiad ond gwrthododd hi gymryd rhan ynddo. A'r hyn maen nhw'n glir amdano yw oni bai ei bod hi'n barod ac eisiau ymgysylltu â'r gwasanaeth, does dim pwynt ei gorfodi hi i wneud hynny gan na fyddai hynny'n beth cynhyrchiol i'w wneud.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Molly*

Neu nid oedd diagnosis iechyd meddwl penodol, a dyma oedd yn gyfrifol am atal pedwar person ifanc arall rhag bod yn gymwys am wasanaethau. Roedd yr enghreifftiau a ddisgrifiwyd yn cynnwys un person ifanc yr ystyriwyd nad oedd ganddo salwch meddwl wrth ei asesu ar ôl iddo geisio cyflawni hunanladdiad, ac un arall na chafodd ei anghenion iechyd meddwl eu cydnabod gan CAMHS, er gwaethaf pryderon gweithwyr cymdeithasol profiadol:

**'Roedden ni i gyd yn poeni amdano. Fe ofynnon ni i gyd am asesiadau iechyd meddwl. Roedd hi'n amlwg ei fod yn seicotig. Ac mae'n rhaid i mi ddweud hynny. Roeddwn i wedi gweithio mewn iechyd meddwl, roeddwn i'n weithiwr cymdeithasol cymeradwy o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, roedd hi'n amlwg ei fod yn seicotig, a doedd hynny ddim yn cael ei gydnabod, ac roedd rhaid i ni ei roi mewn llety diogel, ac yna mae'n mynd i ofal seiciatrig.'**

*Arweinydd tîm gwasanaethau plant, yn siarad am Lewis*

Yn olaf, roedd polisi CAMHS, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i gleifion fod mewn amgylchedd diogel cyn y gallant gael mynediad at wasanaethau, yn achosi problemau. Roedd cefndiroedd a bywydau anhrefnus y bobl ifanc yn ei gwneud hi'n anodd iawn iddynt fod mewn lleoliadau penodol ar adegau penodol ac ymgysylltu â'r gwasanaeth.

**5.10** Fodd bynnag, roedd y profiad o ddefnyddio gwasanaethau CAMHS yn amrywio. Roedd adroddiadau cadarnhaol yn cynnwys un achlysur pan ddarparodd y gweithiwr CAMHS wasanaeth allgymorth a mynd i gyfarfod â'r person ifanc yn y lleoliad. Ar achlysur arall, helpodd gwasanaeth CAMHS i roi diagnosis o PTSD mewn person ifanc ac adnabod yr angen parhaus am wasanaeth camddefnyddio sylweddau. Arhosodd y gwasanaeth mewn cysylltiad â'r person ifanc yn ystod ei amser mewn llety diogel a hwylusodd fynediad at help ychwanegol ar ôl hynny. Yn anffodus, roedd enghreifftiau cadarnhaol yn brin iawn o gymharu â nifer y bobl ifanc nad oeddent yn derbyn gwasanaeth neu a oedd yn defnyddio un a oedd, yn ôl gweithwyr proffesiynol eraill, yn methu â diwallu eu hanghenion iechyd meddwl.

15. Er enghraifft, yn York a Jones (2017)

**5.11** Roedd y lefelau uchel o leoliadau a oedd yn methu oherwydd yr ymddygiadau a ddisgrifir yn golygu bod llawer o weithwyr cymdeithasol yn gorfod dod o hyd i leoliadau newydd yn aml. Roedd eu profiadau'n ategu gwybodaeth ehangach bod y broses yn aml yn anodd, yn gofyn am nifer uchel o alwadau ffôn ac yn gallu cymryd oriau i'w chwblhau[16]:

'O fewn dau ddiwrnod, ffoniais i a'n gweithiwr dyletswydd tua 140 o leoliadau yn yr ardal leol, a lleoliadau preswyl hyd yn oed, nid lleoliadau llety diogel yn unig oherwydd, yn amlwg, llety diogel oedd ein hopsiwn diwethaf.'

*Gweithiwr cymdeithasol Grace*

'Fe wnaethon ni chwilio am leoliadau preswyl mewn tua 72 lleoliad, ond oherwydd ei ymddygiad roedden nhw'n gwrthod ei gymryd, felly'r unig opsiwn oedd gennym ni oedd mynd i'r llys i geisio cael Gorchymyn Llety Diogel'

*Gweithiwr cymdeithasol Oliver*

'Daeth y gwasanaeth prawf â hi i'n stepen drws, ar brynhawn dydd Gwener, a doedd gennym ni unman i'w rhoi hi, roedd rhaid i ni ofyn i'w mam ei chael hi dros y penwythnos fel y gallen ni greu pecyn cymorth. Ond, ie, fe ymosododd hi ar blismon y noson honno. Felly doedd gennym ni ddim lle iddi, fel y dywedais i, felly roedd rhaid i ni reoli ac yna rheoleiddio lleoliad [...] gyda'n staff yn gwirfoddoli [...] i chwilio am leoliad. Dros 140 o leoliadau. Felly, ie. Dychrynllyd. Aeth hynny ymlaen am wythnos neu ddwy'

*Uwch ymarferydd, cyn-weithiwr cymdeithasol Hannah*

**5.12** Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y diffyg lleoliadau yn golygu bod rhaid i rai gweithwyr cymdeithasol gymryd yr opsiwn gorau neu'r unig opsiwn oedd ar gael[17,18]. Roedd hyn yn cynnwys pobl ifanc yn cael eu lleoli ymhell o'u cartref; mewn lleoliadau amhriodol, megis tai gwyliau; treulio nosweithiau mewn llefydd, megis gorsafoedd heddlu neu hosteli digartref; cael eu dychwelyd at eu teulu; aros mewn gwelyau ysbyty:

'Doedd dim lleoliad, does gennym ni ddim lleoliadau argyfwng, doedd dim maethu, doedd dim byd. Dim byd, doedd unman y gallen ni ei chael hi. Felly doedd gennym ni ddim dewis ond gofyn i'w mam a'i thad ei chael hi dros y penwythnos fel y gallen ni wneud trefniadau ar gyfer dydd Llun. [Ar achlysur arall, roedd hi] i mewn ac allan o'r ysbyty am bron i bythefnos gan nad oedd gennym ni unman i'w rhoi hi ac roedd hi'n rhoi ei hun mewn perygl drwy'r amser, roedd yr ysbyty eisiau ei rhyddhau hi. Doedden ni ddim yn gwybod beth i'w wneud, allen ni ddim â dod o hyd i leoliad gwell a gan fod y risgiau'n mynd yn fwy ac yn fwy... yn y diwedd, fe benderfynon ni fynd am Orchymyn Llety Diogel am resymau lles.'

*Gweithiwr cymdeithasol Hannah*

16. Gweler, er enghraifft: Norgate et al (2012)
17. Gweler, er enghraifft: Harkin a Houston (2016)
18. Mae'r materion hyn wedi'u trafod gan Willems (2018)

## Adran 6: Profiadau pobl ifanc o fynd i mewn i lety diogel

### Canfyddiadau allweddol

- **Er y cydnabyddir yr heriau o ran cadw pob person ifanc yn rhan o'r broses o gael gorchmynion llety diogel, nid oedd barn pob person ifanc yn cael ei hystyried**
- **Mae'r prinder gwelyau mewn llety diogel yn achosi ansicrwydd a phryder i bobl ifanc ac yn cynyddu llwyth gwaith gwasanaethau cymdeithasol**
- **Weithiau, mae diffyg llety diogel yn arwain at awdurdodau lleol yn creu llety amgen mewn lleoliadau anghofrestredig**
- **Nid yw pob dull trafnidiaeth ddiogel presennol yn sicrhau taith dderbyniol ddiogel i bobl ifanc.**

Wrth wneud cais am Orchymyn Llety Diogel, dylai awdurdod lleol nodi gwely sydd ar gael a chael gorchymyn gan y llysoedd. Mae gorchmynion yn cael eu rhoi ar ôl gwrandawiad llys, cyn belled â bod yr amodau a osodwyd yn Adran 114 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael eu cyflawni. Dylai'r bobl ifanc dan sylw fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau parhaus.

**6.1** Roedd gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm yn dweud bod ceisiadau am Orchmynion Llety Diogel yn cael eu gwneud yn gyflym, yn aml ac mewn ymateb i ddigwyddiadau a methiant lleoliadau.

**6.2** Mae'r broses o fynd i'r llys, dod o hyd i le a symud y person ifanc i lety diogel neu gyfwerth yn digwydd yn gyflym, ac mae'n gallu bod yn llawn anawsterau a phryderon i staff gwasanaethau cymdeithasol ac, yn aml, y bobl ifanc.

6.3 Yn ôl pobl ifanc a'u gweithwyr cymdeithasol, roedd faint roedd pobl ifanc yn ei wybod am y cais am Orchymyn Llety Diogel ymlaen llaw yn amrywio. Roedd rhai o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth yn gwybod dim am y weithdrefn, roedd eraill yn gwybod rhywfaint ac roedd rhai o'r rhain wedi mynd i'r llys, a gofynnodd dau berson ifanc am y cais eu hunain. Y prif resymau pam nad oedd pobl ifanc yn cael gwybod am y cais oedd oherwydd eu bod ar goll ar y pryd neu oherwydd ofnau y byddai gwybod am y cais yn peri i'r person ifanc redeg i ffwrdd neu geisio cyflawni hunanladdiad. Cadarnhaodd rhai pobl ifanc y byddent wedi dianc pe baent yn gwybod am y cais:

> *Cyfwelydd: Pe baech chi wedi gwybod bod hynny'n mynd i ddigwydd, beth fyddech chi wedi'i wneud?*
>
> 'Fyddwn i ddim wedi mynd. Fydden i'n dal ar goll heddiw.'
>
> *Jack*

Roedd un enghraifft o berson ifanc yn cael ei atal rhag cymryd rhan yn y broses, er ei fod wedi dymuno mynd i'r llys:

> 'Fe stopion nhw fi rhag mynd i'r llys ar gyfer y gorchymyn cyntaf. Dywedodd y bobl o'r llety diogel nad oedden nhw wedi gweld hynny'n digwydd o'r blaen. Fel arfer, mae gennych chi hawl i fynd i'r llys. Ond fe ddywedon nhw wrtha i na allen i fynd, ac fe geision nhw ddweud wrtha i na allen i fynd i'r ail wrandawiad llys chwaith, ond fe es i at berson annibynnol a chynorthwyydd personol ac fe ddywedon nhw fod gen i hawl i fynd ac os oeddwn i eisiau bod yno y gallwn i fod yno. [Dywedon nhw] ei fod yn rhy bell, ond doedd dim rhaid iddyn nhw fy hebrwng i yno. Roedd gan y llety diogel eu pobl eu hunain i 'nghael i i'r llys. Dim fi oedd yr unig berson yno oedd yn mynd i'r llys, roedd y rhan fwyaf o'r bobl yno yn mynd i'r llys ar gyfer eu gorchmynion pan oedd angen adolygiad neu estyniad, felly roeddwn i'n teimlo eu bod nhw'n ceisio fy atal i rhag bod yno a mynegi fy marn gan fy mod i'n gwneud pwyntiau dilys mewn cyfweliadau a doedden nhw ddim yn hoffi hynny.'
>
> *William*

Roedd hi'n amlwg hefyd fod y person ifanc hwn yn teimlo bod diffyg ymgynghoriad a chynhwysiant yn nodweddiadol o'i brofiad ehangach, lle roedd "pawb yn cael cyfarfodydd ac yn penderfynu lle roeddwn i a'm bywyd ac roeddwn i'n teimlo nad oeddwn i'n rhan ohono" (William), gan awgrymu bod y pŵer gydag awdurdodau ar hyn o bryd, beth bynnag fo'r ddeddfwriaeth a'r polisi yn

ymwneud â hawliau person ifanc a gynghorir gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig (1989) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**6.4** Nododd llawer o weithwyr cymdeithasol oedd yn cymryd rhan fod dod o hyd i le mewn llety diogel yn weithdrefn heriol. Yn achlysurol, ac yn groes i'r canllawiau, roedd hyn arwain at orchymyn llety diogel yn cael ei roi cyn iddynt ddod o hyd i wely:

**'Fe nodon ni eu bod nhw'n wynebu risg o fod angen llety diogel, ond fe gymerodd 3 wythnos i ni ddod o hyd i wely. Ac mae hynny bob dydd, cyswllt dyddiol, yn ffonio'r rhwydwaith llety diogel.'**

*Gweithiwr cymdeithasol*

Ynghyd â phrinder gwelyau lles digonol, roedd enghreifftiau o lety diogel yn gwrthod derbyn person ifanc oherwydd y lefel uchel o risg oedd yn gysylltiedig â nhw: '*Rwyf i wedi clywed ar adegau ei bod hi'n peri gormod o risg i'r lleoliad hwn, sydd i fod yn llety diogel*!' (Gweithiwr cymdeithasol Grace). Mae'r profiadau hyn yn atgyfnerthu cwestiynau presennol am yr opsiynau sydd ar gael ar hyn o bryd yn y sefyllfa hon[18] ac yn tynnu sylw at y tasgau anodd sy'n wynebu gweithwyr cymdeithasol.

**6.5** Er bod yr ansicrwydd ynghylch lleoliad yn gallu bod yn boendod i'r bobl ifanc, roedd y sefyllfa'n anodd i'r rhai sy'n gofalu amdanynt hefyd gan na allent ateb y cwestiynau am ble roeddent yn mynd na'u helpu i wneud cynlluniau pendant ar gyfer y tymor byr neu hir:

**'Ar ôl hynny, dywedodd fod fy rheolwr wedi dweud wrtho ei fod yn mynd i dorri ei wallt, ond mynd i lety diogel y gwnaeth e. Ond yr hyn a ddigwyddodd mewn gwirionedd oedd bod y gofalwyr maeth, gan nad oedden ni'n gwybod pryd roedd e'n mynd, roedden nhw'n gwneud cynlluniau a dywedodd e ei fod eisiau torri ei wallt, felly fe ddywedon nhw ie, iawn, ewn ni i dorri dy wallt, a dyna oedd cynlluniau'r diwrnod, ond yn amlwg fe newidiodd pethau…. roedd e wedi drysu'n llwyr yr adeg honno a dim ond ar ôl hynny, pan ddywedodd e hynny, y gwnes i feddwl 'dwyt ti ddim yn deall yn iawn beth oedd wedi digwydd i gyrraedd y pwynt hwn'. Felly fe drafodon ni'r peth ac fe esboniais i'r sefyllfa'**

*Gweithiwr cymdeithasol Matthew*

**6.6** Er bod y cludiant i lety diogel yn cael ei hwyluso gan weithwyr cymdeithasol, yr heddlu neu asiantaethau hebrwng diogel, roedd rhai pobl ifanc yn teimlo bod y trosglwyddiad i lety diogel yn brofiad trawmatig iawn, yn enwedig pan oedd y daith yn un annisgwyl, orfodol a/neu wedi'i hwyluso gan unigolion nad oedd y bobl ifanc wedi cyfarfod â nhw o'r blaen:

**'Roeddwn i yn yr orsaf heddlu, a dywedon nhw, "O, rwyt ti'n mynd i [lety diogel]." Ac, yn amlwg, [roeddwn i wedi] clywed pethau fel, "O, dwyt ti ddim eisiau mynd fanna, oherwydd hwn a llall," ac aethon nhw â mi yno. Yr heddlu. Roedd tri phlismon ac aeth dau o 'ngofalwyr i o'm hen leoliad â fi.'**

*Chloe*

**'Felly daeth hi [rheolwr y gweithiwr cymdeithasol] i mewn a dweud, "Mae rhywun yma i dy weld di," a dyma pryd cerddodd y tri dyn i mewn, ar fy mhen-blwydd yn 16 oed. Ac rwy'n credu y collais i fy mhen, oherwydd pan ddywedodd hi – daeth hi i mewn gyda gwên fawr ar ei hwyneb, "Mae rhywun yma i dy weld di," ac roeddwn i yn meddwl mai fy mam a'r plant oedd yno. Ac yna, na, tri diawl bach tew yn cerdded i mewn y tu ôl iddi. Roeddwn i'n wyllt gacwn. Ac roedden nhw'n dweud, "Rwyt ti'n symud i [rhanbarth Lloegr]." Ac roeddwn i'n dweud, "Dydw i ddim." Felly fe drïais i ymladd â nhw, gwneud fy ffordd tua'r drws, ac yna eisteddodd un ohonyn nhw arna i, daeth e o unman. Oherwydd roedden nhw fel rhinoserosiaid……Ac fe daflon nhw fi yng nghefn y car[19] a [ ] awr yn gyrru i'r [llety diogel]. Doedd gen i ddim syniad beth oedd yn digwydd.'**

*Jack*

19. Hoffai'r awduron gadarnhau bod gweithiwr cymdeithasol Jack wedi bod yn bresennol yn eu cyfweliad, a bod y gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn ymwybodol o'r digwyddiad hwn yn flaenorol ac wedi gweithredu yn unol â hynny.

‘Gwnaeth neb fy rhybuddio i fy mod i’n mynd i lety diogel. Roeddwn i yn nhŷ [perthnasau]. Cefais i fy nhaflu mewn fan. Roeddwn i’n greithiau i gyd, a dyrnodd y dyn fy [mherthynas] cyn iddo gau’r drws......... doeddwn i’n gwybod dim am y peth, daeth gweithiwr cymdeithasol i’m gweld i ac roedd hi’n siarad drwy’r broses, a’r funud nesaf, daeth y tri dyn y tu ôl i mi, fy nghodi i i fyny a ’nhaflu i yn y fan, a doeddwn i ddim yn gwybod beth oedd yn digwydd. Roeddwn i’n meddwl bod rhywun wedi fy herwgipio, roeddwn i mor ofnus. Ac roedd e’n ofnadwy.’

*Megan*[20]

**6.7** Yn ogystal, nododd gweithwyr cymdeithasol achlysuron pan nad oedd modd dod o hyd i lety diogel, gan olygu bod rhaid i awdurdodau lleol ddod o hyd i ‘lety pwrpasol’ neu ‘lety amgen’, neu greu llety o’r fath. Gwrthodwyd lle i un o’r bobl ifanc hyn mewn llety diogel gan ei fod wedi gwneud difrod materol sylweddol mewn uned. Cafodd gymorth 2:1 mewn tŷ ‘pwrpasol’ nad oedd wedi’i gofrestru fel cartref plant. Mewn achos arall, cafwyd Gorchymyn Llety Diogel, ond ni lwyddwyd i ddod o hyd i leoliad. Mewn ymateb, crëodd yr awdurdod lleol leoliad mewn hen gartref plant nad oedd bellach mewn defnydd a chafodd ei staffio gan y gweithiwr cymdeithasol a chydweithwyr i weithio fel staff preswyl. Roedd y ddau achos yn gofyn am fyfyrio ynghylch a all lleoliadau ‘pwrpasol’ o’r fath ddiwallu anghenion person ifanc neu’r gofynion ar gyfer cartref plant preswyl a’i drefniadau staffio.

20. Hoffai’r awduron gadarnhau bod gweithiwr cymdeithasol Megan wedi bod yn bresennol yn ei chyfweliad, a bod y gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn ymwybodol o’r digwyddiad hwn yn flaenorol ac wedi gweithredu yn unol â hynny.

## Adran 7: Bywyd mewn llety diogel

### Canfyddiadau allweddol

- Mae profiadau gwael wrth gyrraedd llety diogel yn gallu cael effaith negyddol ar agwedd pobl ifanc at weddill eu hamser yn y lleoliad

- Mae llety diogel yn gallu darparu amgylchedd cyson a reoleiddir lle mae pobl ifanc yn teimlo'n ddiogel

- Mae llety diogel yn gallu rhoi cyfle i bobl ifanc ymgysylltu â gwasanaethau roeddent wedi bod yn absennol ohonynt yn y gorffennol, yn enwedig addysg

- Mae rhai pobl ifanc yn teimlo bod natur warchodol rhai lleoliadau llety diogel yn amhriodol

- Mae rhai pobl ifanc sy'n cael eu hatgyfeirio am resymau lles yn gwrthwynebu rhannu preswylfeydd gydag eraill sydd wedi cael dedfryd o garchar neu sy'n wynebu cyhuddiadau troseddol

- Mae llety diogel yn tueddu i ganolbwyntio ar gyfyngu ar ryddid pobl ifanc, yn hytrach na darparu'r help arbenigol angenrheidiol

- Yn aml, nid yw Gorchmynion Llety Diogel yn rhoi digon o amser ar gyfer ymyrraeth therapiwtig neu i osod y seiliau ar gyfer taflwybrau cadarnhaol

- Mae angen opsiynau triniaeth therapiwtig ehangach sy'n canolbwyntio ar broblemau ymddygiadol ac emosiynol mewn llety diogel

- Ar y cyfan, nid yw'r amser a dreulir mewn llety diogel yn cydnabod nac yn mynd i'r afael â ffactorau achosol sylfaenol ymddygiadau pobl ifanc; yn hytrach, mae'n cyfyngu ar eu rhyddid ac yn lleihau risg dros dro.

Mae'r adran hon yn ymwneud â phrofiadau pobl ifanc yn ystod eu hamser mewn llety diogel neu amgen.

**7.1** Ar ôl cyrraedd, roedd un person ifanc yn hoffi llety diogel yn syth. Ymateb cymysg oedd gan un arall gan ei fod wedi gorfod tynnu ei ddillad i gael ei archwilio cyn i aelod o staff ddod i mewn i 'wneud dwli' a dod â rhywbeth i'w fwyta iddo. Roedd y rhan fwyaf o bobl ifanc wedi ei chael hi'n anodd dygymod â'r newid, gydag un yn ei ddisgrifio fel profiad 'erchyll' (person ifanc).

**7.2** Wrth fyfyrio ar pam nad oeddent wedi hoffi'r cartref ar y cychwyn, soniodd pobl ifanc am yr awyrgylch, ddim yn adnabod unrhyw un, bod yn nerfus o staff, ddim yn hoffi'r preswylwyr eraill, cael eu gwylio o hyd, ddim yn cael mynd allan, ddim yn cael gwneud yr hyn roedden nhw eisiau ei wneud a theimlo'n gaeth. Roedd tri pherson ifanc wedi treulio amser mewn gwahanol leoliadau llety diogel ac yn gallu gwneud cymariaethau; roedd yn well ganddynt leoliadau llety diogel mwy cartrefol a digynnwrf o'r cychwyn:

> 'Y llety diogel hwnnw yr es i iddo, roeddwn i wrth fy modd…. Oherwydd doedd e ddim yn droseddwyr i gyd, beth yw'r llall? […] Lles. Roedd y bobl i gyd yno am resymau lles, felly roedden nhw i gyd yn gyfeillgar ac roedd mwy o ddealltwriaeth. Roedd tua 11 ohonon ni i gyd, roedd e'n llety diogel bach. Ac roedd e'n lle neis. Ond yn amlwg, pan mae'n gymysg hefyd, dydy e ddim mor wael, ond mae mwy o sŵn, mwy o gyffro ac mae popeth yn fwy cymysg.'
>
> *Mia*

**7.3** Roedd profiadau ar ôl cyrraedd llety diogel yn cael effaith sylweddol ar bobl ifanc. Cafodd un dyn ifanc ei ddieithrio gan broses dadwenwyno sylweddau anodd a sylfaenol ar ôl cyrraedd:

**'Rydych chi'n mynd yn syth i mewn, i lawr i'r ystafell integreiddio ac yna i uned â'r rhif 6 ar ei hochr. Ond oherwydd fy mod i mor wael ar gyffuriau – fe gymerodd amser maith i mi ddod i lawr oddi arnyn nhw. Oherwydd mae'n debyg – dwi ddim yn gwybod, mae'n debyg y gwnes i daro fy hun a thorri fy mhen ar agor neu rywbeth…' Cyfwelydd: Dwyt ti ddim yn cofio hynny o gwbl?' Dwi ddim yn cofio. Na. Ond mae'n debyg y rhoddon nhw fi yn yr ystafell honno, ac fe es i'n wyllt ac fe ddechreuodd gwaed ddifaru o 'mhen i neu rywbeth.' Cyfwelydd: Oedd yna gynllun ar gyfer dod i lawr oddi ar beth bynnag roeddet ti wedi'i gymryd? 'Nag oedd. Dim ond fy nhaflu i yn yr ystafell, rhoi bwyd i mi deirgwaith y dydd. Dyna'i gyd oedd e. Dydw i ddim yn meddwl eu bod nhw wedi arfer gyda phethau fel yna,[21]'**

*Jack*

**7.4** Wrth siarad am fywyd bob dydd mewn llety diogel, disgrifiodd y rhan fwyaf o bobl ifanc sut roeddent wedi ymgyfarwyddo ag amseroedd sefydlog ar gyfer dihuno, prydau bwyd, addysg, gweithgareddau a gwely. Unwaith iddynt ddygymod â hyn, roedd llawer wedi hoffi neu wedi elwa ar yr arfer hwn. Roedd amryw yn teimlo ei fod yn gwneud iddynt deimlo'n ddiogel:

**'Roedd dod i adnabod y staff yn peri straen, ond rwy'n credu dros amser eich bod chi'n dod i arfer, rydych chi'n mynd i'r ysgol, mae gennych chi helpwyr gyda pha bynnag broblemau sydd gennych chi, gallwch chi siarad â'r staff yno, cael amser yn eich ystafell. Felly mae'n lle mwy diogel nag oedd allan yma i mi'**

*Amy*

Roedd gweithwyr cymdeithasol yn cefnogi hyn, gan wneud sylwadau ar effaith gadarnhaol bwyd, cwsg ac addysg reolaidd, yn enwedig os oedd person ifanc wedi bod yn defnyddio'n gryf cyn y Gorchymyn Llety Diogel:

**'Roedden nhw'n rhoi seibiant i'w hafu a'i harennau a'i chalon o'r holl alcohol. Felly mewn ffordd, fe lwyddodd hynny, dywedodd y gweithiwr camddefnyddio sylweddau cymhleth y siaradodd hi ag e cyn ei phen-blwydd yn 18 oed fis neu ddau yn ôl ei bod yn debygol bod ei hamser mewn llety diogel wedi ei helpu hi.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Ellie*

**7.5** Roedd pethau eraill yr oedd pobl ifanc yn eu hoffi mewn llety diogel yn cynnwys y bwyd, y staff, bod â gweithiwr allweddol i siarad ag ef, pêl-droed, chwaraeon a gweithgareddau megis coginio:

**'Pêl-droed, y gampfa, coginio. Mae ganddyn nhw ystafell gerddoriaeth gyda chyfrifiaduron Apple Mac ac offerynnau ac ati. Pethau fel yna. Tipyn o bêl-droed. Fe wnes i lawer o bethau fel yna. Roedd ganddyn nhw Playstation ac X-box ac ystafell ffilmiau. Roedd e'n iawn; yn wir, roedd e'n eithaf da'**

*William*

21. Hoffai'r awduron gadarnhau bod gweithiwr cymdeithasol Jack wedi bod yn bresennol yn eu cyfweliad, a bod y gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn ymwybodol o'r digwyddiad hwn yn flaenorol ac wedi gweithredu yn unol â hynny.

**7.6** Wrth siarad am y pethau nad oeddent wedi eu hoffi, soniodd pobl ifanc am yr amgylchedd: y sŵn, y cloeon, methu â chyfathrebu'n rhydd â phreswylwyr eraill, angen caniatâd i fynd i'r tŷ bach. Roedd rhai yn cysylltu hyn â theimlad eu bod yn cael eu cosbi neu yn y carchar, ac eraill yn ei gysylltu â chael eu lletya gyda phobl ifanc a oedd yno am resymau troseddol. Peth arall a berodd bryder oedd y chwe achlysur pan siaradodd pobl ifanc am staff yn defnyddio gormod o rym, a gwelwyd hyn fel arwydd clir o bŵer dros berson ifanc[22]:

**'Ac yna fe lusgon nhw fi i lawr, fyddan nhw ddim yn mynd â chi i'ch ystafell gan fod eich holl eiddo yn eich ystafell. Byddan nhw'n eich rhoi chi mewn ystafell gwbl wag, gyda dim byd ynddi. Byddan nhw wedi tynnu'r matras allan, popeth, a byddai'r ystafell ymolchi wedi'i chloi bob amser, byddai'r drws bob amser ar glo hyd nes y byddech chi angen y tŷ bach. Ond yn amlwg yn fy ystafell i byddai'r drws ar agor. Ond fe ges i fy llusgo i lawr y coridor... roedd ganddo ddwylo enfawr hefyd, roedd ei fysedd yn fy llygaid pan oeddwn i'n cael fy llusgo i lawr y coridor, doeddwn i'n gweld dim. Roedd yn erchyll. Dydw i ddim yn meddwl y dylai fod wedi gwneud hynny. Rhoi ei fysedd yn llygaid plant fel na allan nhw weld, a chael eu llusgo i lawr coridor[23].'**

*Mia*

**7.7** Mae'r straeon a roddwyd yn nodi bod cysylltiad â theuluoedd wedi helpu pobl ifanc yn ystod eu hamser mewn llety diogel, 'Roedd ei deulu'n ymweld yn rheolaidd, ac aethon nhw i'w weld e Ddiwrnod Nadolig hyd yn oed... dywedodd ei fam mai dyna'r Nadolig teuluol gorau iddyn nhw ei gael erioed' (gweithiwr cymdeithasol Luke), tra roedd adroddiadau eraill yn cefnogi tystiolaeth bod cael eu lleoli ymhell o'u cartref yn peri gofid i bobl ifanc[24]:

**'Mae hi wedi dychwelyd i lety diogel. Beth sydd wedi digwydd nawr yw ei bod hi wedi dweud ei bod hi eisiau mynd adref. Yn amlwg mae salwch ei mam yn gwaethygu. Dydy hi heb weld ei hefaill ers amser maith.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Lauren*

**7.8** Roedd defnyddio llety diogel ymhell o'r awdurdod lleol cartref yn cael effaith negyddol ar weithwyr cymdeithasol hefyd. Roedd rhai yn gorfod treulio amser i ffwrdd o'u swyddfeydd a'u teuluoedd i gynnal y berthynas â'r person ifanc, i adolygu cynnydd, i ystyried cynlluniau ymadael ac i fodloni gofynion statudol os mai'r awdurdod lleol yw rhiant corfforaethol y person ifanc. Roedd teithio o gwmpas y DU yn effeithio ar awdurdodau lleol hefyd a oedd yn gorfod talu costau teithio a llety eu gweithwyr cyflogedig a theuluoedd a oedd yn ymweld.

**7.9** Pan ofynnwyd i bobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol am y defnydd o wasanaethau ehangach a ddefnyddir mewn llety diogel, fe siaradon nhw am addysg, gwasanaethau iechyd a chymorth iechyd meddwl.

**7.10** Er nad oedd rhai pobl ifanc yn ymgysylltu â'r gwasanaethau addysg a ddarparwyd ('*roedd hi'n gwneud beth roedd hi eisiau ei wneud. Doedd hi ddim wedi gwneud unrhyw addysg, doedd hi ddim yn ymgysylltu ag unrhyw beth*.' Gweithiwr cymdeithasol Ellie), roedd y rhan fwyaf yn cymryd rhan weithredol unwaith iddynt setlo. Nododd rhai pobl ifanc eu bod yn hoffi'r dosbarthiadau, roedd eraill wedi ymgysylltu ag addysg am y tro cyntaf ers amser maith. Dangosodd un enghraifft gadarnhaol y gallai'r addysg fod yn addasadwy, gan alluogi'r person ifanc i astudio yn ei hystafell yn hytrach nag mewn lleoliad grŵp:

**'Fe wrthododd hi fynd i'r ysgol ond wedyn fe gymerodd ran mewn rhywfaint o addysg, ond ar ei thelerau hi. Yn aml iawn, byddai hi'n cymryd ei gwaith i breifatrwydd ei hystafell ac yn gweithio'n galed arno. Gwneud cynnydd a chyflawni. Ac yna byddai hi'n gofyn am fwy o waith. Ond yn y lleoliad ysgol, byddai hi'n dylanwadu ar eraill i ymddwyn mewn ffordd amhriodol a byddai hi'n tarfu ar addysg rhai o'r bobl ifanc eraill a oedd yno.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Molly*

22. Nodwyd hyn hefyd gan Rose (2002)
23. Hoffai'r awduron gadarnhau bod gweithiwr cymdeithasol Mia wedi bod yn bresennol yn ei chyfweliad, a bod y gweithiwr cymdeithasol wedi bod yn ymwybodol o'r digwyddiad hwn yn flaenorol ac wedi gweithredu yn unol â hynny.
24. Gweler, er enghraifft: Ronzoni a Dogra (2011)

Nid oedd eraill wedi hoffi'r gwasanaeth, roedd rhai yn teimlo nad oeddent wedi cael unrhyw ddewis ond cymryd rhan mewn dosbarthiadau, ac roedd eraill o'r farn bod yr addysg yn rhy sylfaenol:

**'Pan oedd hi eisiau gwneud ei haddysg pan oedd hi yn [llety diogel], roedd hi'n mynychu addysg ond roedden nhw'n gwneud sgiliau bywyd sylfaenol iawn fel sut i ddefnyddio peiriant golchi, peiriant sychu dillad… dydy hynny ddim yn addysg. Ac mae ei gallu hi'n dda iawn, mae hi'n gallu gwneud ei gwaith TGAU, felly mae hi wedi colli allan ar gymaint o waith ysgol gan ei bod hi'n cael ei symud o gwmpas. Mae hi wedi colli cymaint o addysg a bydd hi'n ei chael hi'n anodd iawn dal i fyny nawr, sy'n siom gan ei bod hi'n ddigon galluog i fod â dyfodol disglair o'i blaen hi'**

*Gweithiwr cymdeithasol Hannah*

**7.11** Mae pobl ifanc yn cael cynnig asesiadau iechyd mewn llety diogel, ond ychydig iawn o wybodaeth a gynigiwyd am hwn: cafodd un person ifanc ddiagnosis o gyflwr ar y galon, ac roedd pedair enghraifft o drin camddefnyddio sylweddau. O'r achosion o gamddefnyddio sylweddau, gwelodd dau berson ifanc weithiwr camddefnyddio sylweddau ac aeth y lleill trwy broses ddadwenwyno, gan gynnwys y dyn ifanc a ddisgrifiodd ei brofiad uchod.

**7.12** Fel y nodir yn Adran 5, roedd llawer o bobl ifanc wedi bod yn dangos ymddygiadau megis hunan-niwed, ceisio cyflawni hunanladdiad, trais a chamddefnyddio sylweddau ar ôl symud i lety diogel neu amgen, ac roedd llawer eisoes wedi bod mewn cysylltiad neu wedi'u hatgyfeirio i wasanaethau iechyd meddwl. Mae profiadau'r bobl ifanc yn yr astudiaeth yn awgrymu bod y therapi iechyd meddwl sydd ar gael iddynt yn ystod eu hamser mewn llety diogel yn amrywio'n fawr, er bod naw o'r deg llety diogel a ddefnyddiwyd yn honni bod ganddynt wasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau therapiwtig eraill digonol, boed yn fewnol neu'n deillio o bartneriaid allanol.

**7.13** Roedd hi'n ymddangos bod chwech o'r bobl ifanc wedi derbyn gwasanaethau a oedd yn cydnabod a diwallu eu hanghenion iechyd meddwl. Roedd rhai gweithwyr cymdeithasol yn nodi bod hyn yn ganlyniad o'r therapi oedd ar gael a natur ddiogel a chyfyng y llety diogel. Siaradodd un person ifanc am bwysigrwydd bod â gweithiwr allweddol i siarad ag ef, a disgrifiodd ei weithiwr cymdeithasol y therapïau amrywiol yr oedd y person ifanc yma wedi'u derbyn:

**'Roedd gen ti [enw], hi oedd dy gydgysylltydd gofal a dy reolwr achos di, ac roeddet ti'n gweithio gyda [enw], fe oedd y gweithiwr sylweddau. Gwnes di lawer o waith gydag ef. Gwnes di dipyn gyda [enw], o adsefydlu. Gwnes di lawer gyda [enw], fe wnaeth e lawer o therapi siarad gyda ti. A [enw] a oedd yn goruchwylio dy feddyginiaeth, y seiciatrydd'**

*Gweithiwr cymdeithasol Amy, yn siarad gydag Amy*

Roedd person ifanc arall yn teimlo bod therapi wedi bod yn llwyddiannus gan mai dim ond mewn llety diogel roeddent yn teimlo'n ddigon hen i ymgysylltu, fel sy'n wir yn aml pan mae pobl ifanc yn eu harddegau yn dechrau cael ymdeimlad cliriach o'u hunaniaeth eu hunain[24]:

**'[Fe weithiais i gyda] CAMHS pan oeddwn i'n iau, ond roeddwn i'n ifanc iawn ac roedd yn anodd delio â'r peth. Yn amlwg doeddwn i ddim yn barod i ddelio â'r peth felly weithiodd e ddim, a ches i ddim help ar ôl hynny. Ac fe es i i'r ysgol a chael yr help yno. Roedd yn beth da i fi fynd yno. Rwy'n teimlo'n well ynof i fy hun ers bod yno. Dydw i ddim yn cymryd cyffuriau a dydw i ddim yn treulio amser gyda'r un bobl ers bod yno.'**

*William*

Roedd gweithiwr cymdeithasol person ifanc arall yn teimlo, er nad oedd therapi neu gymorth priodol wedi'i gynnig mewn dau arhosiad cynharach mewn llety diogel, bod yr arhosiad diwethaf wedi cael effaith gadarnhaol trwy ddarparu therapi drama, ar ôl nodi y gallai hynny fod yn ddefnyddiol i'r person ifanc:

**'Roedd [llety diogel] yn wych, fe gadwon nhw at y ffiniau, fe ddarparon nhw therapi drama y talodd yr awdurdod lleol amdano ac fe ymgysylltodd hi gan ei bod hi mewn uned gyfyngedig. Arweiniodd hyn ati yn ymgysylltu â'r asesiadau seicolegol hefyd, yr asesiadau IQ'**

*Gweithiwr cymdeithasol Ellie*

**7.14** Derbyniodd un person ifanc gymorth da gyda materion iechyd meddwl mewn llety amgen. Er na roddwyd manylion y cymorth iechyd meddwl, disgrifiodd y gweithwyr cymdeithasol a chymorth y lleoliad hwn fel 'bendith', gan achredu llawer o'r llwyddiant i'r rheolaeth oedd ganddynt o ran sicrhau bod y person ifanc wedi derbyn cymorth ar gyfer ei iechyd meddwl, gan gynnwys wrth bontio i wasanaethau oedolion. Er bod pryderon o ran diffyg lleoliadau diogel, mae'n bwysig cydnabod yr enghraifft hon o leoliad o'r fath yn cynnig canlyniadau iechyd meddwl buddiol, yn enwedig i helpu i hwyluso'r broses gymhleth o bontio o wasanaethau plant i wasanaethau oedolion.

**7.15** Roedd gweithwyr cymdeithasol eraill yn poeni am y therapi a ddarparwyd mewn llety diogel. O'r rhain, roedd dau yn poeni am natur ac ansawdd y gwasanaeth:

**'Rwy'n credu bod pobl yn gweld ymyrraeth therapiwtig mewn ffyrdd gwahanol iawn. Rwy'n dyfalu y byddai rhai yn gweld y ffaith ei bod hi'n cymryd rhan mewn gweithgareddau celf a chrefft fel ymyrraeth therapiwtig. I mi, pan mae pobl yn dweud ymyrraeth therapiwtig, fy nisgwyliad i yw seicotherapi neu therapi ymddygiad gwybyddol gan mai dyna'r unig ffordd o gael y bobl hyn i ddeall eu profiadau bywyd negyddol i allu eu goresgyn a gwneud dewisiadau mwy gwybodus ar gyfer y dyfodol i hyrwyddo canlyniadau gwell. Heb hynny, rwy'n credu bod rhai ymddygiadau negyddol yn cael eu hatgyfnerthu. Felly, yn sicr doedd dim ymyrraeth therapiwtig yn [llety diogel] ar y ffurf honno.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Molly*

**7.16** Roedd tystiolaeth mewn mannau eraill bod diffyg diagnosis iechyd meddwl yn parhau i atal therapi ar gyfer problemau emosiynol neu ymddygiadol:

**'Niwed emosiynol, esgeulustod, hunan-niwed, llyncu gwrthrychau. Roedd hi eisiau gweld seiciatrydd, roedd ei hymddygiadau'n gwaethygu. Ond roedd iechyd meddwl yn tueddu i ddweud nad oedd ganddi broblem iechyd meddwl. Dyna roedden ni'n ei gael trwy'r amser, dim iechyd meddwl yw e, ond ymddygiad. Ac mae ganddi ASD ac mae hi'n dangos nodweddion, iawn, ymddygiad yw e, ond mae'r ymddygiadau hyn yn arwain at rywbeth eithaf peryglus'**

*Gweithiwr cymdeithasol Grace*

Ac er y cydnabyddir bod yr amser sydd ei angen ar gyfer therapi effeithiol fel arfer yn fwy na'r amser a ganiateir gan y Gorchmynion Llety Diogel, roedd anesmwythyd o hyd bod y rhesymau sylfaenol a'r sbardunau ar gyfer yr ymddygiadau risg uchel yn dal i fod yn anhysbys:

> **'Mae e fel rhoi plastr ar glwyf. Gadewch i ni ddiffodd y tân a pheidio â phoeni sut y dechreuodd yn y lle cyntaf. Ond ar y llaw arall, os oeddech chi eisiau edrych ar yr achosion, gallech chi fod yn edrych ar gyfnod hir o waith. Felly fyddech chi ddim eisiau dechrau hynny yn rhywle dydy hi ddim yn mynd i aros. Felly rwy'n gallu gweld yr ansawdd pragmatig. Ond mae'n rhwystredig iawn pan rydych chi eisiau i'ch person ifanc symud ymlaen. Cael canlyniadau cadarnhaol.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Lucy*

**7.17** Cafwyd adroddiadau hefyd nad oedd anghenion iechyd meddwl pobl ifanc yn cael eu cydnabod na'u trafod. Roedd y rhain yn cynnwys achos o therapi iechyd meddwl heb ei gwblhau oherwydd amser byr y Gorchymyn Llety Diogel; cyfarwyddyd barnwr o ran cymorth iechyd meddwl a chyfraniad CAMHS mewn llety diogel heb ei roi ar waith yn llawn; dim cymorth yn cael ei gynnig er gwaethaf barn y gweithiwr cymdeithasol a oedd wedi cydnabod a nodi anghenion iechyd meddwl y person ifanc:

> **'[Mae] llawer o brofedigaeth y mae angen iddi weithio drwyddi. [...] Rwyf i wedi dweud: "Mae angen i ti fynd â phethau ychydig ymhellach a siarad am y peth," ac mae hi'n dweud "Ie, mi wna i. Pan ddof i allan y tro hwn, mi wna i." Dywedodd hi "Rho atgyfeiriad i mewn", ond dydw i ddim yn gwybod.' Cyfwelydd: A oes cymorth fel yna iddi yn [llety diogel]? 'Oes. Mae ganddyn nhw CAMHS yno, felly mae hi'n gallu cael mynediad at gwnsela. Ond dydyn nhw ddim yn cynnal unrhyw asesiad'**

*Gweithiwr cymdeithasol*

Mae mwy a mwy o weithwyr proffesiynol yn cefnogi'r farn bod llety diogel yn aml yn canolbwyntio ar gyfyngu ar ryddid pobl ifanc, yn hytrach na darparu'r help arbenigol sydd ai angen arnynt[25]:

> **'Ac i fod yn onest, yn fy marn i oherwydd iddo gymryd mor hir, roedd hi yno am 18 mis gan iddo gymryd mor hir, hira'n byd roedd hi yno, mwya'n byd o ddifrod a achoswyd. Chafodd hi ddim o'r driniaeth yr oedd ei hangen arni yn ystod y cyfnod hwnnw. Pe bai hi wedi cael y driniaeth yn gynharach, fydden ni ddim yn y sefyllfa rydyn ni ynddi heddiw.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Charlotte*

**7.18** Gellid rhannu'r bobl ifanc yr oedd gennym fanylion am eu profiadau mewn llety diogel yn ddau grŵp: y rhai a welodd eu harhosiad fel profiad cadarnhaol a'r rhai a deimlodd ei fod yn amhriodol a'u bod wedi ei oddef. Ar y cyfan, a beth bynnag yw'r agweddau cadarnhaol, mae canfyddiadau'r astudiaeth yn awgrymu mai yn anaml yr oedd yr amser a dreuliwyd mewn llety diogel yn mynd i'r afael â ffactorau achosol sylfaenol ymddygiadau pobl ifanc, ond roedd wedi cyfyngu ar eu hymddygiad a lleihau'r risg dros dro.

25. Fel a ddisgrifiwyd hefyd gan Hart a La Valle, 2016

## Adran 8: Gadael llety diogel

### Canfyddiadau allweddol

- Cydnabu gweithwyr cymdeithasol bwysigrwydd cynllunio'r pontio o lety diogel yn ofalus

- Pan fo hyd Gorchymyn Llety Diogel yn anhysbys, gall cynllunio i adael llety diogel fod yn her fawr

- Mae hanesion ac anghenion parhaus pobl ifanc sy'n gadael llety diogel yn gallu ei gwneud hi'n anodd i ddod o hyd i leoliadau ar ôl gadael llety diogel, sy'n gallu achosi oedi o ran gadael llety diogel neu arwain at gais am orchymyn amddifadu o ryddid yn y lleoliad newydd

- Mae pontio gofalus o lety diogel gyda chysylltiad rheolaidd rhwng y person ifanc a'r lleoliad newydd yn ei gwneud hi'n haws i'r bobl ifanc symud i'r lleoliad newydd

- Roedd 38 y cant (naw) o'r bobl ifanc (y cafwyd gwybodaeth ddigonol amdanynt) wedi cael profiadau cadarnhaol yn eu lleoliad cyntaf ar ôl llety diogel, roedd canran debyg wedi cael profiadau gwael a 25 y cant (chwech) wedi cael profiadau cymysg.

- Roedd y rhai â phrofiadau da yn tueddu i fod wedi profi pontio a gynlluniwyd yn ofalus i leoliadau cyson a oedd yn cydnabod eu hanghenion.

Mae'r adran hon yn ymwneud â phrofiadau pobl ifanc pan adawon nhw lety diogel neu amgen am y tro cyntaf.

**8.1** Cydnabu gweithwyr cymdeithasol bwysigrwydd cynllunio pontio o lety diogel yn ofalus a dod o hyd i leoliadau sy'n addas ar gyfer y person ifanc, yn diwallu ei anghenion, ei gadw'n ddiogel a lleihau'r tebygolrwydd o orfod dychwelyd i lety diogel:

> 'Mae angen ei gynllunio'n dda. Felly allwn ni ddim dod â nhw allan, rydyn ni'n cydnabod, ac rwy'n credu ein bod ni'n eithaf da am beidio â dod â nhw allan a'u rhoi nhw'n ôl adref. Wedyn rydyn ni'n ôl i'r cam cyntaf [...] oherwydd, fel y dywedais i, allwch chi ddim â'u dychwelyd nhw i senario lle gallan nhw fod yn wynebu risg o hyd. O bosibl.'

*Arweinydd tîm gwasanaethau plant*

**8.2** Gan fod y Gorchmynion Llety Diogel a roddir i bobl ifanc yn yr astudiaeth yn tueddu i bara tri mis, roedd gweithwyr cymdeithasol a staff llety diogel yn dechrau cynllunio pontio o'r cartref ymhell cyn y pwynt tri mis. Fodd bynnag, nododd gweithwyr cymdeithasol bod yr ymarfer hwn yn cael ei gymhlethu pan wnaed ceisiadau i ymestyn Gorchmynion Llety Diogel gan fod penderfyniadau llys yn anhysbys tan y gwrandawiad. Roedd achosion o'r fath yn cael effaith sylweddol ar yr amser oedd gan weithwyr cymdeithasol i ddatblygu cynlluniau gadael gan nad oedd unrhyw un yn gwybod a fyddai'r person ifanc yn aros mewn lleoliad llety diogel ai peidio.

> 'Ar ôl tri mis, mae'n rhaid i chi fynd i'r llys i gael estyniad. Ac fe frwydron nhw gyda fi'r holl ffordd a dweud: mae e wedi gwneud yn dda. Dywedodd 'Rwyf i eisiau dod allan, rwyf i wedi gwneud yn dda.' Sut?! Dydy e ddim yn ddigon hir, dydy e ddim yn ddigon hir. Felly i fod yn deg, rhoddodd y llys, Mai, Mehefin, Gorffennaf, Awst, rhoddon nhw tan ddechrau mis Medi i mi ddod o hyd i rywle. Ac fe ddywedon nhw dydyn ni ddim yn mynd i'w ymestyn felly mae'n rhaid i ti ddod o hyd i rywle. Ac roeddwn i'n meddwl: Ble yn y byd ydw i fod rhoi'r plentyn yma? Doedd dim lleoliad gofal maeth yn barod i'w gymryd, oherwydd y risg. [...] Preswyl? Dim o gwbl. Dywedon nhw allwn ni ddim â chymryd y risg, mae plant eraill yma, allwn ni ddim rheoli'r risg [...] Ac fe ddangoson ni gronoleg y chwiliadau roedden ni wedi'u gwneud. Roedd tua 60 o gartrefi preswyl, tua 100 o leoliadau maeth.'

*Gweithiwr cymdeithasol Harry*

Fel y gwelwyd mewn astudiaethau blaenorol[26], roedd y lefel hon o ansicrwydd yn peri gofid i bobl ifanc:

**'Rwy'n ei gofio'n galw, "beth yw'r cynllun? I ble rwy'n symud?" Roedd e eisiau ei fflat ei hun. Ond doedd e ddim yn barod. Byddai angen i ni ddarparu sicrwydd eu bod nhw'n gwbl barod ar gyfer annibyniaeth i gael unrhyw dŷ, a gallen ni ddim â gwneud hynny iddo ar y pryd.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Joseph*

**8.3** Fel yr awgrymir yn y dyfyniad uchod, roedd y broses o chwilio am leoliadau addas ar ôl llety diogel yn cael ei heffeithio gan hanesion anodd y bobl ifanc a'r canfyddiad ohonynt fel pobl ifanc risg uchel gan ddarpar ofalwyr:

**'Mae'r unedau preswyl yn dewis a dethol, felly maen nhw'n edrych ac mae ganddyn nhw lawer o awdurdodau lleol yn cystadlu â'i gilydd, ac mae ganddyn nhw Joe Bloggs, sy'n eithaf rhwydd i'w reoli ond mae e wedi cael rhai amseroedd anodd a dydy e ddim yn rhy ddrwg. Ac yna ar ben arall y sbectrwm os oes gennych chi berson ifanc heriol iawn rydyn ni wedi gorfod ei letya'n ddiogel, er y gallwn ni ddangos, ac rydyn ni'n ceisio dangos eu bod nhw wedi symud ymlaen, wedi newid, bod pethau wedi newid, maen nhw'n dal i fynd am Joe Bloggs sydd ychydig yn rhwyddach. Felly dyna beth maen nhw'n ei wneud, maen nhw'n tueddu i chwarae awdurdodau lleol yn erbyn ei gilydd. Ac yna, rydyn ni mewn sefyllfa lle rydyn ni'n cael trafferthion mawr. Mae'r gorchymyn yn dechrau dod i ben ac rydyn ni'n meddwl "ble ydyn ni'n mynd i roi'r person ifanc yma? Sut ydyn ni i fod diwallu anghenion y person ifanc hwn?" Ac eto, rydyn ni'n edrych ar becynnau gofal pwrpasol ar gyfer rhai ohonyn nhw, i hwyluso'r angen hwnnw.'**

*Gweithiwr cymdeithasol*

**8.4** Cafodd anawsterau o'r fath effaith sylweddol ar rai pobl ifanc. Roedd tri wedi dioddef oedi o hyd at dri mis o ran gadael llety diogel gan nad oedd unrhyw le iddynt fynd, er gwaethaf y cwestiynau a godwyd o ran ymestyn amddifadedd o ryddid. I ddatrys y sefyllfa hon, creodd dau awdurdod lleol eu lleoliad 'pwrpasol' eu hunain a chafodd person ifanc arall ei ddychwelyd at ei deulu, er nad hwn oedd y cam a ffafrwyd.

**8.5** Roedd cynllunio pontio yn cael ei effeithio ymhellach gan anghenion penodol y bobl ifanc, gan gynnwys eu diogelu rhag camfanteisio'n rhywiol ar blant, cael eu cadw i ffwrdd o rwydweithiau cyffuriau neu ddylanwadau negyddol eraill yn y cartref, ynghyd â dod o hyd i le lle mae cymorth iechyd meddwl addas ar gael ac yn cael ei ddarparu:

**'Pan oedd hi [mewn llety diogel], roedd hi'n dal i wneud honiadau, ac roedd hi'n dal i niweidio ei hun, ond roedd hi'n ymddangos yn fwy tawel o lawer. [...] Aeth hi i mewn i ddarpariaeth cam-i-lawr, felly roedd yn gartref plant ond roedd y drysau'n cael eu cloi, y ffenestri'n cael eu cloi.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Ella*

**8.6** Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn galw am i ddymuniadau'r bobl ifanc gael eu cynnwys mewn penderfyniadau. Siaradodd rhai gweithwyr cymdeithasol am ymgynghori â'u person ifanc o ran lleoliad ar ôl llety diogel. Disgrifiodd un sut yr arweiniodd hyn at beidio â chael ei leoli mewn lleoliad maeth penodol, a disgrifiodd tri arall sut roedd y broses o chwilio am leoliadau wedi'i llywio gan ddymuniadau'r bobl ifanc i fod mor agos â phosibl at eu cartref.

**8.7** Roedd o leiaf dri o'r bobl ifanc yn y prosiect yn destun Gorchymyn Amddifadu o Ryddid (DOLs) ar ôl llety diogel. Esboniodd staff gwasanaethau cymdeithasol fod ceisiadau DOLs yn cael eu gwneud gan na ellid dod o hyd i unrhyw lety cam-i-lawr priodol ac oherwydd yr angen i sicrhau bod diogelwch yn gorbwyso dymuniadau'r bobl ifanc.

**'Rydyn ni'n gwneud llawer iawn o geisiadau yn dilyn y broses Amddifadu o Ryddid ar ôl llety diogel, [...] gan ein bod ni'n cyfyngu ar eu gallu i gamu i lawr ac yna'n cynyddu eu rhyddid a'u hamser rhydd yn raddol, a chymarebau staff gan eu bod nhw'n dod allan ar gymarebau staff 2-1, goruchwyliaeth cymorth 24 awr, a dim amser rhydd, ac yna mae hynny'n cael ei adolygu ac yn cael ei adeiladu, a'i adeiladu a'i adeiladu tan i ni gyrraedd diwedd y DOLs. Felly rydyn ni'n gwneud llawer o hynny, llawer o geisiadau DOLs.'**

*Arweinydd tîm gwasanaethau plant*

26. Gweler er enghraifft: Ward (2009) ac Unrau et al (2008)

'Fe ddychwelodd hi yma ac fe aeth hi'n ôl i fyny i'w lleoliad am ychydig, ond oherwydd ei bod hi wedi torri diogelwch y lleoliad hwnnw […], doedden nhw ddim eisiau iddi ddychwelyd yno. Felly roedd rhaid i ni ei rhoi hi mewn lleoliad preswyl a oedd yn rhentu caban pren sydd mewn ardal wledig fwy anghysbell fyth. Ac roedd hi'n cael ei staffio 2 i 1, i geisio ei sefydlogi am ychydig, a gweithio gyda hi a dysgu: "beth wyt ti'n ei wneud? Gyda phwy rwyt ti'n ymwneud eto? Beth sy'n digwydd?" Roedd rhaid i ni gael Gorchymyn Amddifadu o Ryddid ar gyfer hynny oherwydd natur y peth, roedd yn gyfyngedig, caban pren iddi hi a dau aelod o staff. A chaniatawyd hynny. […] Yn ystod ei hamser yno, fe aeth hi ar goll unwaith eto yng nghanol y nos. Yn amlwg daeth rhywun i'w nôl hi ac fe fuodd hi ar goll am sawl wythnos ar ôl hynny a dyna phryd y gwnaethon ni gais am ail orchymyn llety diogel.'

*Gweithiwr cymdeithasol Charlotte*

Cydnabu un gweithiwr cymdeithasol fod DOLs yn ddrud i awdurdodau lleol ac yn gynhennus:

'Roedd [y llety diogel] yn dweud na, dydyn ni ddim eisiau ei chael hi'n ôl, does dim modd ei rheoli, hyd yn oed mewn llety diogel, allwn ni ddim ei rheoli hi, ac yna fe ddaethon ni o hyd i leoliad, […] am 16 mil yr wythnos. Ond fe wnaethon ni orchymyn DOLs, gorchymyn Amddifadu o Ryddid arni … 'mae'r gorchymyn DOLs yn beth cynhennus iawn. […Mae ei bargyfreithiwr yn apelio ac yn dweud y gallai hi roi cydsyniad ar gyfer amddifadu o ryddid, […] ac ni ddylai'r gorchymyn amddifadu o ryddid gael ei wneud.'

*Gweithiwr cymdeithasol Chloe*

**8.8** Roedd pontio'n ôl i gartref y teulu yn amhriodol i'r rhan fwyaf o bobl ifanc. Gofal maeth, gofal preswyl a byw'n lled-annibynnol oedd y lleoliadau a ystyriwyd ar ôl llety diogel. Lle rhoddwyd manylion y broses bontio, roedd profiadau'n amrywio o un ymweliad â'r gofalwyr newydd neu ganddynt i broses ofalus a gynhelir dros gyfnod o amser.

**8.9** Roedd tair enghraifft o bontio gofalus, gan gynnwys mwy nag un ymweliad gan y gofalwyr newydd â'r person ifanc ac ymweliadau â'r breswylfa newydd. Fel yr esboniodd un rheolwr preswyl, roedd hi'n ymddangos bod y cyfnod hwn o ymaddasu yn hwyluso'r symud:

'Gan ei fod e'n adnabod y staff hefyd, roedd rhyw ryddhad pan gyrhaeddodd e ac roedd e'n adnabod pawb yma felly doedd e ddim fel 'pwy yw hwnna, pwy yw hwnna' […] ac fe wnaethon ni'n siŵr mai'r bobl ar shifft oedd y bobl a oedd wedi bod i fyny [i ymweld ag ef yn y llety diogel] llawer mwy'

*Rheolwr preswyl sy'n gweithio gyda Mohammed*

**8.10** Roedd profiadau cadarnhaol, fel yr un uchod, yn groes i brofiadau un person ifanc y cafwyd trafferth ei leoli ac, o ganlyniad, a leolwyd dros dro gyda gofalwr maeth mewn argyfwng wrth aros am yr unig leoliad oedd ar gael. Wrth dderbyn y person ifanc hwn, nododd y gofalwyr maeth mewn argyfwng yn glir beth fyddai angen i'r awdurdod lleol ei wneud er mwyn iddyn nhw gytuno i'w dderbyn:

'Mae staff y bydd e'n mynd gyda nhw yn gallu ei gefnogi yn y lleoliad o 9 y bore, byddan nhw'n ei godi, ei gymryd allan o'r lleoliad hwnnw, i'r lleoliad maeth tan tua 6 neu 7 y nos. A byddan nhw ar alwad 24 awr y dydd, a dyna sut y gwnaethon ni bethau am 6 wythnos. Roedd yn erchyll. Yn gwbl erchyll. Ond dyna'r unig ffordd y gallen ni wneud e'

*Gweithiwr cymdeithasol*

**8.11** Roedd penderfyniadau anodd pellach a oedd yn wynebu gweithwyr cymdeithasol wrth geisio cael lleoliadau ar ôl llety diogel yn amlwg, yn enwedig wrth gydbwyso dymuniadau person ifanc yn erbyn ei les pennaf. Cafwyd y cyfyng-gyngor hwn mewn rhai enghreifftiau o bobl ifanc yn cael ymweld â lleoliadau newydd cyn symud, yn gwrthwynebu i'r lle ond yn cael eu symud yno beth bynnag.

'Es i yno, edrychais i o gwmpas ac roeddwn i'n meddwl, o na, mae'n mynd i fod yn hunllef.'

*Megan*

**8.12** Cafwyd gwybodaeth am brofiadau pobl ifanc yn y lleoliad yn syth ar ôl gadael llety diogel ar gyfer 24 o bobl ifanc. Ychydig iawn o ddisgrifiadau oedd yn dda neu'n wael i gyd, ond cafwyd gwybodaeth ddigonol i leoli'r bobl ifanc hyn mewn un o dri grŵp:

- y rhai â phrofiadau cadarnhaol yn bennaf (naw person ifanc)
- y rhai â chymysgedd o brofiadau cadarnhaol a negyddol (chwe pherson ifanc)
- y rhai â phrofiadau negyddol yn bennaf (nawr person ifanc arall).

**8.13** Roedd y straeon symlaf ymhlith y naw adroddiad cadarnhaol gan dri pherson ifanc a drosglwyddwyd i leoliadau iechyd meddwl ar ôl llety diogel oherwydd cydnabyddiaeth o anghenion iechyd meddwl parhaus pan oeddent mewn llety diogel. Aeth y chwe pherson ifanc arall i leoliadau preswyl. Ar y cyfan, roedd y pontio wedi'i gynllunio'n ofalus.

Er enghraifft, roedd un person ifanc wedi cael amryw o gyfarfodydd â staff y lleoliad ymlaen llaw, a chafodd un arall ymweld â'r cartref newydd sawl gwaith cyn symud yno. Cydnabu anghenion penodol y bobl ifanc, fel y dangosir gan un lleoliad a gefnogwyd gan oruchwyliaeth tîm o staff 24 awr mewn tŷ sy'n ddigon agos i alluogi ymweliadau teulu rheolaidd a chydag ystafell wely wedi'i haddurno yn lliwiau hoff dîm chwaraeon y person ifanc.

Mewn man arall, cafodd person ifanc ei leoli yn agos at ei gartref, ac ymgynghorwyd â gwasanaethau iechyd, CAMHS, yr heddlu a throseddu er mwyn rhoi cymorth cyfannol ar waith ar gyfer y person ifanc. Cafodd ymadawiad trydydd person ifanc ei oruchwylio'n agos gan y llysoedd a ofynnodd am gynllun clir, gydag ymdrech y gweithwyr cymdeithasol daethpwyd o hyd i leoliad addas a oedd yn defnyddio dull meithrin perthynas.

Roedd yr holl bobl ifanc yn y grŵp hwn wedi setlo'n dda i ddechrau, ac ni nodwyd unrhyw broblemau. Roedd adroddiadau proffesiynol yn priodoli'r llwyddiant hwn i'r meddwl a'r amser a gyfrannwyd at gynllunio'r pontio a gallu staff preswyl i ddarparu cymorth cyson a allai newid ac addasu i newid yn ymddygiadau ac anghenion person ifanc:

> **'Gydag un o'r staff, fe wthiodd a gwthiodd a gwthiodd, a dywedodd wrtho un diwrnod, "beth wyt ti'n mynd i'w wneud? Wyt ti'n mynd i 'ngadael i hefyd?" Ac fe ddywedodd "nagw, rwy'n mynd i fynd adref ar ddiwedd fy shifft, ac rwy'n mynd i gymryd diwrnod neu ddau bant ac fe wela i di ar y penwythnos." Ac fe ddywedodd 'fyddi di ddim yn ôl'. Ac wrth gwrs ar y dydd Sadwrn pan ddaeth [yr aelod staff] i mewn, roedd e'n methu â chredu ei fod wedi dod yn ôl! A dyna oedd y trobwynt â dweud y gwir. Pan sylweddolodd hynny, fe ddywedais i hyn wrtho o'r cychwyn, fe ddywedais i nad yw'r bobl fydd gydag ef y math o bobl fydd yn dianc a'i adael i lawr. Byddan nhw'n aros yno.'**

*Rheolwr preswyl sy'n gweithio gyda Samuel*

**8.14** Cafodd chwe pherson ifanc gymysgedd o brofiadau cadarnhaol a negyddol ar ôl llety diogel. Roedd ambell un o'r adroddiadau hyn yn adlewyrchu'r straeon o gynllunio gofalus a adroddir uchod, gydag un gweithiwr cymdeithasol yn nodi ac ymateb i'r wybodaeth fod y person ifanc eisiau cael ei leoli yn agos at ei gartref, ac un arall yn disgrifio cyfnod pontio gofalus hwy:

> **'Fe ofynnais i i [staff preswyl] fynd mewn parau o leiaf, ond i un person fod yn gyfarwydd i'r person ifanc fel nad oedd dau ddieithryn yn mynd gyda'i gilydd. Felly yn y pen draw, fe wnaethon nhw hynny dros gyfnod o dair wythnos fel rhan o'r broses gyflwyno i'w helpu i ddod i adnabod rhai o'r staff. Ac ysgrifennodd pobl ifanc eraill yn y tŷ [newydd] lythyrau ati yn ei chroesawu ac yn dweud eu bod nhw'n edrych ymlaen at ei chyfarfod'**

*Gweithiwr cymdeithasol Molly*

I eraill, achosodd y lleoliad newydd broblemau: disgrifiodd un person ifanc sut na chafodd ei leoli yn agos at ei gartref fel y gofynnodd, a mynegodd

gweithiwr cymdeithasol person ifanc arall bryder ynghylch pellter y lleoliad newydd o'i gartref. Atgyfnerthwyd hefyd bryderon a gododd mewn ymchwil arall ynghylch y diffyg gwaith therapiwtig[27] a'r anesmwythyd ynghylch y diffyg ffiniau mewn lleoliad newydd:

**'Roedden nhw'n dweud eu bod nhw'n gwybod y byddai'n cymryd tri mis o'r broses gyflwyno honno iddi deimlo ei bod wedi setlo, iddi deimlo lefel o ymddiriedaeth yn yr aelodau staff ac roedd hynny'n rhywbeth y derbyniais i. [...] Felly wrth gwrs roedden nhw'n gweithio trwy'r gwahanol brosesau o ran mynd â hi allan i siopa a gwelwyd hyn i gyd fel rhan o'r therapi iddi ddatblygu perthynas. Mynd â hi allan i wneud gweithgareddau, gweithgareddau difyr, marchogaeth, gwylio ffilm, dan oruchwyliaeth staff bob amser [...], ond roedd rhai ymddygiadau a oedd yn peri pryder mawr ac yna wrth gwrs fe fyddwn i'n ffonio'r diwrnod wedyn a gofyn lle roedd hi a bydden nhw'n dweud 'o, mae hi wedi mynd i siopa' ac roeddwn i'n teimlo i raddau eu bod nhw'n atgyfnerthu'r ymddygiadau gwael. Roedd hi'n ymddangos nad oedd unrhyw ganlyniadau negyddol iddi.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Molly*

Yn y lleoliadau cyntaf hyn ar ôl llety diogel, dechreuodd tri pherson ifanc arall yn y grŵp hwn ddychwelyd i'w hymddygiadau blaenorol. Roedd un gweithiwr cymdeithasol yn amau bod hyn oherwydd y pellter o gartref y person ifanc, un oherwydd bod y person ifanc wedi cweryla gyda phreswylwyr a staff, un arall gan fod y lefelau isel o oruchwyliaeth wedi gwneud i'r person ifanc feddwl y gallai ymddwyn fel y dymunai.

**8.15** Roedd y naw adroddiad sy'n weddill yn nodi profiadau a chanlyniadau gwael yn syth ar ôl gadael llety diogel. Roedd ffactorau cyffredin yn cynnwys gwrthwynebiadau a wnaed i'r lleoliad ac adroddiadau o fethu â setlo.

Roedd dau berson ifanc na threuliodd un noson yn y lleoliad. Mewn un achos, roedd y gweithiwr cymdeithasol wedi trefnu lleoliad yn agos at gartref y person ifanc, gyda'r person ifanc yn cael ei gefnogi gan asiantaethau lluosog. Diflannodd y person ifanc o'r lleoliad o fewn ychydig oriau i ddychwelyd adref. Mae'r gweithiwr cymdeithasol yn credu bod aelodau'r teulu wedi dylanwadu ar hyn wrth ymweld â'r person ifanc yn y llety diogel. Yn ôl y sôn, gwnaeth person ifanc arall gamymddwyn yn ystod y siwrnai i'r lleoliad ynghyd ag ar ôl cyrraedd. Mewn ymateb, cyhoeddodd darparwr y lleoliad rybudd y byddai'r lleoliad yn dod i ben, ac roedd rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol fynd ati i greu lleoliad 'pwrpasol'.

Roedd person ifanc arall yn y cohort hwn wedi ymweld â'r lleoliad arfaethedig ac wedi dweud nad oedd yn ei hoffi ond cafodd ei leoli yno beth bynnag oherwydd diffyg opsiynau lleoli. Roedd profiadau dilynol yn drawmatig o'r cychwyn:

**'Roedd [y rheolwr] yno yn rhedeg y lle, ond doeddwn i ddim yn ei hoffi o gwbl. Doeddwn i ddim yn ei flocio allan na dim byd fel yna, roeddwn i'n gwneud fy ngorau ond doedden ni ddim yn gyrru ymlaen o gwbl … Y rheolwr, roeddwn i'n teimlo'n anghyfforddus iawn yn ei gwmni, ac roeddwn i'n ceisio esbonio'r peth i'r staff, ac fe ddywedais i "Edrychwch, peidiwch â chymryd y peth yn bersonol, ond rydych chi'n fy ngwneud i'n anghyfforddus." Fe geisiais i esbonio'r peth iddo duw a ŵyr faint o weithiau. A doedd e byth yn cnocio cyn dod i mewn i'n ystafell i, gallwn i fod wedi bod yn newid neu rywbeth, a byddai'n cerdded i mewn i'n ystafell i ac yn eistedd ble bynnag roedd e eisiau, a byddai'n gwylio teledu yn fy ystafell i.'**

*Megan*

Dechreuodd y person ifanc hwn ofidio, datblygu arwyddion o seicosis ac ymgyrchu'n llwyddiannus dros newid lleoliad. Roedd lleoliadau pobl ifanc eraill yn y grŵp hwn yn cael eu heffeithio gan ymddygiadau problemus blaenorol yn dychwelyd:

**'Dianc, cael eu darganfod gyda llafnau. Fe ymosododd hi ar un o'r aelodau staff. Honnwyd ei bod hi wedi cymryd gorddos. Fe dreuliodd hi dridiau o'r amser hwnnw yng nghartref y teulu, gan ei bod hi wedi dianc; daeth ei thad o hyd iddi a chafodd ei dychwelyd i'r cartref. Ac roedd rhaid cael gorchymyn adfer i'w chael hi allan o'r cartref. Ac yna bu digwyddiad eithaf sylweddol felly aethon ni'n ôl i'r llys ac roedd rhaid i ni gael Gorchymyn Llety Diogel arall.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Lauren*

27. Gweler er enghraifft: Parker (2018)

## Adran 9: Profiadau a chanlyniadau tymor hir pobl ifanc

### Canfyddiadau allweddol

- Parhaodd y rhan fwyaf o bobl ifanc i ddilyn y taflwybrau cadarnhaol, negyddol neu gymysg a gychwynnodd pan adawon nhw lety diogel am y tro cyntaf

- Yn y tymor hwy, ni lwyddodd y rhan fwyaf o leoliadau ar ôl llety diogel i ddiwallu anghenion pobl ifanc sy'n gadael llety diogel

- Roedd mwy na chwarter y bobl ifanc yn destun Gorchmynion Llety Diogel ychwanegol, gyda phobl ifanc pellach yn cael mynediad at y system cyfiawnder troseddol neu leoliad seiciatrig diogel

- Mae'n ymddangos bod y rhai sy'n profi canlyniadau cadarnhaol yn gwneud hynny oherwydd ansawdd y lleoliadau, ac yn enwedig y cysylltiadau cyson ag oedolion allweddol, a'r rhai sy'n derbyn cymorth iechyd meddwl digonol.

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar brofiadau pobl ifanc yn y cyfnod rhwng y lleoliad cychwynnol ar ôl gadael llety diogel a'r astudiaeth (roedd y cyfnod hwn yn amrywio o ddwy flynedd i ychydig wythnosau). Yn ystod yr amser hwn, parhaodd profiadau'r rhan fwyaf o bobl ifanc i ddilyn y taflwybrau a sefydlwyd pan adawon nhw lety diogel, er y gwelodd rhai bod eu llwybrau'n newid.

**9.1** Taflwybrau ar i lawr: Parhaodd dau o bob tri (chwech) o'r bobl ifanc a oedd wedi dioddef problemau ar ôl gadael llety diogel ar y taflwybr ar i lawr hwn. Roedd eu straeon yn cynnwys adroddiadau o fethiant un lleoliad ar ôl y llall, gyda llawer o weithwyr cymdeithasol yn priodoli'r rhain i ymddygiadau megis ymosodiad, camddefnyddio sylweddau a methiant meddyliol:

'Fe gwrddodd hi â throseddwyr adnabyddus… ac mae e'n caffael merched, mae e'n eu cael nhw oddi ar eu pennau ar gyffuriau ac yna'n anfon negeseuon Facebook i'w ffrindiau yn dweud wrthyn nhw am alw heibio … Felly, fe gwrddodd hi ag e. Doeddwn i erioed wedi ei gweld hi mor wael. Fe ddechreuodd hi ar gocên crac. Wel, mae hi wedi bod arno ers hynny.'

*Gweithiwr cymdeithasol Ellie*

'Bydd hi'n setlo mewn lleoliad am ddeufis, yna byddwn ni'n gweld ei hymddygiad yn gwaethygu… mae hi'n ei chael hi'n anodd ffurfio perthynas, mae ganddi broblemau ymlyniad. Mae hi'n ei chael hi'n anodd ymddiried mewn pobl, […] mae hi wedi cael ei hasesu gan CAMHS a gan fod ganddi hi ymdeimlad o wacter, fydd hi ddim yn mynd i geisio cael sylw yn y llefydd iawn. Yna, bydd hi'n rhoi ei hun mewn perygl o ddioddef Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, a fydd yna'n cael effaith arall arni a bydd hi'n teimlo'n euog am hynny, ac yn lle gweithio ar y problemau hyn a chael therapi a gweithio drwy'r hyn sydd wedi digwydd iddi yn y gorffennol, bydd hi'n plymio yn syth i mewn i'r ymddygiadau hyn i geisio ymdopi â'r hyn mae hi wedi bod trwyddo.'

*Gweithiwr cymdeithasol Hannah*

'Nodwyd ei bod hi mewn perthynas arall â dyn arall. Fe'i gwelwyd hi mewn eiddo lle roedd achos o drywanu. Fe ddihangodd hi o'r lle. Yna, roedd hi'n rhan o ddigwyddiad lle roedd dau o aelodau'r gang wedi dwyn o aelod o gang arall. Fe gymerodd e'r cyffuriau heb dalu. Ac roedd hi yno. Felly, gan ei bod hi yno, roedd ganddi fownti ar ei phen […] 500 punt i unrhyw un a allai ei rhoi hi yn yr ysbyty.'

*Gweithiwr cymdeithasol Charlotte*

Fel yr awgrymir gan y dyfyniadau hyn, roedd iechyd meddwl y bobl ifanc yn dal i beri pryder, ac ychydig iawn o adroddiadau a gafwyd o ymdrechion i fynd i'r afael â hyn. Aeth llawer (66 y cant) o'r bobl ifanc yn y cohort hwn ymlaen i dderbyn Gorchmynion Llety Diogel pellach. Roedd pump yn ôl mewn llety diogel adeg yr astudiaeth (pedwar am resymau lles, un fel dedfryd droseddol) ac roedd un person ifanc yn disgwyl dedfryd droseddol.

**9.2** O'r naw person ifanc a wnaeth yn dda yn syth ar ôl llety diogel, profodd pump ohonynt duedd ar i lawr yn ddiweddarach. Ymysg y straeon a glywon ni roedd un stori am leoliad llwyddiannus a fethodd pan dynnodd yr asiantaeth breswyl ei gwasanaeth 16+ yn ôl, ac er y daethpwyd o hyd i leoliad newydd, nid oedd yn llwyddiannus a chafodd Gorchymyn Llety Diogel newydd ei wneud. Cafodd dau berson ifanc eu heffeithio'n negyddol gan baru gwael: mewn un achos, gwelwyd hyn pan gafwyd trais ac ymosodiad ar ôl cysylltiad â phreswylydd newydd ac, yn y pen draw, cafodd y lleoliad ei dynnu'n ôl. Yn yr achos arall, arweiniodd ymddygiadau â phreswylydd arall at ymchwiliad troseddol a oedd yn parhau adeg yr astudiaeth.

**9.3** Taflwybrau ar i fyny ac i lawr: Parhaodd patrwm o brofiadau ar i fyny ac i lawr ar gyfer pedwar person ifanc. Disgrifiodd eu straeon batrwm o sefydlogrwydd cyn i'w hymddygiadau ddechrau gwaethygu.

Ymhlith y grŵp hwn, disgrifiodd un person sut y cafodd ei droi allan o leoliad a dioddef cyfnod o ddigartrefedd. Er bod y sefyllfa bresennol yn ymddangos yn well gan fod yr unigolyn nawr yn symud rhwng teulu a ffrindiau, ac yn cael cyflogaeth ysbeidiol, mae'r ffaith bod lefelau straen y person ifanc yn codi oherwydd gofynion cyflogaeth yn golygu ei fod ar absenoldeb salwch ar hyn o bryd ac yn defnyddio canabis i leddfu ei bryder a'i iselder.

Roedd person ifanc arall wedi bod yn byw gyda rhiant am naw mis wrth aros am fflat. Er bod y symud yn hir ddisgwyliedig, mae'r person ifanc yn teimlo bod cynnydd wedi bod yn gymhleth gan ei bod hi wedi bod yn anodd cysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr cymorth arall. Er gwaethaf hyn, mae'r person ifanc wedi bod yn gwneud cais am swyddi, ac mae'n gobeithio ymuno â'r fyddin yn y dyfodol.

Mewn man arall, symudodd un person ifanc y cychwynnodd ei brofiadau ar ôl llety diogel yn wael i leoliad a oedd yn fwy addas ar ei gyfer. Arweiniodd hyn at gyfnod o ymddygiadau mwy digynnwrf, gydag arwyddion bod y gwaith yn y lleoliad wedi rhoi gwell syniad i'r person ifanc hwn o ymddygiadau:

> **'Mae hi bron â dweud 'rwy'n mynd i fynd yn wallgof', mae hi'n gallu gweithio pethau allan, ond rwy'n credu bod ganddi stori dydyn ni ddim hyd yn oed yn gwybod amdani eto. Dydy hi ddim yn barod i ddelio â hynny eto.'**
>
> *Gweithiwr cymdeithasol blaenorol Hannah*

Fodd bynnag, methodd y lleoliad a dychwelodd y person ifanc i lety diogel.

Mae'r person ifanc diwethaf yn gwneud cynnydd araf ond yn dal i wneud niwed i'w hun, ond mae'r gweithiwr cymdeithasol yn nodi bod y person ifanc yn ymddangos wedi setlo y rhan fwyaf o'r amser ac yn ei disgrifio fel person difyr ac addysgedig sy'n ymgysylltu'n gyson ag addysg. Mae'r ysgol wedi cynnig cymorth cyson iddi, er gwaethaf ei hymddygiad, ac roedd hyn yn amlwg yn ystod cyfnod o chwe mis pan gafodd y person ifanc ei haddysgu ar ei phen ei hun gan fod yr ysgol wedi sicrhau rhyngweithio rheolaidd rhyngddi hi a'i chymheiriaid yn ystod y cyfnod hwn. Ar y cyfan, mae'r gweithiwr cymdeithasol yn teimlo bod y person ifanc hwn yn gwneud yn well nawr ond, yn dibynnu ar a yw'n ymgysylltu â therapi, gall fod yn agored i gamfanteisio'n rhywiol ar blant o hyd.

**9.4** Taflwybrau ar i fyny: Parhaodd pedwar person ifanc a ddechreuodd yn dda ar daflwybrau ar i fyny, gan ymddangos eu bod yn hapus ac wedi setlo yn y lleoliad a/neu ar fin gwneud symudiadau cadarnhaol. Roedd eu hamgylcheddau yn ymddangos yn adeiladol, gydag un gweithiwr cymdeithasol yn disgrifio sut roedd person ifanc yn cyfathrebu'n well ac yn llai ymosodol, ac un arall yn dweud bod y person ifanc yn ymateb yn dda i'r ffiniau a osodwyd o gwmpas eu hymddygiad yn y lleoliad presennol. Mae pob un o'r pedwar person ifanc wedi derbyn gofal gan ofalwyr sy'n gallu ymdrin ag ymddygiadau gwael dro ar ôl tro a helpu'r person ifanc i'w newid. Mae'n ymddangos bod tri o'r bobl ifanc hyn yn cael cymorth seicolegol yn eu lleoliadau presennol, gydag awgrym bod hyn yn rhoi gwell syniad i'r bobl ifanc hyn o'u hymddygiadau, er bod problemau iechyd meddwl

yn dal i beri pryder ('*mae hi'n dweud bod ei phen yn llawn a'i bod hi'n methu ag ymdopi, felly mae hi'n dianc*.' Gweithiwr cymdeithasol).

**9.5** Mae profiadau dau berson ifanc a oedd yn gwneud cynnydd cymysg yn syth ar ôl llety diogel wedi gwella. Unwaith eto, mae adroddiadau'n awgrymu bod cysondeb mewn gofal wedi bod yn allweddol yn hyn o beth gan fod y ddau yn dal i fod yn y lleoliadau yr aethant iddynt yn syth ar ôl gadael llety diogel. O'r rhain, cafodd un ei leoli mewn lleoliad iechyd meddwl, lle mae triniaeth wedi ei helpu i sefydlogi a lle mae cynllun tymor hwy ar waith ar gyfer camu ymlaen i leoliad sydd wedi'i deilwra i'w anghenion penodol. Mae'r unigolyn arall yn dal i fod yn yr un lleoliad. Mae teulu yn dal i ymweld ac mae ei addysg (gan gynnwys addysg amgen, megis ysgol goedwig) yn ehangu yn araf. Y gobaith yw y bydd y person ifanc hwn yn aros yn yr un lleoliad tan eu bod yn troi'n 18 oed.

**9.6** Gwelodd tri pherson ifanc a gafodd profiadau cychwynnol gwael bethau'n gwella, gyda'r duedd ar i fyny yn cychwyn pan symudodd y bobl ifanc o'u lleoliadau cychwynnol nad oeddent yn eu hoffi.

Dychwelodd dau o'r bobl ifanc hyn adref i fyw gyda'u teulu: mynnodd un aros adref ar ôl ymweliad. Mae'r person hwn wedi bod yn byw gyda theulu estynedig ers hynny ac roedd yn gwneud yn dda, ond mae'r sefyllfa hon dan fygythiad gan fod aelodau eraill o'r teulu angen y lle. Er bod gwasanaethau cymdeithasol wedi awgrymu fflat, mae'r person ifanc yn poeni am fyw yn yr ardal lle mae'r llety wedi'i leoli gan ei fod yn teimlo y gall fod yn agored i niwed:

**'Mae pobl sy'n delio mewn cyffuriau yn yr ardal honno. […] Mae llawer o bobl, fel yr un a rododd gynnig arna i unwaith, ac mae e'n byw yn yr ardal honno a dydw i ddim yn teimlo'n gyfforddus yn mynd yno.'**

*Megan*

Dihangodd y person ifanc arall adref yn fuan ar ôl cael ei leoli, a dechreuodd pethau'n wael, gyda'r profiadau cynnar yn arwain at ymgais ddifrifol i gyflawni hunanladdiad. Fodd bynnag, arweiniodd y digwyddiad hwn at newid yn neinameg y teulu ac agwedd y person ifanc. Mae'r unigolyn hwn bellach wedi ymddieithrio o'r teulu ac yn byw gyda'i bartner a rhieni ei bartner. Roedd yr adroddiadau diwethaf yn gadarnhaol, gyda'r person ifanc yn gwneud cynlluniau ar gyfer swydd, ynghyd â'i lety ei hun.

Yn y ddau achos hyn, mae cysylltiadau agos tymor hwy rhwng y person ifanc a staff gwasanaethau cymdeithasol neu sector gwirfoddol yn amlwg ac yn ymddangos eu bod wedi cael effaith gadarnhaol ac allweddol ar brofiadau'r person ifanc.

Mae stori'r trydydd person ifanc yn yr is-gategori hwn yn tynnu sylw eto at bwysigrwydd cysondeb ac ansawdd y lleoliad. Mae'r person ifanc hwn wedi bod yn ei leoliad presennol am naw mis, mae'n teimlo bod y staff yn ystyriol ac mae'n ymgysylltu â'r cymorth seicolegol a gynigir. Er gwaethaf hyn, mae cynnydd wedi amrywio, gyda digwyddiadau megis y Nadolig yn gweld ymddygiadau'n gwaethygu. Fodd bynnag, mae'r lleoliad a'r cymorth wedi'u cynnal, mae gweithgareddau newydd wedi'u cyflawni ac mae'r person ifanc hwn yn dechrau dangos diddordeb mewn cynllunio gyrfa.
erson is now displaying interest in career planning.

**9.7** Ar y cyfan, roedd ychydig dros draean (naw) o'r 24 o bobl ifanc y gellid cael manylion eu taflwybrau bywyd y tu hwnt i lety diogel yn datblygu'n dda adeg yr astudiaeth hon, gyda ffactorau dylanwadol yn cynnwys gofal cyson sy'n gallu cydnabod a diwallu anghenion a dymuniadau pobl ifanc, a chael eu cynnal er gwaethaf cyfnodau o ymddygiad negyddol. Roedd y gweddill yn gwneud yn wael: roedd pedwar yn dal i ddioddef bywyd ar i fyny ac i lawr sy'n anodd ei ragweld, ac roedd ychydig yn llai na hanner (11) nad oeddent wedi profi gofal cyson cyn neu ar ôl llety diogel yn dangos arwyddion o ymddygiadau'n gwaethygu neu wedi dychwelyd i lety diogel am resymau troseddol neu resymau lles.

## Adran 10: Trafodaeth: Beth yw'r problemau?

Mae'r adran hon yn ystyried canfyddiadau'r prosiect a'u goblygiadau ar gyfer polisi ac ymarfer presennol. Mae hanesion, straeon a phrofiadau'r bobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl llety diogel neu amgen yn rhan allweddol o hyn.

**10.1** Mae profiadau gwael llawer o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth yn adleisio profiadau pobl ifanc eraill sydd wedi mynd i mewn i lety diogel[28]. Er bod y rhan fwyaf o bobl ifanc yr astudiaeth yn hysbys i wasanaethau cymdeithasol ar ryw adeg cyn derbyn gofal, mae eu straeon yn awgrymu nad oedd y gwasanaethau a dderbyniwyd yn gyson nac yn ddigonol i'w hamddiffyn rhag yr amgylcheddau negyddol yr oeddent wedi byw ynddynt, i fynd i'r afael ag ymddygiadau newydd sy'n peri pryder nac i gydnabod a thrin y trallod meddyliol sy'n aml yn sail iddynt. Mae'r enghreifftiau hyn, ynghyd â'r bobl ifanc a atgyfeiriodd eu hunain i wasanaethau ar ôl blynyddoedd o beidio â dod i'r amlwg, neu a ofynnodd am gael mynd i ofal er gwaethaf cyfraniad gwasanaethau cymdeithasol, yn codi cwestiynau am bolisi presennol ac ymyriadau priodol. Fel y nododd Jones (2016), mae rôl asiantaethau ehangach, megis addysg, iechyd a'r trydydd sector, o ran hyrwyddo iechyd a llesiant emosiynol pobl ifanc a'u teuluoedd, a nodi'r angen am gymorth pellach fel sy'n angenrheidiol i atal pethau rhag gwaethygu, yn rhan bwysig o hyn.

**10.2** Mae dioddef profiadau trawmatig mewn plentyndod yn gallu cael effaith ddifrifol ar y bobl ifanc, gyda symptomau'n cynnwys iselder, salwch corfforol ac amrywiaeth o ymddygiadau byrbwyll, hunan-niweidiol[29]. Gyda'i gilydd, mae hanes ein pobl ifanc a'u profiadau cyn mynediad i ofal yn adlewyrchu'r wybodaeth hon. Mae canfyddiadau'n awgrymu nad oedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau yn gallu darparu'r amgylchedd angenrheidiol: nid oedd gofalwyr yn gallu ymdopi ag ymddygiadau problemus, ac roedd hyd yn oed y bobl ifanc hynny a oedd wedi profi lleoliadau sefydlog ar ryw adeg wedi symud rhwng sawl lleoliad cyn llety diogel. Roedd gweithwyr proffesiynol yn tueddu i briodoli problemau gyda lleoliadau i ymddygiadau risg uchel mwy difrifol y bobl ifanc. Er bod y cysylltiad hwn yn bodoli mewn ymchwil ehangach, mae rhai yn dilyn y cysylltiad hwn gyda galwad am fwy o atebolrwydd gan systemau nad ydynt yn gallu diwallu'r lefelau uchel o angen sydd gan bobl ifanc o'r fath[30]. Mae profiadau ein pobl ifanc yn atgyfnerthu'r farn bod y sgiliau a'r cymorth sydd gan y rhai a oedd yn gofalu amdanynt cyn gofal diogel yn annigonol i ddiwallu eu hanghenion[31].

**10.3** Peth arall a oedd yn peri pryder oedd bod y gofal a dderbynnir ar ôl llety diogel ond yn ddigonol i alluogi rhai pobl ifanc i ddatblygu a gwneud newidiadau cadarnhaol, tra bod eraill wedi gwneud ychydig iawn o gynnydd a chyfran uchel wedi dychwelyd i ymddwyn mewn ffordd broblemus a/neu gael eu hatgyfeirio i lety diogel neu i'r ddalfa. Er na ofynnwyd i'r adroddiad hwn ystyried neu gymharu gwahanol fodelau gofal, mae adolygiad o lenyddiaeth gysylltiedig yn awgrymu bod perthynas un-i-un lle mae'r naill berson yn ymddiried yn y llall a'r defnydd o ddulliau addysgegol cyfannol sy'n seiliedig ar gryfderau ac sy'n cynnwys cymorth goruchwylio systemig ar gyfer y rhai sy'n ei ddarparu yn allweddol er mwyn gwella[32]. Mae llenyddiaeth ddiweddar sy'n ymwneud â gofal sy'n canolbwyntio ar drawma[33,34] yn awgrymu bod y dull hwn yn addawol, ond mae'r diffyg tystiolaeth hyd yma yn galw am archwiliad pellach o'i effeithiolrwydd.

**10.4** Mae gwybodaeth am y lefelau uchel o anawsterau emosiynol ac ymddygiadol yn y boblogaeth ofal[35], a'r ffaith bod y problemau hyn yn gallu cael eu gwaethygu gan brofiadau andwyol mewn gofal[36], yn golygu nad yw lefel yr anawsterau ymhlith ein pobl ifanc yn syndod o gwbl. Roedd natur yr ymchwil hon yn golygu bod y bobl ifanc yr oeddem yn dod ar eu traws yn dioddef o broblemau bob amser. Mae hyn, ynghyd â gwybodaeth bresennol bod cyfran uchel o blant a phobl ifanc mewn gofal angen cymorth dwys i ddiwallu eu hanghenion iechyd meddwl[37], yn cynyddu pryder ynghylch anghenion seicolegol ac ymddygiadol pobl ifanc yr astudiaeth, a'r canfyddiad nad oedd yr anghenion hynny'n cael eu diwallu fel arfer.

Mae anallu gwasanaethau iechyd meddwl presennol i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc mewn

28. Disgrifiwyd gan Hart a La Valle (2016)
29. Esboniwyd gan Bessel a Van der Kilk (2005)
30. Nodwyd gan Quinton a Murray (2002)
31. Cydnabuwyd gan Vostanis et al (2008)
32. Gweler Christie (2018)
33.Gweler Johnson (2017a)
34. Gweler Johnson (2017b)
35 Adleisiwyd yn Bazalgette et al (2015); Narey (2016); Vostanis (2008)
36. Nodwyd yn Quinton a Murray (2002)
37.Gweler er enghraifft Sempik et al (2008)

gofal yn peri pryder, er bod y broblem hon yn cael ei chydnabod[38]. Cafwyd enghreifftiau o fynychder y broblem hon mewn disgrifiadau o sut roedd meini prawf y gwasanaeth yn atal mynediad at CAMHS neu'r defnydd ohono. Mae profiadau o'r fath yn dangos bod bwlch mewn gwasanaethau iechyd meddwl, felly mae angen system o ddarpariaeth iechyd meddwl sy'n gallu diwallu anghenion emosiynol, ymddygiadol a seicolegol y bobl ifanc hyn, ac sy'n dal ati i geisio ymgysylltu â phobl ifanc â hanesion o fywydau anhrefnus er gwaethaf, fel y nodwyd mewn man arall, diffyg ymddiriedaeth mewn cysylltiadau cefnogol ag oedolion. Mae'r angen am y lefel ychwanegol hon o wasanaeth iechyd meddwl wedi'i ddwyn i sylw'r bobl berthnasol gan astudiaeth ddiweddar a gynhaliwyd yng Nghymru[39], sy'n cyfeirio at ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer y glasoed, a'r Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc amlasiantaethol a ddatblygwyd i ddiwallu anghenion pobl ifanc ym maes iechyd emosiynol a meddyliol[41].

**10.5** Fel y dangosir yn yr astudiaeth hon, er bod gan lawer o weithwyr cymdeithasol ddealltwriaeth ddofn o gyflwr emosiynol, ymddygiadol a seicolegol plentyn neu berson ifanc, ychydig iawn o lais sydd ganddynt o ran pennu a yw gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu darparu ai peidio. Mae'r sefyllfa hon yn awgrymu system ddiwygiedig, sy'n uno staff gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd meddwl i sicrhau bod cymorth a therapi iechyd meddwl priodol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar ein pobl ifanc sy'n derbyn yr help angenrheidiol.

**10.6** Roedd pob un o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth wedi profi methiant lleoliad, gyda gweithwyr cymdeithasol yn cael mwy a mwy o drafferth i ddod o hyd i leoliadau newydd. Mae canfyddiadau'n cysylltu problemau ymddygiadol ac iechyd meddwl ein pobl ifanc â'r anawsterau hyn cyn ac ar ôl yr amser a dreuliwyd mewn llety diogel. Yng nghyd-destun canlyniadau'r bobl ifanc, mae hwn yn faes pwysig i fynd i'r afael ag ef gan y cydnabyddir bod ansefydlogrwydd lleoliadau yn gysylltiedig â llai o gyfle i ddatblygu ymlyniadau sicr, cynnydd mewn problemau emosiynol ac ymddygiadol, mwy o leoliadau yn methu a theimladau o wrthodiad[40]. Gyda'i gilydd, mae'r canfyddiadau hyn yn dychwelyd sylw at ddau fater: y cymorth iechyd meddwl ac ansawdd y gofal preswyl sydd ar gael ar hyn o bryd.

**10.7** Mae gofal preswyl yng Nghymru a Lloegr yn cael ei ddarparu gan gymysgedd o awdurdodau lleol, asiantaethau sector preifat a gwirfoddol[41](gyda 67 y cant yn cael ei ddarparu'n breifat yn Lloegr yn 2016[42]). Mae'r sefyllfa hon yn galluogi grymoedd y farchnad i gyfrannu at anawsterau gyda lleoliadau. Fel y nodwyd yn yr astudiaeth, gofynnir i ddarpar breswylfeydd dderbyn pobl ifanc â hanesion gwael iawn, ac mae llawer yn gallu gwrthod eu derbyn, ac yn gwneud hynny. Roedd yr angen i sicrhau nad oedd pobl ifanc yn cael eu lleoli gydag eraill sy'n debygol o waethygu ymddygiadau yn cymhlethu'r mater hwn ymhellach, gyda rhai awdurdodau lleol yn gorfod mynd ati i ddefnyddio lleoliadau 'pwrpasol' nad ydynt yn cael eu rheoleiddio. Er bod y sefyllfaoedd hyn yn torri'r gyfraith sy'n ymwneud â gofal preswyl, mae sefyllfaoedd lle mae'r lleoliadau a grëwyd yn diwallu anghenion y person ifanc ac yn creu canlyniadau cadarnhaol yn golygu y dylid ystyried y posibilrwydd bod lleoliadau o'r fath yn effeithiol gan y gallant gael eu creu o gwmpas anghenion penodol person ifanc mewn ffordd nad yw'n bosibl mewn mannau eraill.

**10.8** Mae'r straeon anodd o ymddygiadau risg uchel, argyfyngau ysbeidiol, symudiadau a llety diogel yn frith o adroddiadau am gyfraniad proffesiynol. Mae rôl gweithwyr cymdeithasol yn allweddol yn hyn o beth, ac roedd yr amser a'r ymdrech i amddiffyn a gofalu am y bobl ifanc yn amlwg. Roedd y diffyg lleoliadau addas yn golygu bod rhaid i weithwyr cymdeithasol ledled Cymru dreulio llawer iawn o amser yn dod o hyd i leoliadau. At hynny, pan oedd lleoliadau, gan gynnwys y rhai mewn llety diogel, ddim ond ar gael cryn bellter o'r awdurdodau sy'n derbyn, roedd y costau trefnu, yn ariannol o ran amser staff ac amser teithio, ac yn emosiynol o ran pryder am y person ifanc a cholli amser personol gyda'i deulu a/neu ei rwydweithiau cymorth, yn glir. Mae profiadau'r bobl ifanc yn effeithio ar wasanaethau eraill hefyd, a rhaid cydnabod yr amser a'r adnoddau sy'n cael eu treulio gan wasanaethau iechyd, yr heddlu a'r llysoedd wrth ofalu am y bobl ifanc a'u rheoleiddio.

**10.9** Roedd canfyddiadau a oedd yn uniongyrchol gysylltiedig â'r profiad o lety diogel yn ei gwneud hi'n glir bod cael a gweithredu Gorchymyn Llety Diogel yn broses llawn straen. Fel y disgrifiwyd,

38. Cydnabuwyd gan Vostanis (2008)
39. Gweler Jones (2016)
40. Gweler er enghraifft Munro a Hardy (2006); Schofield a Beek (2005)
41. Nodwyd gan Hart a La Valle (2016)
42. Nodwyd gan Narey (2016)

aeth rhai pobl ifanc i'r llys, er y gwrthodwyd yr hawl hon i un, yn groes i un o egwyddorion craidd y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn. Pan oedd Gorchmynion Llety Diogel yn annisgwyl, dangosodd adroddiadau pobl ifanc nad oeddent yn barod yn seicolegol nac yn ymarferol. Er bod hyn yn peri pryder, rhaid cydnabod yr effaith ar y person ifanc gan ei fod yn gofyn am ystyried ffyrdd o fynd i'r afael â hyn, a rhaid i'r angen i'r gweithiwr cymdeithasol amddiffyn y person ifanc fod yn rhan o unrhyw drafodaethau.

**10.10** Mae achosion o'r fath yn gofyn am fwy o fyfyrio ar sefyllfa anodd gweithwyr cymdeithasol sy'n gyfrifol am leoli pobl ifanc mewn llety diogel. Mae'r sefyllfa hon yn cael ei chymhlethu fwy gan y ffaith y dylid cytuno ar leoliad llety diogel cyn gwneud cais am Orchymyn Llety Diogel, a'r gofyniad cyfreithiol i ddychwelyd i'r llys i gael estyniadau ar y gorchymyn[43]. Mae'r ddau amod hyn yn golygu y bydd y deilliant ac anghenion cysylltiedig y person ifanc yn anhysbys tan ddiwrnod y gwrandawiad, ac mae hyn yn cymhlethu'r broses ymhellach.

**10.11** Wrth archwilio profiadau o'r pontio i lety diogel, ymestynnwyd y diddordeb i'r daith i'r llety diogel. Rhaid ystyried bod profiadau trawmatig rhai pobl ifanc yn gwbl annerbyniol ac yn awgrymu'n gryf bod angen diwygio'r polisi presennol yn ymwneud â chludiant diogel i sicrhau na all pethau o'r fath ddigwydd eto. Yn wir, mae hyn a phrofiadau ehangach pobl ifanc y prosiect yn codi cwestiynau ynghylch hawliau dynol person ifanc.

**10.11** Roedd y profiadau hyn ac ymatebion eithafol pobl ifanc wedi dylanwadu ar eu hagwedd at lety diogel a'u dealltwriaeth ohono. Roedd y ffaith eu bod yn gweld Gorchmynion Llety Diogel fel 'cosb' a gwrthwynebiadau i amgylcheddau tebyg i garchar, ataliaeth a diffyg preifatrwydd yn atgyfnerthu dadleuon bod llety diogel yn sefydliad lle mae pob agwedd ar fywyd bob dydd yn cael ei rheoli a'i harolygu a'r farn bod pobl ifanc yn cael eu heffeithio gan y profiad cyffredinol o lety diogel, ac nid dim ond agweddau ffurfiol y gofal a ddarperir[44].

**10.12** Dywedodd pobl ifanc eu bod yn ymwybodol hefyd eu bod wedi rhannu llety gydag eraill a leolwyd am resymau troseddol, ffaith sydd wedi'i hystyried yn broblem ers amser maith oherwydd canfyddiadau o pam mae angen llety 'diogel' ac ar gyfer pwy[45]. Mae'r cyferbyniad â phrofiadau mewn llety diogel llai awdurdodol sydd wedi'i boblogi gan bobl a leolwyd am resymau lles yn werth ei nodi hefyd, ac yn gofyn am archwiliad o ffyrdd o ddarparu'r diogelwch angenrheidiol a lleihau amgylcheddau awdurdodol a darparu amgylchedd mwy hwylus a chartrefol.

**10.13** Mae canfyddiadau hefyd yn cefnogi tystiolaeth bod llety diogel yn gallu cael effaith gadarnhaol[46]. Arweiniodd yr arferion, y diogelwch a'r cysondeb a ddarparwyd at lawer o'r bobl ifanc yn setlo, gan arwain at ostyngiad mewn ymddygiadau di-groeso. Roedd archwiliad o'r gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y llety diogel yn dangos bod rhai pobl ifanc wedi ymgysylltu'n dda mewn addysg ac wedi gwneud cynnydd sylweddol, yn enwedig y rhai nad oeddent wedi mynychu ysgol ers amser maith.

**10.14** Mae llawer o'r problemau sy'n wynebu pobl ifanc wrth adael llety diogel, yn enwedig o ran dod o hyd i leoliadau cyson a rheoli a diwallu holl anghenion y bobl ifanc, yn adlewyrchu'r rhai sydd eisoes yn hysbys ac wedi'u hadrodd mewn astudiaethau presennol[47]. Yn gyntaf, er bod canllawiau'n argymell y dylai pobl ifanc mewn gofal gyfrannu at ddewis ble y maent yn byw[48], ychydig iawn o ddylanwad oedd gan ein pobl ifanc dros y penderfyniadau hyn, er y dylid ystyried y canfyddiad hwn yng nghyd-destun y lefel uchel o anghenion cymhleth penodol sy'n bodoli.

Wrth fyfyrio ar brofiadau'r bobl ifanc a wnaeth orau ar ôl llety diogel, mae canfyddiadau'n cryfhau'r galwadau am bontio gofalus i leoliadau addas ac yn awgrymu y dylai'r lleoliadau fod yn adnabyddus i berson ifanc cyn ei drosglwyddo. Yn ystod lleoliadau llwyddiannus, mae'r berthynas rhwng pobl ifanc a staff preswyl yn allweddol, ynghyd â darparu ymyriadau a gweithgareddau y gellir eu haddasu'n gyson i ddiwallu anghenion newidiol y person ifanc.

Ar y llaw arall, roedd y bobl ifanc hynny a welodd ychydig iawn o gynnydd neu ddirywiad ar ôl gadael llety diogel yn tueddu i ddioddef cyfres o leoliadau yn methu, cysylltiadau â phobl a

43. Fel yn Rheoliadau Plant (Llety Diogel) 1991
44. Gweler er enghraifft Rose (2002)
45. Gweler er enghraifft: Harris a Timms (1993)
46. Mae tystiolaeth bellach i'w chael yn Souverein et al (2013)
47. Fel yn Kendrick et al (2008)
48. Gweler er enghraifft Jarret a Harker (2016)

achosodd ymddygiadau problemus ac, er gwaethaf ailymddangosiad ymddygiadau sy'n peri pryder, ychydig neu ddim defnydd o wasanaethau cymorth iechyd meddwl. Ar y cyfan, mae'r astudiaeth yn cefnogi canfyddiadau ehangach sy'n dangos bod canlyniadau da ar gyfer pobl ifanc a dderbyniwyd i lety diogel yn cael eu priodoli i leoliadau cyson priodol ac addysg ar ôl gadael llety diogel, yn hytrach na'r hyn a ddigwyddodd yn ystod eu hamser mewn llety diogel. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n galw hefyd am gymorth digonol a phriodol ar gyfer anghenion iechyd meddwl mewn llety diogel ac ar ôl pontio o lety diogel.

**10.15** Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn codi cwestiynau hefyd am allu'r system bresennol i gydnabod a diwallu anghenion ehangach person ifanc, yn y meysydd canlynol yn bennaf:

- anghenion cymdeithasol ac emosiynol, gan gynnwys perthynas â theulu a chymheiriaid
- y gallu i ddefnyddio cyfleoedd ar gyfer addysg a/neu gyflogaeth gyson pan fo symudiadau lleoliad niferus yn digwydd
- gwasanaethau cymorth ehangach, gwn gynnwys nid yn unig iechyd meddwl ond hefyd cymorth mwy cyson mewn meysydd eraill, megis camddefnyddio sylweddau a phrofedigaeth
- cymorth mwy cyson mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant a helpu pobl ifanc i gadw eu hunain yn ddiogel.

Fel y nododd un gweithiwr cymdeithasol, er bod llety diogel yn dal i fod yn angenrheidiol mewn rhai achosion, nid yw'n ddull delfrydol o fynd i'r afael â'r materion uchod:

**'Mae'n rhaid bod ffordd well o gloi pobl ifanc i fyny, yn bersonol dydw i ddim yn cytuno â phobl ifanc yn cael eu rhoi yn y ddalfa am droseddau. Dydw i ddim yn credu eich bod chi'n gyfrifol am droseddau tan eich bod chi'n oedolyn, yn bersonol dydw i ddim yn credu bod eu cloi nhw i fyny yn eu helpu nhw; dydy'r ddarpariaeth ddim yn wych, mae e filltiroedd i ffwrdd o'ch teulu. Rydych chi'n gwybod ein bod ni'n gwybod yr holl bethau hynny sy'n helpu pobl i wneud newidiadau, teulu, teimlo bod rhywun eich eisiau, teimlo'n rhan o rywbeth, ymdeimlad o berthyn ac yna rydyn ni'n eu lleoli nhw yn [tref sy'n bell i ffwrdd], dydy e ddim yn paru â'r hyn rydyn ni'n ceisio ei wneud. Dydy'r gwasanaeth sydd gennym ni ddim yn paru.'**

*Gweithiwr cymdeithasol Holly*

## Adran 11: Argymhellion: Beth y gellir ei wneud?

Yn seiliedig ar y canfyddiadau a'r drafodaeth uchod, awgrymir amryw o argymhellion:

### 11.1 Argaeledd lleoliadau

**11.1.1** Mae'r anhawster o ran dod o hyd i leoliadau sy'n gallu diwallu a mynd i'r afael ag anghenion iechyd a chymdeithasol y bobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl llety diogel yn galw am ddatblygu a darparu strategaeth gomisiynu genedlaethol sy'n sicrhau y gall awdurdodau lleol ddiwallu anghenion cynyddol y bobl ifanc hyn ar unrhyw adeg yn ystod gofal preswyl neu ddiogel. At hynny, dylai unrhyw strategaeth gael ei hategu gan ddatblygiad rhanbarthol angenrheidiol i alluogi hwyluso.

**11.1.2** I gefnogi'r galwad uchod am leoliadau gofal digonol, dylai model therapi sydd fwyaf tebygol o ddiwallu anghenion y bobl ifanc hyn gael ei nodi a'i roi ar waith ar draws gofal maeth neu breswyl.

**11.1.3** Mae canfyddiadau'r astudiaeth yn gofyn am hyfforddiant pellach ar gyfer gofalwyr maeth a phreswyl sy'n gofalu am bobl ifanc â lefelau uchel o angen cyn ac ar ôl llety diogel. Yn benodol, datblygu hyfforddiant sy'n sicrhau cysondeb yn y gofal a ddarperir ac sy'n galluogi gofal o'r fath i gael ei addasu i ddiwallu anghenion penodol pob person ifanc. Mae canfyddiadau hefyd yn galw am ddarparu cymorth hygyrch ar gyfer gofalwyr yn ystod lleoliadau.

### 11.2 Gwasanaethau iechyd meddwl

**11.2.1** Ni chafodd llawer o bobl ifanc gefnogaeth iechyd meddwl ddigonol a / neu briodol cyn, yn ystod neu ar ôl llety diogel. Mae'r canfyddiad hwn yn yn galw am ddarparu lefel ychwanegol o wasanaeth sy'n gallu goresgyn rhwystrau a grëir gan feini prawf gwasanaeth iechyd meddwl (er enghraifft, diagnosis iechyd meddwl, ymgysylltu â'r gwasanaeth yn syth, byw mewn amgylchedd diogel), er mwyn sicrhau bod pobl ifanc yn gallu cael mynediad at gymorth a thriniaeth am broblemau ymddygiadol ac emosiynol, ynghyd â salwch meddwl penodol.

**11.2.2** Mae gwybodaeth gweithwyr cymdeithasol am hanes ac anghenion y person ifanc yn awgrymu y dylid defnyddio dull cydgomisiynu amlddisgyblaethol i ddarparu gwasanaethau iechyd meddwl. Byddai dull o'r fath yn hwyluso proses atgyfeirio fwy gwybodus ac yn helpu i ddatblygu model gwasanaeth sy'n gallu diwallu anghenion therapi trawma'r bobl ifanc yn well.

### 11.3 Llety diogel

**11.3.1** Rydym yn argymell sbardun cenedlaethol i uno arfer gorau o ran gwneud cais am Orchmynion Llety Diogel i helpu pobl ifanc a gweithwyr cymdeithasol i gael eu cefnogi yn ystod y broses hon. O fewn hyn, mae'n bwysig sicrhau bod pobl ifanc, lle'n bosibl ac yn ddiogel, yn ymwybodol o geisiadau, yn cael cyfle i fynd i achosion a bod eu barn yn cael ei hystyried gyda help eiriolaeth os dymunir neu os oes angen.

**11.3.2** Argymhellir y dylai'r system gael ei diwygio i sicrhau bod effeithiau cadarnhaol addysg, gwasanaethau iechyd a therapi a ddarperir mewn llety diogel yn cael eu cynnal trwy ddarparu cymorth a therapi cyffelyb ar ôl i'r bobl ifanc adael. I hwyluso pontio di-dor i'r gofal gorau posibl ar ôl gadael llety diogel, mae'r argymhelliad hwn yn gofyn am ddatblygu dull cydgomisiynu amlasiantaethol integredig cenedlaethol a fydd yn cynllunio'r pontio o lety diogel.

**11.3.3** Nid yw llawer o bobl ifanc a leolwyd am resymau lles yn hoffi amgylchedd llym llawer o leoliadau llety diogel ac maen nhw'n teimlo ei fod yn amhriodol. Yng ngoleuni canfyddiadau ychwanegol bod rhai lleoliadau llety diogel yn cynnig amgylcheddau mwy cartrefol, rydym yn galw am gydweithredu â phobl ifanc i wella ymddangosiad a theimlad y llety diogel y cânt eu lleoli ynddo cyn belled ag y bo hynny'n bosibl.

**11.3.4** Mae cael eu lleoli ymhell o'u cartref yn cael effaith negyddol ar bobl ifanc, eu teuluoedd ac awdurdodau lleol gan ei fod yn gwneud cysylltiad rheolaidd yn anodd ac yn ddrud. O wybod hyn, dylai pob ymdrech gael ei wneud i leoli pobl ifanc mor agos â phosibl at eu cartrefi.

## Adran 12: Cyfeiriadau


**Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan** (2017) Cofnodion cyfarfod, heb eu cyhoeddi

**Barron, I. a Mitchell, D.** (2017b) 'Unit manager perspectives of a trauma-specific programme across Scotland's secure estate' *Journal of Children's Services* 12(4) tt 271-287

**Barron, I. a Tracey, J.K.** (2017) 'Quasi-Qualitative Evaluation of Progressive Counting in Secure accommodation in Scotland: an Exploratory Cluster Case Study' *Journal of Child and Adolescent Trauma* 11 tt 305-315

**Bazalgette, L., Rahilly, T. a Trevelyan, G.** (2015) *Achieving emotional wellbeing for looked after children: A whole systems approach*. NSPCC

**Bessel, A. a Van der Kolk, M.D.** (2005) 'Developmental Trauma Disorder: Towards a rational diagnosis for children with complex trauma histories.' *Psychiatric Annals*35 (5) tt 401-408

**Christie, C.** (2018) *A Trauma-informed Health and Care Approach for responding to Child Sexual Abuse and Exploitation: Current knowledge report, May 2018. Paratowyd gan Christine Christie ar gyfer yr Adran Iechyd. Ar gael yn* https://dera.ioe.ac.uk/31703/1/trauma-informed-health-and-care-approach-report.pdf [Fel ar 30/04/19]

**Creegan, C., Scott, S. a Smith R.** (2005) *The use of secure accommodation and alternative provisions for sexually exploited young people in Scotland*. Barnardo's

**Fargas-Malet, M. a McSherry, D.** (2018) 'The Mental Health and Help-Seeking Behaviour of Children and Young People in Care in Northern Ireland: Making Services Accessible and Engaging' *British Journal of Social Work* 48 tt 578-595

**Harkin, C. a Houston, S.** (2016) Reviewing the Literature on the Breakdown of Foster Care Placements for Young People: Complexity and the Social Work Task. Child Care in Practice, Cyfrol 22, Rhif 2, 2016, t. 98-112.

**Harris, R. a Timms, N.** (1993) *Secure accommodation in Child Care: Between Hospital and Prison or Thereabouts?* Llundain: Routledge

**Hart, D. a La Valle, I.** (2016) *Local authority use of secure placements. Adroddiad ymchwil, Rhagfyr 2016*. Yr Adran Addysg

**Heron, G. a Cassidy, C.** (2018) 'Using practical philosophy to enhance the self-regulation of children in secure accommodation' *Emotional and Behavioural Difficulties* 23(3) tt 254-269

**Hiller, R.M. a St Clair, M.C.** (2018) 'The emotional and behavioural symptom trajectories of children in long-term our-of-home care in an English local authority' *Child Abuse & Neglect* 81 tt 106-117

**Jarret T. a Harker, R.** (2016) *Children: out-of-area and distant placements in residential homes (England). Briefing paper Number 07560*. Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin

**Johnson, D.** (2017a) *A best fit model of trauma-informed care for young people in residential and secure services – findings from a 2016 Winston Churchill Memorial Trust Fellowship*. Paisley: Kibble

**Johnson, D.** (2017b) 'Tangible Trauma Informed Care.' *Scottish Journal of Residential Childcare* 16(1)

**Jones, I.** (2016) *De-escalating Interventions for troubled adolescents*. Caerdydd: Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru

**Kendrick, A., Walker, M., Barclay, A., Hunter, L., Malloch. M. a McIvor, G.** (2008) 'The outcomes of secure care in Scotland.' *Scottish Journal of Residential Childcare* 7(1), tt 1-13

**McAuley, C. a Young, C.** (2006) 'The Mental Health of Looked After Children: Challenges For CAMHS Provision.' *Journal of Social Work Practice* 20(1) tt 91-103

**McKellar, A. a Kendrick, A.** (2013) 'Key working and the quality of relationships in secure accommodation ' *Scottish Journal of Residential Child Care* 12(1) tt 46-57

**Munro, E. a Hardy, A.** (2006) *Placement Stability: A review of the literature*. Loughborough, Prifysgol Loughborough

**Parker, C.** (2018) '"We will have blood on our hands": the judiciary shines a light on the inadequacy of adolescent mental health care' *Journal of Social Welfare and Family Law* 40:1 tt 98-100

**Narey, M.** (2016) *Residential Care in England: Report of Sir Martin Narey's independent review of children's residential care.* Ar gael yn: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/534560/Residential-Care-in-England-Sir-Martin-Narey-July-2016.pdf [Fel ar 17.04.2018]

**Norgate, R., Warhurst, A., Hayden, C., Osborne, C. a Traill, M.** (2012) 'Social workers' perspectives on the placement instability of looked after children' *Adoption & Fostering* 36(2) tt 4-18

**Quinton, D. a Murray, C.** (2002) 'Assessing emotional and Behavioural development in children looked after away from home.' Yn H. Ward a W. Rose (Gol) *Approaches to needs assessment in children's services.* Llundain: Jessica Kingsley Publishers

**Roesch-Marsh, A.** (2018) 'Professional relationships and decision making in social work: Lessons from a Scottish case study of secure accommodation decision making' *Qualitative Social Work* 17(3) tt 405-422

**Roesch-Marsh, A.** (2014b) 'Risk Assessment and secure accommodation Decision-Making in Scotland: Taking Account of Gender?' *Child Abuse Review* 23 tt 214-226

**Ronzoni, P. a Dogra, N.** (2011) 'Children, adolescents and their carers' expectations of child and adolescent mental health services (CAMHS).' *International Journal of Social Psychiatry* 58(3) tt 328–336

**Rose, J.** (2002) *Working with Young People in Secure accommodation: From Chaos to Culture.* Hove: Brunner-Routledge

**Llywodraeth yr Alban** (2017) *Children's Social Work Statistics Scotland, 2015-16. National statistics.* Accessed 04/01/2018. Ar gael yn: www.gov.scot/publications/childrens-social-work-statistics-scotland-2015-16/ [Fel ar 17/05/19]

**Sempik, J., Ward, H. a Darker, I.T.** (2008) 'Emotional and behavioural difficulties of children and young people at entry into care.' *Clinical Psychology and Psychiatry* 13(2) tt 221-233

**Souverein, F.A., Van der Helm, G.H.P. a Stams, G.J.J.M.** (2013) ''Nothing works' in secure residential youth care?' *Children and youth services review* 35(12) tt 1941 -1945

**Senedd y DU** (1989) *The Children Act*, 1989. Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/ukpga/1989/41/contents [Fel ar 17/05/19].

**Senedd y DU** (1991) *The Children (Secure accommodation) Regulations 1991*. Ar gael yn: www.legislation.gov.uk/uksi/1991/1505/contents/made [Fel ar 17/05/19].

**Unrau, Y. A., Seita, J. R., a Putney, K. S.** (2008) 'Former foster youth remember multiple placement moves: A journey of loss and hope.' *Children and Youth Services Review* 30(11) tt 1256–1266

**Vostanis, P., Bassi, G., Melter, H., Ford, T., a Goodman, R.** (2008) *Service use by looked after children with behavioural problems: Findings from the England Survey.* Ar gael yn docs.scie-socialcareonline.org.uk/fulltext/90078pdf [Fel ar 30/04/19]

**Ward, H.** (2009) 'Patterns of instability: Moves within the care system, their reasons, contexts and consequences' *Children and Youth Services Review* 31 tt 1113–1118

**Warner, L., Hales, H., Smith, J., a Bartlett, A.** (2018) *Secure settings for young people: a national scoping exercise.* Central and North West London: NHS Foundation Trust

**Llywodraeth Cymru** (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)* 2014. Ar gael yn http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2014/4/contents [Fel ar 17/05/19]

**Llywodraeth Cymru** (2015) *Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) 2015*. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2015/1988/regulation/3/made [Fel ar: 17/05/19]

**Llywodraeth Cymru** (2018) *Rheoliadau Plant (Llety Diogel) (Cymru) (Diwygio) 2018*. Ar gael yn: http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2018/391/contents/made [Fel ar: 17/05/19]

**Willems, M.** (2018) 'Restriction of liberty under the inherent jurisdiction (Re T (a child) (secure accommodation order)' *Family Law*. Ar gael yn www.familylaw.co.uk/news_and_comment/restriction-of-liberty-under-the-inherent-jurisdiction-re-t-a-child-secure-accommodation-order#.W9aiXRanyEc [Fel yn 18/02/2019]

**York, W. a Jones, J.** (2017) 'Addressing the mental health needs of looked after children in foster care: the experiences of foster carers' *Journal of Psychiatric and Mental Health Nursing* 24 tt 143-153

## 13.1 Dulliau ac ystyriaethau moesegol

### Nodau ac amcanion y prosiect

Nod y prosiect hwn oedd cael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl ifanc yng Nghymru cyn, yn ystod ac ar ôl cyfnod mewn llety diogel neu amgen. Yn benodol, amcanion yr astudiaeth oedd ystyried:

- hanesion bywyd a siwrneiau pobl ifanc a arweiniodd at Orchymyn Llety Diogel
- profiadau pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl amser mewn llety diogel
- a yw anghenion ac ymddygiadau pobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u dylanwadu gan natur a model therapiwtig y lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd, ac i ba raddau
- pryd a sut mae penderfyniadau a chynlluniau yn cael eu gwneud ar gyfer dyfodol person ifanc yn dilyn eu hamser mewn llety diogel
- canlyniadau a sefydlogrwydd lleoliadau i bobl ifanc ar ôl gadael llety diogel
- llesiant emosiynol a chorfforol pobl ifanc ar ôl gadael llety diogel
- beth sy'n digwydd pan fo Gorchmynion Llety Diogel yn cael eu gwneud, ond bod pobl ifanc yn derbyn llety amgen gan nad oes gwely ar gael mewn lleoliad llety diogel.


Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol ar gyfer y prosiect gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd.

### Dyluniad y prosiect

Cynhaliwyd y prosiect hwn trwy ymgynghori a dadansoddi ffeiliau achos plant a chasglu data gweinyddol rheolaidd (er enghraifft, SSDA903) a gedwir gan awdurdodau lleol, a thrwy gyfweliadau lled-strwythuredig gyda phobl ifanc ac amrywiaeth o randdeiliaid allweddol sy'n cyfrannu at eu cymorth a'u gofal.

### Recriwtio ar gyfer y prosiect

Roedd y prosiect yn ceisio cynnwys pob person ifanc perthnasol a rhanddeiliaid allweddol. Fel y nodwyd yn Ffigur 13.1, o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru, roedd 21 wedi gwneud cais llwyddiannus am Orchymyn Llety Diogel rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Cysylltwyd â phob awdurdod o'r fath i ofyn iddynt gymryd rhan, a gwnaeth 19 ohonynt gyfrannu, gyda'r ddau arall yn cael eu hatal gan faterion staff ac adnoddau.




*Ffigur 13.1: Cyfraniad uniongyrchol awdurdodau lleol*

### Casglu data

Gofynnwyd i'r 19 awdurdod lleol a oedd yn cymryd rhan enwebu aelod o staff i weithio gyda'r tîm ymchwil i hwyluso'r prosiect.

Cysylltwyd â staff trwy e-bost a thros y ffôn, a gofynnwyd iddynt helpu i gael mynediad at y ffeiliau achos a'r data gweinyddol ar gyfer pobl ifanc a atgyfeiriwyd i lety diogel o fewn amserlen yr astudiaeth. Fel rhan o hyn ac er mwyn cynnal yr ymchwil hon mewn ffordd foesegol, gofynnwyd i'r staff hefyd drefnu cyswllt â'r person ifanc dan sylw i gael eu caniatâd i'w ffeiliau gael eu gweld gan y tîm ymchwil. Aeth yr aelodau staff ati hefyd i hwyluso cysylltiad â'r bobl ifanc a rhanddeiliaid i drefnu cyfweliadau prosiect.

### Ffeiliau achos

Arweiniodd cysylltiad ag awdurdodau lleol at ymgynghori ynghylch ffeiliau achos 10 person ifanc o wyth awdurdod lleol. Dan arweiniad nodau ac amcanion y prosiect, lluniwyd rhestr o bynciau o

ddiddordeb ymlaen llawn, gan lywio'r ymgynghoriad ffeiliau achos (gweler Atodiad 13.2) gyda diddordeb mewn:

- manylion y plentyn a'r teulu
- hanes y plentyn a defnydd y teulu o wasanaethau cymdeithasol ac asiantaethau partner cyn llety diogel
- manylion y llety diogel neu'r llety amgen os cafodd ei ddefnyddio
- y cymorth a'r gofal a gynigiwyd ers gadael llety diogel.

Yn ystod y broses hon, canolbwyntiwyd y dull casglu data ar bwyntiau allweddol ym mywyd person ifanc, gan helpu i greu darlun o brofiadau ac amgylchiadau'r bobl ifanc dan sylw. Er nad oedd modd cymharu ffeiliau achos yn uniongyrchol a gan eu bod yn tueddu i fod wedi'u strwythuro a'u storio'n wahanol yn unol ag ymarfer yr awdurdod lleol, cyfrannodd y ffeiliau achos at y trosolwg o sefyllfa pob person ifanc y cyfeiriwyd atynt.

**Cyfweliadau prosiect**

Fel y rhestrir yn Nhabl 13.1 isod (gweler Atodiad 13.3 am amserlenni cyfweliadau), cynhaliwyd cyfweliadau gyda phobl ifanc ac amrywiaeth o randdeiliaid allweddol – gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr tîm gwasanaethau cymdeithasol yn bennaf.


| Cyfranogwyr | Nifer y cyfweliadau | Nifer yr awdurdodau lleol |
|---|---|---|
| Gweithwyr cymdeithasol | 30 | 17 |
| Pobl ifanc | 11 | 10 |
| Arweinwyr tîm/rheolwyr gwasanaeth | 5 | 5 |
| Staff cartrefi preswyl | 3 | 2 |
| Gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol | 2 | 1 |
| Gofalwyr (teulu a maeth) | 2 | 2 |
| Gweithwyr y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid | 1 | 1 |
| Eiriolwyr Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant | 1 | 1 |
| **Cyfanswm** | **55** | **39** |

*Tabl 13.1: Sampl o gyfweliadau*

Cynhaliwyd cyfweliadau mewn lleoliadau amrywiol, o swyddfeydd awdurdodau lleol i lysoedd, caffis a cholegau. Roedd pob cyfwelai yn ymwybodol y gallent ddewis peidio ag ateb cwestiynau ac y gallent derfynu'r cyfweliad unrhyw bryd heb angen esbonio'r penderfyniad hwn.

### Cyfweliadau gyda phobl ifanc

Mae Ffigur 13.2 yn dangos y broses o recriwtio pobl ifanc i gymryd rhan yn y prosiect.




*Ffigur 13.2: Cyfranogiad uniongyrchol pobl ifanc*

Cafwyd cyfanswm o 56 o Orchmynion llety Diogel gan awdurdodau lleol Cymru rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018. Unwaith i ailatgyfeiriadau ar gyfer unigolion a dderbyniodd mwy nag un gorchymyn gael eu hepgor, nodwyd cyfanswm o 43 o bobl ifanc o Gymru a oedd wedi derbyn Gorchymyn Llety Diogel o fewn amserlen yr astudiaeth. O'r rhain, gofynnwyd i 23 gymryd rhan yn y prosiect, gydag 13 yn cytuno i wneud hyn. Cynhaliwyd cyfweliad gydag 11 ohonynt.

Roedd y rhan hon o'r ymchwil yn ymchwilio'n fanwl i faterion sensitif a allai beri gofid i'r plant a'r bobl ifanc. Gydol yr astudiaeth, roedd ymchwilwyr yn ystyriol o'r ystyriaethau a'r risgiau moesegol. Yn ymarferol ac yn unol â'r pryderon hyn, dechreuodd y broses o gysylltu â phobl ifanc trwy gael cyngor gan ofalwyr a gweithwyr cymdeithasol pob person ifanc ynghylch a ellid neu a ddylid cysylltu â'r bobl ifanc ac, os oedd hyn yn ymarferol, y ffordd orau o wneud hynny mewn ffordd briodol.

Mewn llawer o achosion (20), teimlwyd y byddai'n amhriodol i wahodd pobl ifanc i gymryd rhan. Roedd y rhesymau a roddwyd gan weithwyr proffesiynol yn amrywio, ond yn cynnwys pryderon ynghylch iechyd meddwl neu'r defnydd o gyffuriau (gan gynnwys pobl ifanc sydd wedi'u lleoli mewn ysbyty meddwl o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl), pryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai'r person ifanc ddioddef mwy o drawma ac, yn achos rhai pobl ifanc sydd bellach yn hŷn nag 18 oed, diffyg cysylltiad â gwasanaethau cymdeithasol, a oedd yn golygu bod staff yn dal i fod yn ansicr ynglŷn â'u lleoliad.

Nodwyd cyfanswm o 23 o bobl ifanc fel cyfranogwyr posibl, ac aeth gweithwyr cymdeithasol ati i geisio cysylltu â nhw. Lle teimlwyd bod cyfranogiad yn bosibl, rhoddodd gweithwyr allweddol neu weithwyr cymdeithasol wybodaeth i bobl ifanc am yr astudiaeth. Esboniodd y daflen wybodaeth y meysydd yr oedd gan y prosiect ddiddordeb ynddynt, a nododd y gallai cyfranogwyr ddewis pa rai o'r meysydd hyn i fynd i'r afael â nhw a pha rai y byddai'n well ganddynt beidio â'u cynnwys.

Cafwyd gostyngiad mewn niferoedd ar ôl cyfraniad gweithwyr cymdeithasol, oherwydd er eu bod yn teimlo y byddai cyswllt yn bosibl, roedd newid mewn amgylchiadau (er enghraifft, iechyd yn dirywio neu symud lleoliad) yn golygu bod hynny bellach yn amhosibl. Cymerodd cyfanswm o 11 o bobl ifanc ran. Er bod gwahanol ddulliau o gyfrannu wedi'u cynnig ac ar gael i'w defnyddio, yn ymarferol roedd y bobl ifanc hyn yn fwy cyfforddus yn siarad na defnyddio dulliau eraill, megis tynnu llun neu ysgrifennu i gyfleu eu profiadau.

Cynhaliwyd cyfanswm o 11 o gyfweliadau: naw wyneb yn wyneb yn y lleoliadau lle roedd y bobl

ifanc yn byw neu mewn lle a drefnwyd gan gyswllt yr awdurdod lleol, un cyfweliad dros y ffôn ac un arall trwy brocsi a hwyluswyd gan ofalwr maeth a anfonodd gofnod o'r cyfweliad mewn e-bost. O'r naw cyfweliad wyneb yn wyneb, cynhaliwyd pump gyda gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr proffesiynol arall yn bresennol oherwydd pryderon ynghylch effaith negyddol bosibl ar lesiant y person ifanc.

### Cyfweliadau gyda gweithwyr cymdeithasol a rhanddeiliaid allweddol eraill

Yn y rhan hon o'r ymchwil, roedd hi'n amlwg o'r cychwyn cyntaf bod gan weithwyr cymdeithasol wybodaeth bwysig am gronolegau'r bobl ifanc, hanes eu bywyd a'u profiadau. Felly, fe geision ni gyfweld â gweithwyr cymdeithasol blaenorol a phresennol y bobl ifanc lle'n bosibl, gan siarad â chyfanswm o 30 gweithiwr cymdeithasol o 17 o wahanol awdurdodau lleol (rhyngddynt, roedd y gweithwyr cymdeithasol hyn wedi gweithio gyda 32 o'r bobl ifanc). Roedd y wybodaeth a gafwyd yn hynod werthfawr, yn enwedig pan na allai'r person ifanc gymryd rhan yn yr astudiaeth.


Nododd cyfarfodydd â gweithwyr cymdeithasol a phobl ifanc randdeiliaid allweddol a oedd wedi bod yn bwysig i'r bobl ifanc ar ryw adeg yn ystod eu profiadau. Fel y gwelir yn Nhabl 3.1, arweiniodd y strategaeth hon at amrywiaeth o gyfweliadau gyda gwahanol randdeiliaid. Fodd bynnag, arweiniodd y dull hwn at lai o ymgysylltu na'r disgwyl gydag aelodau'r teulu a gofalwyr gan fod hanes teulu cymhleth a thensiynau parhaus yn gwneud cysylltiad ag aelodau'r teulu yn amhriodol. Roedd dau berson ifanc yn eithriadau i hyn, ac mae aelodau eu teulu neu eu gofalwyr yn rhan o'r sampl cyfweliadau a ddisgrifir uchod.

Roedd y rhan fwyaf o'r cyfweliadau rhanddeiliaid yn gyfweliadau un-i-un a gynhaliwyd yn bennaf mewn swyddfeydd awdurdodau lleol. Cynhaliwyd tri chyfweliad gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill gyda mwy nag un unigolyn yn bresennol gan fod hyn yn fwy effeithlon o ran amser i'r unigolion dan sylw.

### Dadansoddi data

Gyda'i gilydd, rhoddodd y wybodaeth a gafwyd o gyfweliadau a ffeiliau achos lawer o fanylion am brofiadau llawer o'r bobl ifanc sydd o ddiddordeb i'r prosiect. Mae Ffigur 13.3 yn rhoi portread gweledol o'r siwrneiau hyn cyn, yn ystod ac ar ôl llety diogel neu amgen, a defnyddiwyd y model hwn i ddadansoddi'r data a ffurfio strwythur yr adrannau canlynol.

Er bod gennym lawer o ddiddordeb yn y profiadau yr oedd y bobl ifanc wedi eu rhannu, mae pob person ifanc sy'n destun neu sydd wedi bod yn destun Gorchymyn Llety Diogel wedi byw trwy brofiadau unigryw. Yn yr adrannau canlynol, byddwn yn trafod ffactorau cyffredin ac unigryw i ddatblygu darlun llawn o brofiadau'r bobl ifanc hyn.




*Ffigur 13.3: Profiadau pobl ifanc cyn, yn ystod ac ar ôl amser mewn llety diogel*

### 13.2 Canllaw archwilio ffeiliau

| | |
|---|---|
| Cefndir<br>(bob tro os yw'r achos wedi'i gau) | • Oedran<br>• Rhyw<br>• Awdurdod lleol<br>• Oedran pan ddaethant yn hysbys i wasanaethau plant<br>• Ethnigrwydd<br>• Cyfansoddiad y teulu (brodyr a chwiorydd/oedolion yn yr aelwyd ac ati)<br>• Rheswm dros yr atgyfeiriad(au)?<br>• Plentyn mewn angen (gofal a chymorth)?<br>• Cofrestr Amddiffyn Plant? Categori?<br>• Pa wasanaethau a ddarparwyd/a ddefnyddiwyd: pryd ac am ba hyd? |
| Hanes o 'dderbyn gofal'<br>Dylid cael y wybodaeth hon ar gyfer pob cyfnod gofal | • Oedran pan gawsant fynediad at ofal am y tro cyntaf<br>• Sail gyfreithiol i 'dderbyn gofal'<br>• Math o leoliad<br>• Categori angen<br>• Amser mewn gofal – nes iddynt adael neu gael lleoliad mewn llety diogel<br>• Newidiadau i statws cyfreithiol/lleoliad/y ddau yn ystod cyfnod mewn gofal (beth? Faint?)<br>• Yn yr awdurdod lleol neu y tu allan i'r sir? |
| Rhagflaenydd i gael lle mewn llety diogel (ar gyfer pob achos) | • Pa ddigwyddiad(au) arweiniodd at gais am Orchymyn Llety Diogel?<br>• Beth a wnaed i reoli'r risgiau hyn cyn gwneud cais am orchymyn?<br>• Lleoliad cyn cael mynediad at lety diogel?<br>• Os cafodd y cais ei wrthod gan y llysoedd, pam?<br>• Os cawsant eu lleoli mewn darpariaeth amgen, beth? A pham? |
| Llety diogel<br>(ar gyfer pob achos) | • Oedran pan gawsant eu lleoli mewn llety diogel<br>• Beth oedd barn y person ifanc a'r rhiant/gofalwr am y lleoliad llety diogel – adolygiad LAC?<br>• Ble cafodd y person ifanc ei leoli (yng Nghymru/y tu allan i Gymru)?<br>• Pa hyd oedd y lleoliad llety diogel?<br>• Beth oedd y canlyniadau bwriedig a nodwyd ar gyfer y lleoliad llety diogel? |
| Ar ôl llety diogel<br>(pob achos o adael llety diogel) | • Pam y penderfynwyd dod â'r lleoliad llety diogel i ben?<br>• Ble cafodd y person ifanc ei leoli ar ôl gadael llety diogel?<br>• Pa anghenion cymorth a nodwyd mewn cynlluniau?<br>• Pa gymorth a roddwyd ar waith ar ôl gadael llety diogel?<br>• Beth sydd wedi digwydd rhwng diwedd y lleoliad llety diogel a diwedd y ffenestr arsylwi? |
| Pobl /<br>Gwasanaethau | • CAMHS – atgyfeiriadau/gwasanaethau a ddefnyddiwyd<br>• YOT – hysbys i'r gwasanaeth troseddau ieuenctid?<br>• Gweithwyr cymdeithasol<br>• Ysgol<br>• Iechyd |

## 13.3 Atodlenni cyfweld

**13.3.1** Cwestiynau ymchwil ac awgrymiadau: Awdurdodau lleol/gweithwyr proffesiynol eraill

| Cwestiwn | Awgrymiadau |
|---|---|
| Allwch chi rannu'ch profiad/gwybodaeth o lety diogel? | • Yn bersonol, yn yr awdurdod lleol yma<br>• Beth yw'r nodweddion cadarnhaol?<br>• Beth yw'r problemau ynghlwm â'r system bresennol? |
| Allwch chi sôn am achos y person ifanc yma? | • Pryd ddaethon nhw i sylw'r gwasanaethau cymdeithasol?<br>• A ddigwyddodd ymyriadau ar sawl achlysur?<br>• A oedd gennych chi gysylltiadau gyda theulu'r person ifanc neu rwydwaith ehangach? |
| Allwch chi ddweud pa gefnogaeth (hyd y gwyddoch chi) a gynigwyd i/a ddefnyddiwyd gan y person ifanc a'u teulu cyn atgyfeiriad i lety diogel? | • Defnydd o wasanaethau gwirfoddol? (Ar draws sectorau, nid Gwaith Cymdeithasol (GC) yn unig – felly iechyd, addysg, cyfiawnder, gofal cymdeithasol ac ati)<br>• Defnydd o wasanaethau gorfodol/statudol? (Ar draws sectorau, nid GC yn unig – felly iechyd, addysg, cyfiawnder, gofal cymdeithasol ac ati)<br>• Pa fath o gefnogaeth a dderbyniwyd ganddyn nhw o ganlyniad?<br>• Sut oedd lefel derbyn/ymgysylltu â'r gefnogaeth hon?<br>• A oedd unrhyw anghenion cydnabyddedig na ddiwallwyd?<br>• A oedd unrhyw berthnasoedd allweddol a effeithiodd ar daith y person ifanc/y teulu ar y pryd? |
| Allwch chi sôn am y broses bontio wrth symud y person ifanc i lety diogel? Beth/sut y digwyddodd hynny? | • Beth oedd y sbardun allweddol a arweiniodd at leoli'r person ifanc mewn llety diogel?<br>• Sut yr ymdriniwyd â'r broses bontio?<br>• Pwy oedd ynghlwm â'r broses? (Gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau ehangach, teulu, y person ifanc)<br>• Ai llety diogel oedd yr ateb a ffafriwyd? |
| Allwch chi sôn beth ddigwyddodd i'r person ifanc yn y llety diogel? | • Pa lety diogel?<br>• Profiad penodol yn y llety diogel (lleoliad y llety, amser a dreuliwyd ynddo)<br>• Pa fath o gefnogaeth a therapi a dderbyniodd y person ifanc yn y llety diogel? (traws sector)<br>• Beth oedd barn y person ifanc ynghylch ei gyfnod yn y llety diogel? (Effeithiau cadarnhaol/negyddol?)<br>• A ffurfiwyd unrhyw berthnasoedd allweddol yn ystod y cyfnod sydd wedi effeithio ar daith y person ifanc? |
| (Os yw'r person ifanc wedi gadael llety diogel): Sut y rheolwyd y broses bontio allan o lety diogel? | • Ble mae'r person ifanc wedi bod ers hynny, ac a yw'r lleoliad hwnnw/lleoliadau hynny wedi bod yn addas?<br>• Pa gefnogaeth maen nhw wedi'i dderbyn?<br>• I ba raddau oedd gan y person ifanc lais yn y broses bontio?<br>• A welwyd gwelliant o safbwynt y ffactorau a arweiniodd at gartrefu'r person ifanc mewn llety diogel?<br>• A oes anghenion gan y person ifanc sydd heb eu diwallu?<br>• A ffurfiwyd unrhyw berthnasoedd allweddol yn ystod y cyfnod sydd wedi/yn effeithio ar daith y person ifanc? |
| A yw'r hyn a ddysgoch drwy achos y person ifanc yma wedi effeithio ar eich arferion? | • O wybod yr hyn rydych yn ei wybod nawr, beth ellid fod wedi'i wneud yn wahanol ar gyfer y person ifanc yma?<br>• A fyddai hynny'n effeithio ar eich gwaith gydag achosion llety diogel yn y dyfodol? |
| Sut fyddech chi'n newid y system bresennol? Beth hoffech chi ei weld yn y dyfodol? | • Mewn byd delfrydol…<br>• Newidiadau y gellid eu gwneud yn realistig |

**13.3.2** Cwestiynau ymchwil ac awgrymiadau: Pobl ifanc

| Cwestiwn | Awgrymiadau |
|---|---|
| Allwch chi sôn amdanoch chi'ch hun a'ch cefndir? | • Soniwch amdanoch chi'ch hun<br>• Pa dri pheth sy'n bwysig i'ch hunaniaeth/personoliaeth?<br>• [Cofio cyfeirio'n ôl at hyn drwy gydol y cyfweliad] |
| Allwch chi ddweud pa gefnogaeth (hyd y gwyddoch chi) a gynigwyd i chi a'ch teulu cyn i chi gael eich atgyfeirio i lety diogel? A wnaethoch chi ddefnyddio'r gefnogaeth hon? | • Defnydd o wasanaethau gwirfoddol? (Ar draws sectorau, nid GC yn unig – felly iechyd, addysg, cyfiawnder, gofal cymdeithasol ac ati)<br>• Defnydd o wasanaethau gorfodol/statudol? (Ar draws sectorau, nid GC yn unig – felly iechyd, addysg, cyfiawnder, gofal cymdeithasol ac ati)<br>• Sut fath o gefnogaeth oedd hon?<br>• A wnaethoch chi/eich teulu ymgysylltu â'r gefnogaeth hon?<br>• A oedd y gefnogaeth yn diwallu'ch anghenion? Os na, beth oedd ar goll?<br>• A wnaethoch chi ffurfio cysylltiadau cryf gyda'r rhai a oedd yn cynnig cefnogaeth? |
| Pam wnaethoch chi gael eich anfon i lety diogel? | • Beth ydych chi'n meddwl a ddaeth â chi i lety diogel?<br>• Ydych chi'n deall/cytuno â'r rhesymau a roddwyd dros eich hatgyfeirio i lety diogel?<br>• A gawsoch chi glywed beth oedd yn digwydd? A wrandawyd arnoch chi? Gan bwy?<br>• Sut oedd hyn yn gwneud i chi deimlo? |
| Beth oedd eich profiad o fod mewn llety diogel? | • Pa fath o gefnogaeth a therapi a dderbynioch chi yn y llety diogel?<br>• A yw'r gefnogaeth hon wedi diwallu'ch anghenion? A oedd unrhyw beth ar goll?<br>• Ydych chi'n teimlo fod treulio amser mewn llety diogel wedi cael unrhyw effeithiau cadarnhaol/negyddol penodol?<br>• A ffurfiwyd unrhyw berthnasoedd allweddol ar y pryd sydd wedi effeithio ar eich cynnydd yn ystod y cyfnod ac ers hynny?<br>• Beth ydych chi'n credu y gellid fod wedi'i wneud yn wahanol? |
| (Os yn gymwys) Sut mae bywyd wedi bod i chi ers i chi adael llety diogel? | • Sut oedd eich profiad chi o adael llety diogel?<br>• A oeddech chi'n teimlo'n barod i adael? A oes unrhyw beth penodol wedi bod yn hawdd/anodd?<br>• Ble gawsoch chi'ch lleoli ers hynny, a sut brofiad fu hynny i chi?<br>• A gawsoch chi gyfrannu i'r penderfyniadau ynghylch ble fyddech chi'n cael eich lleoli?<br>• Ydych chi'n credu bod eich cyfnod mewn llety diogel wedi gwneud gwahaniaeth i'r lleoliadau yma?<br>• A yw'ch anghenion (o ran therapi, addysg iechyd ac ati) wedi eu diwallu ers i chi adael? |
| Sut fyddech chi'n newid y system bresennol? Beth hoffech chi ei weld yn y dyfodol? | • Mewn byd delfrydol…<br>• Newidiadau y gellid eu gwneud yn realistig<br>• Pa gyngor fyddech chi'n rhoi i berson ifanc yn eich sefyllfa chi (cyn iddynt symud i lety diogel)? |

**13.3.3** Cwestiynau ymchwil ac awgrymiadau: Rhieni/Gwarcheidwaid

| Cwestiwn | Awgrymiadau |
|---|---|
| Allwch chi sôn am eich teulu, a'ch perthynas gyda'r person ifanc cyn eu hatgyfeiriad i lety diogel? | • A oes gan y person ifanc frodyr a/neu chwiorydd, a beth yw/oedd y deinameg teuluol cyffredinol?<br>• Os bu unrhyw bwyntiau o straen a thensiwn, beth oedd y rhain? |
| Allwch chi ddweud pa gefnogaeth a gynigwyd i chi a'ch teulu cyn yr atgyfeiriad i lety diogel? A wnaethoch chi ddefnyddio'r gefnogaeth hon? | • Defnydd o wasanaethau gwirfoddol? (Ar draws sectorau, nid GC yn unig – felly iechyd, addysg, cyfiawnder, gofal cymdeithasol ac ati)<br>• Defnydd o wasanaethau gorfodol/statudol? (Ar draws sectorau, nid GC yn unig – felly iechyd, addysg, cyfiawnder, gofal cymdeithasol ac ati)<br>• Sut fath o gefnogaeth oedd hon?<br>• A wnaethoch chi/eich teulu ymgysylltu â'r gefnogaeth hon?<br>• A oedd y gefnogaeth yn diwallu'ch anghenion chi/y person ifanc? Os na, beth oedd ar goll? |
| Soniwch am yr amser a arweiniodd at symud y person ifanc i lety diogel | • Yn eich barn chi, beth ddigwyddodd i beri i'r person ifanc fod mewn llety diogel?<br>• Sut yr ymdriniwyd â'r broses bontio?<br>• Pwy wnaeth y penderfyniad? A oeddech chi'n cytuno â'r penderfyniad?<br>• Ydych chi'n credu y gellid bod wedi gwneud unrhyw beth yn wahanol? |
| Sut fu'ch perthynas gyda'r person ifanc ers eu hatgyfeiriad i lety diogel? | • A yw profiad y person ifanc yn y llety diogel wedi effeithio ar eich perthynas â nhw? (+ neu -)<br>• Os felly, beth sydd wedi newid? |
| Sut ydych chi'n teimlo ynghylch cyfnod y person ifanc mewn llety diogel erbyn hyn? | • O wybod yr hyn rydych yn ei wybod nawr, beth ellid fod wedi'i wneud yn wahanol ar gyfer y person ifanc yma?<br>• Pwy allai fod wedi helpu gyda hynny?<br>• A ydych chi'n teimlo y gallai cyfnod y person ifanc mewn llety diogel effeithio ar eich perthynas â nhw yn y dyfodol? |
| Sut fyddech chi'n newid y system bresennol? Beth hoffech chi ei weld yn y dyfodol? | • Mewn byd delfrydol…<br>• Newidiadau y gellid eu gwneud yn realistig |

## 13.4 Taflenni gwybodaeth

**13.4.1** Taflen wybodaeth: Awdurdodau lleol

# Dyfodol Diogel?

### Gwybodaeth Awdurdod Lleol

Rydym yn eich gwahodd i gynorthwyo Prifysgol Caerdydd gyda phrosiect ymchwil sy'n archwilio defnydd plant a phobl ifanc Cymru o Gartrefi Diogel i Blant.

### Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r ymchwil?

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ariannu'r prosiect. Mae'r prosiect yn archwilio profiadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cartrefu, neu sydd wedi cael eu cartrefu, mewn Cartrefi Diogel i Blant am resymau lles. Oddi mewn i hynny, mae diddordeb arbennig mewn deall profiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc o'u persbectif eu hunain.

### Pam mae angen yr ymchwil yma?

Mae nifer y plant a phobl ifanc o Gymru mewn Cartrefi Diogel i Blant ar gynnydd. Mae'r prosiect yn ceisio deall:

- Beth ddaeth â'r plant yma i Gartrefi Diogel i Blant,
- A yw eu hanghenion yn cael eu cefnogi a'u diwallu gan yr ymyriadau a dderbyniant,
- Pryd a sut y gwneir penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn dilyn eu cyfnod mewn Cartrefi Diogel i Blant,
- Profiadau plant a phobl ifanc pan fyddant yn gadael,
- Profiadau'r rhai hynny ag anghenion unigryw penodol,
- Beth ddigwyddodd i blant lle cyflwynwyd gorchmynion ond nad oedd gwely mewn lleoliad diogel ar gael.

### Pam y gofynnwyd i fy Awdurdod Lleol gymryd rhan?

Gofynnir i Awdurdodau Lleol nodi a chysylltu â phlant a phobl ifanc yn eu gofal sydd wedi cael eu hystyried ar gyfer eu cartrefu, neu sydd wedi cael eu cartrefu, mewn Cartrefi Diogel i Blant (neu ddewis arall) rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2018; dweud wrthynt am yr astudiaeth a gofyn am ganiatâd i ymchwilwyr edrych ar eu ffeiliau achos a data arferol yr Awdurdod Lleol. Os yw'n bosibl neu'n briodol, gofynnir i Awdurdodau Lleol hefyd gysylltu â rhieni biolegol a gofyn am ganiatâd i ymchwilwyr edrych ar ffeiliau achos eu plant a data arferol Awdurdod Lleol.

Ymhellach, byddai'n ddefnyddiol iawn pe gallai Awdurdodau Lleol ofyn a fyddai'r plentyn / person ifanc yn rhannu eu meddyliau am Gartrefi Diogel i Blant a'u profiadau cyn ac ers hynny gydag ymchwilydd. Rhowch wybod iddynt y gellid gwneud y cyswllt hwn mewn sawl ffordd: cyfarfod i gofnodi eu profiadau, neu trwy ddefnyddio cyfryngau fel celf: beth bynnag fyddai orau ganddyn nhw.

Wedi i ganiatâd gael ei roi, bydd ymchwilydd yn ymweld ag awdurdodau lleol ac yn cael data o ffeiliau achos plant a'r data gweinyddol a gesglir yn rheolaidd (e.e. SSDA903). Yn ogystal, dewisir 25-50% o'r plant / pobl ifanc i gymryd rhan yn y cyfweliadau ac ati a bydd y tîm ymchwil yn cysylltu â nhw, naill ai'n uniongyrchol neu drwy ofalwyr a staff preswyl.

### Beth yw'r risgiau posibl?

Ni ragwelir unrhyw risgiau i Awdurdodau Lleol na'u staff.

Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth nad yw'n glir, neu os hoffech i ni ddarparu gwybodaeth bellach, cysylltwch â'r ymchwilydd arweiniol:

Dr Annie Williams

029 2087 4983

williamsa55@cardiff.ac.uk

**Diolch am ystyried cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn.**

## Dyfodol Diogel?

### Taflen Wybodaeth

Hoffem i chi gynorthwyo Prifysgol Caerdydd i archwilio profiadau plant a phobl ifanc yng Nghymru sydd wedi eu hatgyfeirio i lety diogel, neu sy'n defnyddio llety diogel. Er mwyn eich helpu i benderfynu cymryd rhan ai peidio, mae angen i chi ddeall beth yn union yw'r ymchwil a beth fydd ynghlwm â chyfrannu. Bydd y daflen wybodaeth hon yn rhoi gwybodaeth i chi ynghylch hynny.

Bob blwyddyn, mae mwy o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn defnyddio llety diogel. Rydym eisiau deall pam mae hyn yn digwydd a sut y gallwn helpu i'w atal. Rydym hefyd eisiau darganfod beth sy'n digwydd mewn llety diogel: ai'r cymorth sydd ei angen yw'r cymorth a geir; sut mae cynlluniau ar gyfer gadael yn cael eu paratoi; ac, os ydych chi wedi gadael, beth sy'n digwydd wedyn. Yn bwysig yn ogystal, rydym eisiau gwybod a yw pethau'n ddigon da ac os nad ydyn nhw, sut ddylen nhw newid?

Mae dwy ran i'r ymchwil. Yn gyntaf, hoffem edrych ar eich ffeiliau Gwaith Cymdeithasol er mwyn gweld pa gymorth a gynigiwyd i chi cyn llety diogel, ac, os nad ydych yn dal i fod yn y llety diogel, y gymorth a gawsoch ar ôl i chi adael. Hoffem hefyd ddysgu mwy am lety diogel – neu os nad aethoch i lety diogel, y cartref ble cawsoch eich hanfon. Gallwn wneud hyn mewn sawl ffordd; sgwrs un-i-un, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn; defnyddio cyfrifiaduron, neu ddefnyddio celf, neu os oes gennych chi syniad gwahanol am sut i rannu'ch profiadau – dywedwch wrthym ni!

Bydd popeth rydyn ni'n ei ddarganfod yn gyfrinachol, oni bai ei fod yn rhywbeth sydd, yn ein barn ni, yn eich peryglu chi neu unrhyw un arall. Gallwch benderfynu cymryd rhan yn yr ymchwil neu ddweud na, ac mae hynny'n iawn. Gallwch hefyd ddewis cymryd rhan yn nwy ran yr ymchwil neu ddim ond roi caniatâd i ni edrych ar eich ffeiliau. Os ydych eisiau dysgu mwy am yr astudiaeth neu os am ofyn cwestiynau, cysylltwch â Dr Annie Williams yn WIliamsA55@cardiff.ac.uk neu ar 02920 688721, neu os yw hynny'n anodd, gofynnwch i ofalwr, gweithiwr allweddol neu aelod o staff i gysylltu â hi.

**Diolch am gymryd yr amser i ddarllen hwn!**

**13.4.3** Taflen Wybodaeth: Rhieni a Gofalwyr

# Dyfodol Diogel?

## Deall profiad plant a phobl ifanc o Gartrefi Diogel i Blant yng Nghymru

Rydym yn eich gwahodd i gynorthwyo Prifysgol Caerdydd i archwilio defnydd plant a phobl ifanc Cymru o Gartrefi Diogel i Blant. Cyn i chi benderfynu os ydych chi am gymryd rhan ai peidio, mae'n hanfodol eich bod yn deall yr ymchwil a beth fyddai angen i chi wneud. Darllenwch y canlynol yn ofalus.

### Pwy sy'n trefnu ac yn ariannu'r ymchwil?

Gofal Cymdeithasol Cymru sy'n ariannu'r prosiect. Mae'r prosiect yn archwilio profiadau plant a phobl ifanc o Gymru sy'n cael eu hystyried ar gyfer eu cartrefu, neu sydd wedi cael eu cartrefu, mewn Cartrefi Diogel i Blant am resymau lles. Oddi mewn i hynny, mae diddordeb arbennig mewn deall profiad a chanlyniadau plant a phobl ifanc o'u persbectif eu hunain.

### Pam mae angen yr ymchwil yma?

Mae nifer y plant a phobl ifanc o Gymru mewn Cartrefi Diogel i Blant ar gynnydd. Mae'r prosiect yn ceisio deall:

- Beth ddaeth â'r plant yma i Gartrefi Diogel i Blant,
- A yw eu hanghenion yn cael eu cefnogi a'u diwallu gan yr ymyriadau a dderbyniant,
- Pryd a sut y gwneir penderfyniadau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol, yn dilyn eu cyfnod mewn Cartrefi Diogel i Blant,
- Profiadau plant a phobl ifanc pan fyddant yn gadael,
- Profiadau'r rhai hynny ag anghenion unigryw penodol,
- Beth ddigwyddodd i blant lle cyflwynwyd gorchmynion ond nad oedd gwely mewn lleoliad diogel ar gael.

### Beth yw'r buddion posibl?

Y nod yw defnyddio'r wybodaeth a gesglir i lunio arfer a gwasanaethau mewn ffyrdd sy'n fwy tebygol o ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc sy'n defnyddio neu sy'n debygol o ddefnyddio Cartrefi Diogel i Blant.

### Pam yr holwyd i mi gymryd rhan?

Cafodd eich plentyn ei ystyried ar gyfer, neu mae ganddo brofiad o ddefnyddio, Cartrefi Diogel i Blant. Hoffem gael eich caniatâd i edrych ar ffeiliau awdurdod eich plentyn gan fod y rhain yn cynnwys gwybodaeth am y gofal a'r gefnogaeth a gawsoch chi a'ch plentyn y tu allan i Gartrefi Diogel i Blant. Mae hefyd yn bosibl yr hoffem siarad â chi am hynny, er mwyn clywed beth oedd eich profiad, y problemau a sut rydych chi'n meddwl y gellid newid neu wella pethau.

### A yw cymryd rhan yn gyfrinachol?

Mae'r holl wybodaeth a geir gennych yn cael ei thrin yn hollol gyfrinachol. Ni fydd modd olrhain unrhyw gofnodion a gedwir gan y brifysgol yn ôl i chi.

### Beth sy'n digwydd os wyf yn penderfynu tynnu'n ôl?

Rydych yn rhydd i dynnu'n ôl unrhyw bryd, heb unrhyw ganlyniadau negyddol i chi nag i'ch plentyn.

### Beth yw'r risgiau posibl?

Rydym yn deall y gall siarad am ddigwyddiadau a phrofiadau teuluol beri gofid, a byddem yn hapus i roi taflen i chi sy'n cynnwys manylion cyswllt ar gyfer asiantaethau cefnogol.

Os oes unrhyw ran o'r wybodaeth nad yw'n glir, neu os hoffech i ni ddarparu gwybodaeth bellach, cysylltwch â'r ymchwilydd arweiniol:

Dr Annie Williams
029 2087 4983
williamsa55@cardiff.ac.uk

**Diolch am ystyried cymryd rhan yn y gwaith ymchwil hwn.**